

# Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru 2014-2020

## Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Gorffennaf 2014

Welsh European Funding Office
Europe and Wales: Investing in your future

Mott MacDonald

# Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru 2014-2020

## Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Gorffennaf 2014

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Mott MacDonald, 35 Newhall Street, Birmingham, B3 3PU, Deyrnas Unedig
Ffôn: +44 (0)121 234 1500 E-bost: birmingham@mottmac.com Gwefan: www.mottmac.com

312880/ITD/ITN/4/A
ADRODDIAD AEC

# Cynnwys


| Pennod | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad a chefndir | 1 |
| 2. | Oedran | 14 |
| 3. | Anableddau | 31 |
| 4. | Ailaseinio rhyw | 38 |
| 5. | Priodas a phartneriaeth sifil | 40 |
| 6. | Beichiogrwydd a mamolaeth | 42 |
| 7. | Hil ac ethnigrwydd | 44 |
| 8. | Crefydd neu gred | 51 |
| 9. | Rhyw a rhywedd | 55 |
| 10. | Tueddfryd rhywiol | 60 |
| 11. | Iaith: Siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg | 63 |
| 12. | Chasgliadau ac Argymhellion | 72 |

Atodiadau 82

Appendix A. Cyd-destun Polisi 83

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1 Cefndir yr astudiaeth

Ym mis Awst 2012 comisiynwyd Old Bell 3 a'i gymdeithion (gan gynnwys Mott MacDonald) gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO - rhan o Lywodraeth Cymru) i gyflawni gwerthusiad ex-ante o chwech o Raglenni ariannu'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer y cyfnod rhaglenni 2014-2020 sydd ar ddod:

- Rhaglenni Gweithredol ar wahân ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn ôl eu trefn yn ymwneud â'r:
  - Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF)
  - Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
- Y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP)
- Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru (INTERREG)

Mae'r broses werthuso ex-ante yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) y Rhaglenni. Comisiynwyd yr AEC i ddeall p'un a yw unrhyw un o'r rhaglenni - trwy eu dyluniad neu weithrediad - yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion cymdeithasol-economaidd gwahanol. Amcan yr AEC yw helpu WEFO i sicrhau, wrth eu cyflwyno, y darperir cyfle cyfartal i'r holl bobl gymwys elwa o'r Rhaglenni.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau AEC y Rhaglen Iwerddon Cymru arfaethedig ar gyfer 2014-2020. Mae'n ystyried effeithiau posib blaenoriaethau, themâu ac ymyraethau allweddol bwriadedig y Rhaglen ar gyfer Iwerddon a Chymru.

## 1.2 Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru ar gyfer 2014-2020

### 1.2.1 Y Cronfeydd Strwythurol

Mae'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cynnwys ERDF (y mae'r rhaglen Iwerddon Cymru yn rhan ohoni) ac ESF wrth ochr Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), y mae'r RDP yn rhan ohoni, a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF).

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi datblygu Fframwaith Strategol Cyffredin (FfSC) i gynyddu cydlyniant rhwng y Cronfeydd Strwythurol. Amcan y FfSC yw gwella cydlyniant a sicrhau cynnydd mewn targedu'r defnydd o'r cronfeydd. Mae'n anelu at gyflawni hyn trwy ddisgrifio sut gall y Cronfeydd Strwythurol weithio ar y cyd.

Ariennir y Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol trwy ERDF a'i nod yw cryfhau cydweithredu ar draws ffiniau, trawsgenedlaethol a rhyngranbarthol. Mae'r Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru yn rhan o'r amcan hwn. Mae'r Rhaglen yn anelu at gryfhau cydweithredu ar draws ffiniau rhwng y ddwy wlad.

### 1.2.2 Y Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru

Mae'r Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Iwerddon Cymru yn cynnwys set o dri Amcan Thematig (AT) sy'n gweddu i'w gilydd, tair Blaenoriaeth Buddsoddi (BB) a thri Amcan Penodol (AP).

Y tair Echel Blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2014-20 yw:
- Arloesedd
- Newid yn yr hinsawdd
- Adnoddau Diwylliannol a Naturiol.

Mae'r rhaglen yn anelu at gynyddu arloesed, gwella cysylltiadau rhwng Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, a chynorthwyo trosglwyddo ymchwil i nwyddau, prosesau a gwasanaethau a all arwain at allbynnau masnachol ac economaidd. Yn ogystal â hynny mae'n anelu at helpu i ddiogelu'r amgylchedd, cynorthwyo wrth ostwng perygl newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo yn ardal y Rhaglen  a chefnogi gweithgarwch arloesol. Mae swyddi a thwf yn thema sy'n bresennol ar draws yr y tair Echel blaenoriaeth. Mae Echel Blaenoriaeth 1 yn cyfeirio'n benodol at arloesed cymdeithasol. Trwy gefnogi technolegau, nwyddau, prosesau a gwasanaethau sy'n debygol o fod ag effaith gymdeithasol fawr, mae'r Rhaglen yn anelu at gynyddu cydlyniant cymdeithasol ac economaidd.

Mae cynhwysiad cymdeithasol wedi'i ymwreiddio ar draws y tair Echel Blaenoriaeth, ac felly bydd yn rhan allweddol o'r meini prawf dethol ar gyfer rhaglenni.

Mae gweithgareddau'r Rhaglen yn canolbwyntio ar siroedd dwyreiniol Iwerddon ac arfordir gorllewinol Cymru. Mae Gorllewin Cymru wedi'i hadnabod fel rhanbarth llai datblygedig gan y Comisiwn Ewropeaidd. Gan hynny mae'n derbyn cefnogaeth ychwanegol gan Raglen Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i hyrwyddo cydgyfeirio economaidd gyda rhanbarthau mwy datblygedig yn yr UE. Mae siroedd dwyreiniol Iwerddon wedi eu hadnabod fel rhanbarth mwy datblygedig, ac felly yn derbyn lefel is o gefnogaeth ERDF na’r rhan Cymraeg.

### 1.2.3 Echelau Blaenoriaeth o dan y Rhaglen 2014-2020

#### 1.2.3.1 Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

Amcan y Flaenoriaeth hon yw cefnogi a hyrwyddo ymchwil ac arloesed. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau 'profi' neu 'ddatblygu' gweithgareddau arloesol; gan hynny mae'r gronfa'n ceisio gweithredu fel 'hwylusydd' i'r broses. Mae'n anelu at hwyluso arloesiadau i symud i'r farchnad, ac yn cefnogi strategaethau arbenigo craff perthnasol. O dan y flaenoriaeth hon hefyd yw cydnabod arloesiadau sy'n debygol o gael effaith ar broblemau mewn cymdeithas.

Gellir gweld manylion y Blaenoriaethau, Amcanion a Mathau o Weithredu (MoW) yn y tabl isod.

Tabl 1.1: Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan Thematig 1: Cryfhau ymchwil, datblygiadau technegol ac arloesed</th></tr>
<tr><td colspan="3">Blaenoriaeth Buddsoddi 1 yn Echel Blaenoriaeth 1:<br>(1b) hyrwyddo diddordeb busnes mewn arloesed ac ymchwil, a datblygu cysylltiadau a synergedd rhwng mentrau, canolfannau YaD ac addysg uwch yn benodol; datblygu nwyddau a gwasanaethau, trosglwyddo technoleg, arloesed cymdeithasol a chymwysiadau gwasanaeth cyhoeddus, ysgogi galw, rhwydweithio, clystyrau ac arloesed agored trwy arbenigo'n graff sy'n cefnogi ymchwil dechnolegol a chymhwysol, llinellau peilot, gweithredoedd dilysu nwyddau cynnar, galluoedd cynhyrchu datblygedig a chynhyrchu cyntaf mewn Technolegau Galluogi Allweddol a lledaenu technolegau dibenion cyffredinol.</td></tr>
<tr><th colspan="3">Amcan Penodol 1: Cynyddu lefelau arloesedd trwy gydweithredu ar draws ffiniau yn ardal y Rhaglen, yn benodol gyda MBaCh, gan arwain at dwf mewn cynhyrchedd.</th></tr>
<tr><td>Camau gweithredu o dan Amcan Penodol 1</td><td>MoW 1: Adeiladu gallu i wella perfformiad arloesedd, gan dargedu'n benodol diffyg gallu o fewn MBaCh i arloesi trwy annod cydweithio ar draws sectorau ac ar draws ardal y Rhaglen.</td><td>Gall camau gweithredu gynnwys cydweithio ar:<br>• Dod â mudiadau ynghyd na fyddent fel arfer yn cydweithio (e.e. gweithio ar draws sectorau a sectorau lluosog, gan ddod â SAU a sefydliadau ymchwil ynghyd gyda phartneriaid y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector) i symbylu cydweithio a datblygu syniadau a chysyniadau newydd.<br>• Gwella cadwynau cyflenwi arloesol rhwng busnesau a chyda'r byd academaidd.<br>• Dylunio datrysiadau arloesol ar y cyd ar draws ffiniau, gan gynnwys astudiaethau dichonolrwydd, cwmpasu neu ddod o hyd i ffyrdd i oresgyn rhwystrau i arloesiadau.<br>• Datblygu bothau neu glystyrau diriaethol a digidol cost isel ar draws ffiniau ar gyfer busnesau a sectorau arloesol - gan gynnwys clystyrau a anelir at sgiliau craidd ac adnabod cyfleoedd busnes; a chlystyrau busnes arloesol yn seiliedig ar nodweddion daearyddol y rhanbarth, h.y., trefi bach ac amgylcheddau gwledig.<br>• Camau gweithredu peilot ar ddatblygu cyfnewid gwybodaeth ac offer gweithio ar y cyd.<br>• Gweithgareddau sy'n symbylu arloesedd.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | **MoW 2: Trosi prosesau ymchwil ac arloesedd i nwyddau,** prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, trwy gamau gweithredu cydweithredol sy'n gyrru datblygiad nwyddau, gwasanaethau neu brosesau penodol ymlaen at gam pan fyddant yn barod am y farchnad. | **Gall camau gweithredu gynnwys cydweithio ar:**<br>• Peilota mentrau i ddatblygu a phrofi nwyddau, prototeipiau, prosesau neu wasanaethau arloesol sydd â photensial masnachol.<br>• Datblygu a lansio defnyddiau ac addasiadau arloesol newydd ar gyfer technoleg, prosesau neu wasanaethau cyfredol mewn marchnadoedd newydd.<br>• Marchnata nwyddau, prosesau a gwasanaethau arloesol;.<br>• Masnacheiddio, amddiffyn a manteisio ar ymchwil (gan gynnwys ymchwil gymhwysol i wella parodrwydd at y farchnad).<br>• Cefnogi datblygu clystyrau arbenigo craff gyda ffocws ar gymhwyso ymchwil ac arloesedd yn fasnachol. |
| | **MoW3: Cyflwyno buddion i gymdeithas trwy arloesedd.** | • Dylunio a dangos nwyddau ar gyfer poblogaethau sydd wedi'u heithrio neu mewn perygl o gael eu heithrio.<br>• Datblygu a chyflwyno gwasanaethau neu offer ariannol ar draws ffiniau sy'n mynd i'r afael â'r heriau demograffig neu gymdeithasol a amlygwyd yn ardal y Rhaglen, yn benodol diweithdra, amddifadedd, anghydraddoldebau iechyd, perifferoldeb/unigedd gwledig ac integreiddio cymdeithasol.<br>• Datblygu clystyrau neu rwydweithiau ar draws ffiniau sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd cymunedau - yn enwedig cymunedau gwledig ac arfordirol.<br>• Cefnogaeth a chydweithrediad ar draws ffiniau er mwyn i fentrau cymdeithasol ymwneud ag arloesedd - gan gynnwys datblygu bothau a chlystyrau cost isel ar draws ffiniau; camau gweithredu i wella cyfathrebu a chysylltiadau rhwng mentrau cymdeithasol a'r sector arloesedd; a phartneriaethau ar draws ffiniau rhwng SAU a sefydliadau ymchwil a'r gymuned. |

### 1.2.3.2 Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr hinsawdd

Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar sut mae ardal y Rhaglen yn addasu i effeithiau 'newid yn yr hinsawdd'. Mae'n cydnabod pwysigrwydd yr ymagwedd eco-arloesi wrth ymateb i'r heriau hyn ac elwa o'r cyfleoedd posib y mae newid yn yr hinsawdd yn eu cynnig.

Tabl 1.2: Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr hinsawdd

<table>
<tr><th colspan="3">Amcan Thematig 5: Hyrwyddo addasu i newid yn yr hinsawdd, atal a rheoli risgiau</th></tr>
<tr><td colspan="3">Blaenoriaeth Buddsoddi 1 yn Echel Blaenoriaeth 2:<br>(5a) Cefnogi buddsoddi ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd gan gynnwys ymagwedd seiliedig ar ecosystemau.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Amcan Penodol 2: Gwella gallu ardal y Rhaglen i addasu i newid yn yr hinsawdd trwy gydweithredu ar draws ffiniau</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Camau gweithredu i'w rhoi ar waith</td><td>MoW4 - datblygu Datrysiadau Addasu a'u Rhoi ar Waith</td><td>Camau Gweithredu:<br>• Astudiaethau i ddeall effaith newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd ac ar gymdeithas, economi a busnesau ardal y Rhaglen.<br>• Datblygu sylfaen wybodaeth ar addasu i newid yn yr hinsawdd, monitro, arolygu neu fapio i leihau ansicrwydd i ecosystemau, bioamrywiaeth ac acwafeithrin.<br>• Datblygu galluoedd ar draws ardal y Rhaglen i adnabod, meintioli ac asesu risgiau effeithiau/sefyllfaoedd newid yn yr hinsawdd leol (cadarnhaol/negyddol) ar ddatblygu economaidd (ac ar fusnesau'n benodol), cynhwysiad cymdeithasol ac adnoddau naturiol.<br>• Datblygu strategaethau addasu seiliedig ar dystiolaeth ar draws ffiniau, cynlluniau rheoli a phrosiectau peilot er mwyn troi'r hyn a allai fel arall fod yn nodweddion negyddol yn nodweddion cadarnhaol - yn enwedig mewn perthynas â'r amgylchedd morol ac arfordirol.<br>• Datblygu mesurau addasu perthnasol ar draws ffiniau, yn enwedig ar gyfer cymunedau'r arfordir a'r amgylchedd morol.<br>• Mesurau ar draws ffiniau i annog y defnydd o strategaethau a mesurau addasu i newid yn yr hinsawdd - gan gynnwys ymgyrchoedd a chynlluniau gweithredu ar draws ffiniau i hyrwyddo diddordeb.<br>• Trosglwyddo gwybodaeth, arbenigedd ac arfer gorau ar fesurau addasu rhwng dau ranbarth ardal y Rhaglen.</td></tr>
<tr><td>MoW 5 – Eco-arloesedd</td><td>Camau Gweithredu:<br>• Peilot mentrau i ddatblygu a phrofi nwyddau, prototeipiau, prosesau neu wasanaethau arloesol yn y sector ynni adnewyddadwy - yn enwedig cynhyrchu ynni morol - gan gynnwys ymchwil ar draws ffiniau i ffynonellau ynni adnewyddadwy; prosiectau peilot i ddangos cymwysiadau ymarferol a'r gallu i drosglwyddo i fusnes a chymunedau ehangach; ymchwil ac arloesedd cymhwysol ar y cyd ar addasu i newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cysyniadau, ymagweddau, nwyddau, prosesau, gwasanaethau a thechnolegau newydd gyda chyfranogiad ar draws ffiniau</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | gan SAU, sefydliadau ymchwil, busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector - gan ganolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd morwrol.<br>• Dangos a phrofi nwyddau, gwasanaethau, prosesau a systemau newydd sy'n gysylltiedig ag addasu i newid yn yr hinsawdd ar draws ffiniau.<br>• Creu clystyrau neu rwydweithiau eco-arloesedd ar draws ffiniau Môr Iwerddon - gan greu llwyfan i SAU, y Trydydd Sector, busnesau ac asiantaethau sector cyhoeddus gydweithio a chydlynu eu gweithgareddau ar draws ffiniau i ddiwallu anghenion ardal y Rhaglen.<br>• Ymgyrchoedd sy'n datblygu cysyniad y gwyddonydd dinesig (h.y. cyfranogiad cymunedol) gan weithio'n arloesol gyda SAU a sefydliadau ymchwil eraill. |

### 1.2.3.3 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

Mae'r Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y rhai sy'n elwa o asedau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, yn enwedig y rhai morwrol ac arfordirol eu natur. Trwy ganolbwyntio ar y defnydd cynaliadwy o'r adnoddau hyn i gyflwyno twf economaidd, bydd ardal y Rhaglen yn mynd yn lle mwy dymunol i fyw, adleoli iddo, gweithio ac ymweld ag ef.

Tabl 1.3: Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

| **Amcan Thematig 6:** *Diogelu'r amgylchedd a hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau* |
|---|
| **Blaenoriaeth Buddsoddi 1 yn Echel Blaenoriaeth 3:**<br>(6c) Cadw, diogelu, hyrwyddo a datblygu treftadaeth naturiol a diwylliannol |

| **Amcan Penodol 3:** *Gwireddu potensial asedau naturiol a diwylliannol mewn ffordd gynaliadwy wrth gyflwyno twf economaidd ar draws ardal y Rhaglen* | | |
|---|---|---|
| Camau gweithredu i'w rhoi ar waith | **MoW 6 – Gwella Twf Economaidd** trwy gamau gweithredu cydweithredol ar draws ffiniau sy'n cadw treftadaeth ac asedau diwylliannol a naturiol unigryw ardal y Rhaglen, gan fanteisio ar y gefnogaeth hon i wella a datblygu'r economi leol. | • Hyrwyddo atyniadau twristiaeth arbennig ar draws ffiniau gan gynnwys atyniadau arfordirol a diwylliannol a safleoedd treftadaeth forwrol - gan gynnwys ymagweddau marchnata ar draws ffiniau; a rhoi digwyddiadau a mesurau cyfathrebu ar draws ffiniau ar waith i ysgogi diddordeb.<br>• Datblygu twristiaeth forwrol ar draws ffiniau - gan gynnwys cefnogaeth twristiaeth fordaith.<br>• Datblygu gweithgarwch entrepreneuraidd, MBaCh a microfentrau sy'n weithredol yn y sectorau treftadaeth naturiol, twristiaeth, creadigol a threftadaeth ddiwylliannol - gan gynnwys profi a dangos ymagweddau gwahanol at adfywio neu wella'r diwydiannau hyn.<br>• Hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac economaidd pysgodfeydd a diwydiannau morwrol traddodiadol ar draws ffiniau - gan gynnwys profi a dangos ymagweddau gwahanol at adfywio neu wella'r diwydiannau hyn.<br>• Defnyddio cryfderau sydd eisoes yn bodoli mewn treftadaeth greadigol a diwylliannol i gyflwyno buddion mewn perthynas â thwf economaidd, datblygu a buddion cymdeithasol - gan gynnwys cefnogi ehangiadau neu gychwyn busnesau newydd yn yr ardaloedd hyn.<br>• Cefnogi datblygu, cynhyrchu a masnacheiddio nwyddau, prosesau a gwasanaethau sy'n seiliedig ar nodweddion diwylliannol a lleol unigryw. |
| | MoW 7 – Datblygu a Hyrwyddo Camau Datblygu Cynaliadwy Cymdeithas Gynhwysol sy'n grymuso cymunedau i gyflwyno cadwraeth, datblygu ac adfywio yn eu cymunedau eu hunain trwy fanteisio'n gynaliadwy ar y | • Adfywio cymunedol trwy ddatblygu cynaliadwy a chreu swyddi yn seiliedig ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol - yn canolbwyntio'n benodol ar gymunedau gwledig - gan gynnwys hyrwyddo a datblygu mentrau treftadaeth ddiwylliannol gyda phwyslais ar gefnogi datblygiad economaidd.<br>• Defnyddio cryfderau traddodiadol, diwylliannol a chreadigol i wella ardal a'i gwneud yn lle mwy dymunol i fyw, adleoli iddo, gweithio ac ymweld ag ef.<br>• Cynnwys cymunedau yng nghadwraeth eu treftadaeth naturiol a diwylliannol - gan gynnwys creu gallu o fewn cymunedau i ymgysylltu a rhannu arfer gorau a syniadau mewn datblygu cymunedol. amgylcheddol ac economaidd arloesol; cefnogi datblygu a hyrwyddo gweithgareddau diogelu/gwella amgylcheddol ar y cyd; a phartneriaethau ar draws ffiniau rhwng budd-ddeiliaid ymchwil a'r gymuned.<br>• Rhannu arbenigedd ar draws ffiniau i wneud yr ardal yn lle |


| | | |
|---|---|---|
| | dreftadaeth a'r asedau naturiol a diwylliannol sydd ar gael iddynt. | mwy dymunol i fyw, adleoli iddo, gweithio ac ymweld ag ef - gan gynnwys datblygu clystyrau trosglwyddo gwybodaeth. |

Mae'r Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru yn cwmpasu ardal o tua 27,000km, a ddangosir yn y ffigur isod. Mae'r ardal yn cynnwys yr ardaloedd canlynol:

- Dulyn, Dwyrain y Canolbarth a'r De-ddwyrain yn Iwerddon gan gynnwys Cork a Gogledd Tipperary; ac
- Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Wrecsam, Fflint, Sir Ddinbych, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ag Abertawe yng Nghymru.

Mae 70 y cant o boblogaeth ardal y Rhaglen yn Iwerddon, a 30% yng Nghymru.

Ffigur 1.1: Ardal y Rhaglen




Contains Ordnance Survey data
© Crown copyright and database right 2014

## 1.3 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

### 1.3.1 Y brîff

Mae'r AEC hwn yn cael ei gyflawni i ddarparu tystiolaeth i gefnogi rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru (fel awdurdod rheoli'r Rhaglen) o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y

Sector Cyhoeddus (DCSC) i ddangos ystyriaeth briodol ar gyfer nodweddion sydd wedi'u diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bwriedir hefyd iddo ddarparu tystiolaeth o gydymffurfio â chyfrifoldebau Llywodraeth Iwerddon o dan y Deddfau Statws Cyfartal 2000-2008. [1]

Gan mai Cymru yw'r awdurdod rheoli ar gyfer y cyfnod rhaglenni 2014-2020, mae'r AEC hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gydymffurfio â deddfwriaeth Cymru a'r DU. Yn benodol, mae WEFO yn gofyn bod yr AEC yn ystyried nifer o agweddau ar y Rhaglen Iwerddon Cymru arfaethedig fel a ganlyn:

- Wrth roi strategaethau a Blaenoriaethau'r Rhaglen ar waith, asesu p'un a fydd y Rhaglen yn cael effaith wahaniaethol ar gyfer grwpiau penodol o bobl ai beidio.
- Cyfeirio sut y dylid ystyried materion cydraddoldeb mewn unrhyw ailddyluniad o'r Rhaglen.
- Cyfeirio sut y dylid ystyried materion cydraddoldeb wrth lunio trefniadau rhoi ar waith.
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb yn y Rhaglen.
- Cynnig datrysiadau ar gyfer cael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a allai gael eu hadnabod trwy'r asesiadau.

### 1.3.2 Ynghylch Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Yn adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r DCSC yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried pob unigolyn wrth lunio polisi, wrth gyflwyno gwasanaethau ac mewn perthynas â'u cyflogeion eu hunain. Mae'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen am gael gwared ar wahaniaethu, datblygu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl wahanol wrth iddynt gyflawni eu gweithgareddau.

Bwriedir i'r DCSC gefnogi gwneud penderfyniadau da - mae'n annog cyrff cyhoeddus i ddeall sut y bydd pobl wahanol yn cael eu heffeithio, fel bod eu polisïau a gwasanaethau'n briodol ac yn hygyrch i bawb ac yn diwallu anghenion pobl wahanol. Trwy ddeall effaith eu gweithgareddau ar bobl wahanol, gall cyrff cyhoeddus fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae'r DCSC yn mynnu bod adrannau llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus (a'r rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno swyddogaethau cyhoeddus) yng Nghymru'n rhoi ystyriaeth briodol i'r tri amcan a ganlyn:

- cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
- datblygu cyfle cyfartal ymysg grwpiau gwahanol; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol.

1 Gweler: http://www.equality.ie/en/Publications/Information-Publications/Your-Equal-Status-Rights-Explained.html

Gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio AEC i gefnogi glynu wrth y DCSC a chydnabyddir yn gyffredinol eu bod yn arfer gorau ar gyfer datblygiadau polisi neu Raglen sylweddol. Maen nhw'n asesiad systematig o effaith debygol neu wirioneddol polisïau, Rhaglenni a datblygiadau yn y 'nodweddion gwarchodedig' a ganlyn (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010):

- **Oedran** (yn cynnwys pob grŵp oedran, a chan fod yn arbennig o ymwybodol o blant dan 16 oed, pobl iau 16-24 oed a phobl hŷn 65 oed a hŷn);
- **Anabledd** (a all gynnwys pobl â namau synhwyraidd, namau symudedd, anableddau dysgu ac anableddau lles meddyliol);
- **Ailaseinio rhyw** (gan gynnwys pobl sydd ar unrhyw gam o therapi ail-aseinio rhyw);
- **Priodas a phartneriaeth sifil** (gyda ffocws ar wahaniaethu'n unig ar sail p'un a yw rhywun yn briod ai beidio mewn partneriaeth sifil - nid yw pobl sengl yn dod o dan y nodwedd hon);
- **Beichiogrwydd a mamolaeth** (gan gynnwys menywod beichiog a mamau sy'n bwydo o'r fron);
- **Hil ac ethnigrwydd** (a all gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw croen neu genedligrwydd);
- **Crefydd neu gred** (a all gynnwys pob grŵp ffydd neu gred grefyddol, gan gynnwys diffyg cred);
- **Rhyw / rhywedd** (gan gynnwys dynion a menywod); a
- **Thueddfryd rhywiol** (gan gynnwys pobl heterorywiol, lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol (LHD)).

Prif amcanion AEC yw:

a. asesu p'un a allai un neu fwy o'r grwpiau hyn brofi effeithiau ***anghymesur*** (yn fwy na'r effeithiau sy'n debygol o gael eu profi gan y boblogaeth yn gyffredinol) o ganlyniad i roi polisi ar waith neu'r ffordd y mae gwasanaeth yn cael ei gyflwyno;
b. adnabod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn fwy effeithiol neu i raddau mwy; a
c. datblygu dulliau dileu neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol anghymesur er mwyn atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon ac isafu anghydraddoldeb mewn canlyniadau.

Mae arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth (SCLl)[2] a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yn egluro bod cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn rhywbeth a ddylai ddigwydd mor gynnar â phosib yn y broses datblygu polisi:

> “Mae dadansoddi cydraddoldeb yn dechrau cyn datblygu polisi neu yng nghamau cynnar unrhyw adolygiad. Nid yw'n ymarfer unigol, mae'n barhaus ac yn gylchol ac mae'n galluogi i ystyriaethau cydraddoldeb gael eu cymryd i ystyriaeth cyn gwneud penderfyniad.
>
> Bydd dadansoddiad cydraddoldeb o bolisïau arfaethedig yn ymwneud ag ystyried eu heffeithiau tebygol neu bosib cyn unrhyw roi ar waith posib. Bydd yn ymwneud â monitro beth sy'n digwydd yn ymarferol hefyd. Bydd aros am wybodaeth am yr

2Mae'r GEO bellach wedi'i hymgorffori yn y Swyddfa Gartref.

effeithiau go iawn yn peri'r risg o'i adael yn rhyw hwyr i'ch dadansoddiad cydraddoldeb fedru cyfeirio unrhyw benderfyniadau a wneir."[3]

Yn y cam cynnar hwn o'r Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru mae cyfle i ystyriaethau cydraddoldeb gael eu hintegreiddio'n llawn. Amlinellir y tasgau a gyflawnir yn Ffigur 1.3 isod.

Ffigur 1.2: Methodoleg AEC

| Tasg | Disgrifiad | Prosesau |
|---|---|---|
| Tasg 1 | Adolygu Tystiolaeth gyfredol | Gan Adolygu:<br>▪ Y cyd-destun polisïau cydraddoldeb yng Nghymru ac Iwerddon<br>▪ Ymchwil a llenyddiaeth gyfredol ar ddeunyddiau sydd wedi'u cynnwys gan y Rhaglen gan gynnwys: Cefnogi MBaCh, arloesedd, ymchwil a datblygu a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chyflogaeth, sgiliau a chyrhaeddiad pobl ifanc.<br>▪ Rhaglenni Gweithredol y gorffennol, gan gynnwys y rhai o 2000-2006 a 2007-2013, gwerthusiadau a gyflawnwyd ar y Rhaglenni a phrosiectau, a chanfyddiadau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb pan fyddant ar gael.<br>▪ Arfer da mewn cyflwyno Rhaglenni a phrosiectau yng Nghymru ac Iwerddon. |
| Tasg 2 | Adolygiad manwl o ddogfen ymgynghori'r Rhaglen Weithredol ddrafft | Archwilio'r Blaenoriaethau o fewn y Rhaglen Weithredol ddrafft, gyda ffocws penodol ar y gweithgareddau y bwriedir iddynt gael eu hariannu o dan bob pennawd er mwyn adnabod y meysydd hynny lle mae effeithiau'n debygol o ddigwydd. |
| Tasg 3 | Dadansoddiad cymdeithasol a demograffig o nodweddion gwarchodedig yng Nghymru ac Iwerddon | Defnyddio'r ffynonellau data mwyaf diweddar gan gynnwys amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011) ar gyfer Cymru a Gweriniaeth Iwerddon er mwyn darparu gwaelodlin gymdeithasol a demograffig ar gyfer ardal y Rhaglen. |
| Tasg 4 | Adolygu gweithdrefnau a gweithgareddau cydraddoldeb | Ymgysylltu â swyddogion WEFO ac adolygiad cryno o ddogfennau tystiolaeth (gan gynnwys gweithgorau, cofnodion cyfarfodydd, gweithdrefnau, strwythurau timau a thystiolaeth debyg) i ddeall i ba raddau y mae cydraddoldeb wedi cael ei ystyried fel rhan o broses ddatblygu'r Rhaglen. |
| Tasg | Dadansoddiad o | Asesiad o effeithiau anghymesur tebygol y Rhaglenni fesul |

3Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): ’Dadansoddi Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Gydraddoldeb’

| Tasg | Disgrifiad | Prosesau |
|---|---|---|
| 5 | gydraddoldeb | nodweddion gwarchodedig, y gellir eu priodoli i Echelau Blaenoriaeth unigol. |
| Tasg 6 | Adrodd ar ganfyddiadau'r AEC | Adrodd ar ganfyddiadau'r broses AEC o fewn yr adroddiad hwn.<br>Gan gynnwys cyfres o gasgliadau ac argymhellion trosgynnol ar gyfer symud y Rhaglenni ymlaen i ymgynghori, paratoi terfynol a chyflwyno. |
| Tasg 7 | Ymgynghori â budd-ddeiliaid | Cyflwyno canfyddiadau'r AEC fel rhan o'r broses ymgynghori â'r cyhoedd wrth ochr dogfennau'r Rhaglen Weithredol ddrafft ar gyfer y Rhaglen Iwerddon Cymru. |
| Tasgau Pellach:<br>Pan gwblheir yr ymgynghoriad bydd ail iteriad o'r adroddiad AEC yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno. | | |

## 1.4 Strwythur yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Mae penodau dau i ddeg** yn canolbwyntio ar bob un o'r nodweddion gwarchodedig statudol a siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg. Mae pob pennawd yn darparu'r canlynol:
  - dadansoddiad o **broffil cymdeithasol a demograffig** pob grŵp
  - Asesiad o'r **heriau a wynebir** gan bobl sydd â'r nodwedd warchodedig honno a'r **potensial am effeithiau anghymesur** y Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru arnynt. Gan alw ar ystod o dystiolaeth, mae'r effeithiau potensial wedi'u priodoli i'r gweithgareddau o fewn pob Echel Blaenoriaeth unigol. Pan fo swm y dystiolaeth yn gyfyngedig, mae effeithiau mwy cyffredinol yn cael eu hadnabod ar draws nifer o'r Echelau, neu ar draws y Rhaglen.
  - **Mae cyfleoedd** wedi'u hadnabod yn yr achosion hynny lle mae posibilrwydd o effaith anghymesur, ond mae'r effaith honno'n ddibynnol ar weithgarwch ychwanegol (megis ymagwedd wedi'i theilwra at gefnogaeth) yn ystod y cam cyflwyno neu roi ar waith.
  - **Darperir mesurau lliniaru** ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol anghymesur sydd wedi'u hadnabod ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchodedig.
  - Darperir rhai **casgliadau** trosgynnol ynglŷn ag effaith y Rhaglen ochr yn ochr â chyfres o **argymhellion** i'w datblygu ymhellach a'u cyflwyno'n benodol i'r grŵp hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau o wella cydraddoldeb ymhellach ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

- **Mae Pennod un ar ddeg** yn darparu crynodeb trosgynnol o ganlyniad y dadansoddiad a gyflawnir, yn ogystal â chynnig peth sylwadaeth ar y dystiolaeth a ddarperir i gefnogi cydymffurfio â deddfwriaeth gydraddoldeb, ynghyd â chyfres o argymhellion pendant ar gyfer datblygiad pellach a rhoi ar waith.

- **Mae Atodiad A** yn amlinellu'r fframwaith polisi ar gyfer y Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru yng nghyd-destun cydraddoldeb. Mae'n amlygu polisïau'r DU sy'n symbylu'r agenda gydraddoldeb o fewn Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ochr yn

ochr â pholisïau cydraddoldeb y DU, Cymru ac Iwerddon. Yn ogystal â hynny, mae'r bennod yn amlinellu'r cefndir polisi sy'n symbylu'r angen am gynnwys y Gymraeg a'r Wyddeleg fel rhan o'r asesiad.

### 1.5 Tybiaethau a chyfyngiadau

Mae'r adroddiad AEC hwn yn ddrafft. Mae'r canfyddiadau sydd wedi'u cynnwys yma'n parhau'n destun cadarnhad a newid pellach yng ngoleuni newidiadau i ddogfennau Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020.

# 2. Oedran

## 2.1 Cyflwyniad

Oherwydd natur y Rhaglen, mae'r bennod hon yn ymchwilio i amrediadau oedran gwahanol a all brofi effeithiau anghymesur o'i gymharu â gweddill y boblogaeth:


- Plant (dan 16 oed)
- Pobl ifanc (16-24 oed)
- Pobl hŷn (65 oed ac yn hŷn)

## 2.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

### 2.2.1 Plant (dan 16 oed)


Mae'r ffigur isod yn dangos dwysedd y boblogaeth blant (nifer y plant fesul cilometr sgwâr) a chyfran y plant (canran y boblogaeth dan 16 oed) yn ardal y Rhaglen Iwerddon Cymru.

Ffigur 2.1: Ardal y Rhaglen: Dwysedd Dan 16 Oed




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Ffigur 2.2: Ardal y Rhaglen: Cyfran Dan 16 oed




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r map cyntaf yn dangos:

- Bod dwysedd poblogaeth plant dan 16 oed ar gyfer mwyafrif helaeth ardal y Rhaglen o dan 50 o blant fesul cilometr sgwâr.
- Mae'r dwysedd poblogaeth uchaf o blant dan 16 oed yn rhan ogledd-ddwyreiniol ardal y Rhaglen, o gwmpas Dulyn.

Fodd bynnag, yn gymesur mae'r boblogaeth dan 16 oed wedi'i lledaenu'n fwy cyfartal.

- Mae gan y mwyafrif o'r boblogaeth yn rhan Gymru ardal y Rhaglen gyfran o 14-21% o blant dan 16 oed.Ceir rhai pocedi gwasgaredig ar draws Rhaglen Cymru sy'n cynnwys cyfran uwch o blant dan 16 oed yn y boblogaeth, a rhai gyda chyfran is.
- Mae gan y mwyafrif o'r boblogaeth yn rhan Iwerddon ardal y Rhaglen gyfran uwch o blant dan 16 oed (21-28%), gyda llawer o ardaloedd llai ar draws ardal y Rhaglen gyda chyfrannau uwch ac is o blant dan 16 oed.
- Ceir crynodiad is o blant dan 16 oed yn cyfrif am 7-14% neu 14-21% o'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardaloedd o gwmpas Dulyn.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y plant dan 16 oed sy'n byw yn rhannau Iwerddon a Chymru ardal y Rhaglen, gan ganiatáu cymhariaeth rhyngddynt yn erbyn ardal y Rhaglen yn gyffredinol.

Tabl 2.1: Nifer a chyfran y plant dan 16 oed

| | Pob preswylydd arferol | Dan 16 oed | Dan 16 oed % |
|---|---|---|---|
| Ardal Iwerddon | 2,891,008 | 644,157 | 21% |
| Ardal Cymru | 1,309,098 | 231,070 | 18% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 875,227 | 19% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011


Mae'r tabl yn dangos y canlynol:

- Mae cyfran y plant dan 16 oed yn uwch yn ardal Iwerddon y Rhaglen neu yn ardal Cymru'r Rhaglen (21% o'i gymharu â 18%).
- Y cyfartaledd ar gyfer ardal gyfan y Rhaglen yw 19%.

### 2.2.2 Pobl ifanc


Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran pobl ifanc (16-24 oed) yn ardal y Rhaglen.

Ffigur 2.3: Ardal y Rhaglen: Dwysedd 16-24




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Ffigur 2.4: Ardal y Rhaglen: Cyfran 16-24




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r map dwysedd yn dangos:

- Bod dwysedd poblogaeth pobl ifanc 16-24 oed ar gyfer mwyafrif helaeth ardal y Rhaglen o dan 50 o blant fesul cilometr sgwâr.
- Mae'r dwysedd poblogaeth uchaf o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi'i leoli yn rhan ogledd-ddwyreiniol ardal Iwerddon y Rhaglen, o gwmpas Dulyn, gyda llawer o ardaloedd sydd â mwy na 500 o bobl ifanc fesul cilometr sgwâr.

Mae'r map cyfran yn dangos:

- Bod gan y mwyafrif o'r boblogaeth yn rhan Cymru y Rhaglen gyfran o 6-9% neu 9-12% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed, gyda phocedi bach ar draws ardal Cymru sydd â chyfran uwch o blant dan 16 oed yn y boblogaeth.
- Mae rhan Iwerddon ardal y Rhaglen yn dangos cyfran gymysg o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Ceir pocedi gwasgaredig yn cynnwys cyfran uwch o bobl ifanc oed 16 i 24 (12-15% a >15% o'r boblogaeth) ar draws ardal Iwerddon y Rhaglen, gyda chrynodiad penodol o gwmpas ardal Dulyn.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl ifanc 16-24 oed sy'n byw yn rhannau Iwerddon a Chymru ardal y Rhaglen, gan ganiatáu cymhariaeth rhyngddynt yn erbyn ardal y Rhaglen yn gyffredinol.

Tabl 2.2: Nifer a chyfran y bobl 16-24 oed

| | Pob preswylydd arferol | 16-24 | 16-24 % |
|---|---|---|---|
| Iwerddon | 2,891,008 | 335,100 | 12% |
| Cymru | 1,309,098 | 156,320 | 12% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 491,420 | 12% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011


Mae'r tabl yn dangos y canlynol:

- Mae canran y bobl ifanc 16 i 24 oed yr un peth ar gyfer ardaloedd Cymru ac Iwerddon y Rhaglen (12%)
- Gan hynny, 12% yw cyfartaledd ardal gyfan y Rhaglen.

### 2.2.3 Pobl hŷn


Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd y boblogaeth dros 65 oed yng Nghymru.

Ffigur 2.5: Ardal y Rhaglen: Dwysedd Dros 65 Oed




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Ffigur 2.6: Ardal y Rhaglen: Cyfran Dros 65 Oed




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod dwysedd poblogaeth pobl dros 65 oed ar gyfer mwyafrif helaeth ardal y Rhaglen o dan 50 fesul cilometr sgwâr.
- Yng Nghymru, mae pocedi bach yng Ngogledd a de ardal y Rhaglen yn dangos dwysedd poblogaeth o dros 500 o bobl dros 65 oed.
- Mae'r dwysedd poblogaeth uchaf o bobl rhwng 65 oed wedi'i leoli yn rhan ogledd-ddwyreiniol ardal Iwerddon y Rhaglen, o gwmpas Dulyn, gyda llawer o ardaloedd sydd â mwy na 500 o bobl dros 65 oed fesul cilometr sgwâr.

Fodd bynnag, yn gymesur mae'r boblogaeth dros 65 oed wedi'i lledaenu'n fwy cyfartal:

- Yn ardal Cymru'r Rhaglen, deuir o hyd i'r cyfrannau uchaf o bobl dros t65 oed ar arfordir Gorllewinol Cymru; ardaloedd Abermaw, Dolgellau, Porthmadog ac Aberteifi. Mewn llawer o'r ardaloedd hyn, mae mwy na chwarter o'r boblogaeth dros 65 oed.
- Ar draws y rhan fwyaf o ardal Iwerddon y Rhaglen, mae'r gyfran o'r boblogaeth dros 65 oed yn wahanol iawn i ardal Cymru'r Rhaglen; mae mwyafrif y boblogaeth yn cynnwys rhwng 10 a 15% o bobl dros 65 oed. Mae gan lawer o bocedi bach o gwmpas ardal Dulyn yng Ngogledd-ddwyrain ardal y Rhaglen dros chwarter o'r boblogaeth dros 65 oed. Er hynny, mae gan rannau mawr i'r Gorllewin o Ddulyn gyfrannau isel o bobl dros 65 oed (5-10%).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl hŷn dros 65 oed sy'n byw yn rhannau Iwerddon a Chymru ardal y Rhaglen, gan ganiatáu cymhariaeth rhyngddynt yn erbyn ardal y Rhaglen yn gyffredinol.

Tabl 2.3: Nifer a chyfran y bobl dros 65 oed

| | Pob preswylydd arferol | Dros 65 oed | Dros 65 oed |
|---|---|---|---|
| Iwerddon | 2,891,008 | 321,878 | 12% |
| Cymru | 1,309,098 | 261,711 | 20% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 583,589 | 16% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r tabl yn dangos y canlynol:

- Mae canran lawer uwch o bobl dros 65 oed yn byw yn ardal Cymru'r Rhaglen (20% o'i gymharu ag 12%)
- Gan hynny, 16% yw'r cyfartaledd ar gyfer ardal y Rhaglen yn gyffredinol.

### 2.2.4 Tueddiadau a adnabuwyd gan y dadansoddiad economaidd a chymdeithasol o ardal y Rhaglen

Awgrymodd y rhagamcaniadau poblogaeth yn 2008 y byddai cynnydd cyffredinol o 25% yn y boblogaeth erbyn 2026. Byddai hyn yn gwneud cyfanswm poblogaeth Iwerddon yn 5.5 miliwn. Fodd bynnag, mae ffigurau a gynhyrchwyd gan Eurostat ers hynny wedi diwygio hyn i lawr i gynnydd o tua 10% erbyn 2025, gyda chynnydd o 20% erbyn 2035. Er y cafwyd cynnydd naturiol cyson ym mhoblogaeth Iwerddon, mae allfudo cynyddol wedi arafu twf y boblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

1. Cynyddodd mewnfudiad net Iwerddon yn sylweddol hyd at 2008 a dirywiodd wedi hynny, gan gyfateb i'r dirywiad economaidd. Bryd hynny aeth nifer yr allfudwyr yn fwy na mewnfudwyr. Ers 2009, mae allfudo yn sylweddol uwch ymysg pobl ifanc 15-44 oed, yn enwedig dynion ifanc.
2. Yng Nghymru mae rhagamcaniadau poblogaeth a ddarperir gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU yn awgrymu y bydd poblogaeth Cymru'n cynyddu 5% i 3.17 miliwn o bobl yn 2020 a 12% i 3.37 miliwn o bobl yn 2035. Mae'r canlynol ymysg y rhagamcaniadau allweddol eraill:
   - Rhagamcanir y bydd nifer y plant dan 16 oed yn cyrraedd brig o tua 605,000 erbyn 2027 cyn gostwng ychydig rhwng 2027 a 2035. Yn gyffredinol. rhagamcanir y bydd nifer y plant yn codi 7% rhwng 2010 a 2035.
   - Rhagamcanir y bydd nifer y bobl 16-64 oed yn aros yn gymharol gyson, gan gynyddu dim ond 1% rhwng 2010 a 2035 (20,000).
   - Rhagamcanir y bydd nifer y bobl 65 oed ac yn hŷn yn cynyddu 306,000 neu 55% rhwng 2010 a 2035.
   - Yng Nghymru rhagamcanir y bydd oedran canolrif y boblogaeth yn codi o 41.5 oed yn 2010 i 43.7 oed erbyn 2035.
3. Nid yw'r rhagamcaniadau hyn ar gael ar lefel ardal y Rhaglen, er hynny maent yn berthnasol i'r ardal yn gyffredinol. Un o nodweddion amlycaf y rhagamcaniadau hyn yw'r disgwyliad y bydd nifer y bobl 65 oed ac yn hŷn yng Nghymru'n cynyddu 55%

(mwy na 300,000 o bobl) erbyn 2035. Mae gan y newid demograffig rhagamcanedig hwn oblygiadau ar draws ystod o barthau cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys iechyd, tlodi, cyflogaeth a chludiant. Er enghraifft yn gyffredinol mae gan bobl hŷn fwy o anghenion gofal iechyd na phobl ifanc; maen nhw'n llai tebygol o fod mewn cyflogaeth ac yn tueddu i fod â llai o opsiynau i gael mynediad i wasanaethau.

## 2.3 Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur penodol wedi cael eu hadnabod ar gyfer grwpiau oedran gwahanol o ganlyniad i'r flaenoriaeth hon. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu na fydd pobl ifanc, pobl hŷn neu bobl oedran gwaith yn elwa o fuddsoddiad mewn gweithgareddau arloesol, dim ond na fydd y cyfryw effeithiau'n anghymesur o'i gymharu â'r rhai a brofir gan grwpiau oedran eraill.

## 2.4 Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd

### 2.4.1 Effaith: lleihau effaith negyddol newid yn yr hinsawdd ar bobl hŷn

Mae ardaloedd ar yr arfordir yn fwy tebygol o fod mewn perygl o newid yn yr hinsawdd nag ardaloedd mewndirol. Yn ogystal â newidiadau mewn llifogydd, tymheredd a glaw, mae'r arfordir yn cael ei effeithio hefyd gan ymchwydd yn lefel y môr, uchder tonnau ac erydiad sy'n cyflymu[4]. Mae newid yn yr hinsawdd ac ymchwydd yn lefel y môr yn debygol o gael effaith ddifrifol ar arfordiroedd y DU erbyn 2080[5]. Disgwylir y bydd stormydd yn digwydd yn amlach; disgwylir y bydd hyn, ynghyd ag ymchwydd yn lefel y môr, yn arwain at gynnydd mewn llifogydd.

Mae stormydd a llifogydd yn debygol o gael effaith negyddol ar isadeiledd cyhoeddus allweddol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd a brys, a chludiant cyhoeddus ar hyd yr arfordir. Ar gyfer ardaloedd ar yr arfordir sydd eisoes yn anghysbell, gallai'r effeithiau hyn fod yn arbennig o ddifrifol ar gyfer poblogaethau oedrannus. [6]

Yn y dyfodol mae'n debygol y bydd cymdeithas sy'n heneiddio'n wynebu mwy o risgiau oherwydd llifogydd. Nododd astudiaeth yn 2011 fod ardaloedd â phoblogaethau uchel o bobl oedrannus yn ardaloedd lle mae'r boblogaeth oedrannus yn parhau i dyfu, ac yn profi'r peryglon sy'n newid yn gyflymaf.[7] Mae proffil oedran y boblogaeth mewn ardaloedd

---

4 Zsamboky M. *et al.* (2011): 'Impacts of climate change on disadvantaged UK coastal communities', ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/disadvantage-communities-climate-change-full.pdf

5 Zsamboky M. *et al.* (2011): 'Impacts of climate change on disadvantaged UK coastal communities', ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/disadvantage-communities-climate-change-full.pdf

6 Zsamboky M. *et al.* (2011): 'Impacts of climate change on disadvantaged UK coastal communities', ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/disadvantage-communities-climate-change-full.pdf

7 Oven *et al.* (2011): 'Climate change and health and social care: Defining future hazard, vulnerability and risk for infrastructure systems supporting older people's health care in

ar yr arfordir yn mynd yn gynyddol hŷn; mae hyn oherwydd lefelau uchel o fewnfudo gan bobl hŷn a phobl ifanc yn allfudo. [8]

Mae pobl hŷn hefyd wedi'u peryglu'n fwy gan wres ac oerfel eithafol. [9] Mae sensitifrwydd neu nodweddion bioffisegol personol - oedran ac iechyd - yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd, er enghraifft, ton gwres yn cael effaith negyddol. Mae hyn oherwydd bod mecanweithiau rheoleiddio gwres pobl hŷn yn waeth mewn perthynas â ffactorau ffisiolegol megis rheolaeth waeth ar wres, ffitrwydd cardio fasgwlaidd neu weithrediad arennau gostyngol, symudedd cyfyngedig a gallu gwybyddol. [10]

Nododd astudiaeth ddiweddar o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd cyhoeddus y ceir cynnydd sylweddol mewn marwolaethau cysylltiedig â gwres ac oerfel ym mhob rhanbarth o'r DU wrth fodelu'r rhagamcaniadau hinsawdd poblogaeth lleol i amcangyfrif marwolaethau cysylltiedig â gwres ar gyfer y DU erbyn y 2020au, y 2050au a'r 2080au. [11] Nododd mai'r rhai mewn perygl mwyaf oedd yr henoed; cynyddodd risgiau gwres ac oerni gyda grwpiau oedran olynol, gyda'r rhai 85+ oed yn wynebu'r risg fwyaf. Heb addasu, nododd yr astudiaeth y disgwylir i nifer y marwolaethau cysylltiedig â gwres yn codi tua 257% erbyn y 2050au, tra byddai'r nifer o farwolaethau cysylltiedig ag oerfel yn gostwng 2%.

***Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr hinsawdd***

***Amcanion Penodol 2***

Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- Deall effaith newid yn yr hinsawdd ar gymdeithas, asesu risgiau effeithiau newid yn yr hinsawdd lleol ar gynhwysiad cymdeithasol, datblygu strategaethau addasu - yn enwedig mewn perthynas â'r amgylchedd morol ac arfordirol, a pheilota mentrau i brofi nwyddau arloesol yn y sector ynni adnewyddadwy.

Gallai'r cyfryw ymyraethau helpu lleihau effaith newid yn yr hinsawdd ar bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw ar yr arfordir.

---

England'

8 Zsamboky M. *et al.* (2011): 'Impacts of climate change on disadvantaged UK coastal communities', ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/disadvantage-communities-climate-change-full.pdf

9 JRF (2014): 'Climate change and social justice: an evidence review', ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/climate-change-social-justice-full.pdf

10 JRF (2014): 'Climate change and social justice: an evidence review', ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/climate-change-social-justice-full.pdf

11 Hajat *et al.* (2014): 'Climate change effects on human health: projections of temperature-related mortality for the UK during the 2020s, 2050s and 2080s' yn Journal of epidemiology and community health, ar gael yn: http://researchonline.lshtm.ac.uk/1520143/1/J%20Epidemiol%20Community%20Health-2014-Hajat-jech-2013-202449.pdf

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 2: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar ddatblygu a gweithredu datrysiadau addasu ar gyfer cymunedau ac amgylcheddau morol ac arfordirol. Er hynny, bydd effaith strategaethau newid yn yr hinsawdd a strategaethau addasu'n cael eu teimlo ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

### 2.4.2 Effaith: lleihau effaith negyddol newid yn yr hinsawdd ar blant

Mae UNICEF yn nodi y disgwylir i effaith newid yn yr hinsawdd achosi baich economaidd i blant yr oes bresennol a chenedlaethau'r dyfodol[12]. Er mai plant yw'r rhai sy'n lleiaf cyfrifol am newid yn yr hinsawdd, nhw sy'n agored i'r canlyniadau'n fwy. Mewn arolwg diweddar gan UNICEF UK, teimlodd 74% o blant yn bryderus am sut y byddai newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ddyfodol y blaned ac maen nhw'n credu y bydd y byd wedi newid o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd erbyn iddynt gyrraedd oedolaeth.

Gall lleihau allyriadau carbon greu buddion cadarnhaol ar gyfer iechyd a lles plant. Mae plant ifanc yn benodol mewn perygl yn ystod tonnau gwres oherwydd gallu llai eu cyrff i reoleiddio tymheredd. [13] Mae hyn yn golygu eu bod yn wynebu risg uwch o or-wresogi, dadhydradu a thrawiadau gwres.

***Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr hinsawdd***

***Amcanion Penodol 2***

Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- Deall effaith newid yn yr hinsawdd ar gymdeithas, asesu risgiau effeithiau newid yn yr hinsawdd lleol ar gynhwysiad cymdeithasol, datblygu strategaethau addasu - yn enwedig mewn perthynas â'r amgylchedd morol ac arfordirol, a pheilota mentrau i brofi nwyddau arloesol yn y sector ynni adnewyddadwy.

Gallai'r cyfryw ymyraethau helpu lleihau effaith newid yn yr hinsawdd ar iechyd a lles plant a phobl ifanc yn yr hir dymor.

***Ardal yr Effaith:***

12 Unicef (2013): 'Climate change: children's challenge', ar gael yn: http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/unicef-climate-change-report-2013.pdf

13 Bates *et al.* (2012): 'The impact of climate change upon health and health inequalities in the north west of England', ar gael yn: http://www.nwph.net/nwpho/Publications/Climate%20Change%20Interactive.pdf

- Amcan Penodol 2: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar ddatblygu a gweithredu datrysiadau addasu ar gyfer cymunedau ac amgylcheddau morol ac arfordirol. Er hynny, bydd effaith strategaethau newid yn yr hinsawdd a strategaethau addasu'n cael eu teimlo ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

### 2.4.3 Cyfle: Cefnogi cyflogaeth yn y sector ynni ar gyfer pobl ifanc

Ceir consensws byd-eang bod cofrestru i wneud astudiaethau a/neu yrfaoedd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg) wedi bod yn dirywio ers mwy na deng mlynedd.[14] O ganlyniad i hyn, ar hyn o bryd mae prinder technegwyr a graddedigion gyda chymwysterau STEM, sydd wedi arwain at yr angen am ailhyfforddi rhai graddedigion ar gyfer y sector ynni a chynnydd mewn gweithgarwch recriwtio costus.

O ganlyniad i hyn, mae'n rhaid i fusnesau yn y sector ynni dreulio mwy o amser yn hyfforddi dechreuwyr newydd, a throsi setiau sgiliau graddedigion peirianneg traddodiadol i ynni adnewyddadwy, a throsi setiau sgiliau artraeth i rai alltraeth. Mae'r prinder sgiliau hwn yn ddigon sylweddol i arafu ehangiad y diwydiant, tuedd a welwyd eisoes mewn rhai ardaloedd.[15] Gallai menter 'allgymorth' sylweddol ddylanwadu ar ddewisiadau gyrfa ymysg pobl ifanc yn y dyfodol. Gallai rhyngweithio â phobl ifanc ar oedran cynnar iawn gael effaith sylweddol ar nifer y recriwtiaid i'r sector, a gwella canfyddiadau cyffredinol y cyhoedd.[16]

Nododd adolygiad llenyddiaeth diweddar o tua 300 o erthyglau nifer o themâu mewn perthynas â'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu i astudio pynciau STEM. [17] Dyma nhw:

- Yr angen am addysgu o safon er mwyn i fyfyrwyr ddechrau ymwneud â STEM a pharhau ag ef.
- Canfyddiadau o afrwyddineb pynciau STEM.
- Treulio llai o amser ar waith ymarferol yn yr ysgol uwchradd.
- Ystrydebau negyddol o bobl yn astudio pynciau STEM.
- Canfyddiadau o yrfaoedd a chyfleoedd mewn STEM.

***Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd***

***Amcan Penodol 2***

Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

---

14 Y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (2013) Studying Stem: what are the barriers?

15 Renewable UK (2013) Skills Manifesto, Skills policy recommendations from the wind and marine energy industries

16 Partneriaeth Ymchwil Ynni (2007): 'Assessment of High Level Skills shortages in the Energy Industry'

17 Y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (2013) Studying Stem: what are the barriers?

- Datblygu'r sylfaen wybodaeth ar addasu i newid yn yr hinsawdd, datblygu galluoedd ar draws ardal y Rhaglen, peilota mentrau i ddatblygu a phrofi nwyddau arloesol, creu clystyrau neu rwydweithiau eco-arloesedd ar draws ffiniau o gwmpas Môr Iwerddon - creu llwyfan ar gyfer SAU a gweithrediadau sy'n datblygu cysyniad y gwyddonydd dinesig.

Gall buddsoddiad yn y sector hwn annog pobl o ystod o grwpiau cydraddoldeb, a phobl ifanc yn benodol, i ymwneud â'r sector, gan gefnogi datblygu sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y grŵp hwn. Dyma gyfle sylweddol a gynigir gan y Flaenoriaeth hon.

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 2: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar ddatblygu a gweithredu datrysiadau addasu ar gyfer cymunedau ac amgylcheddau morol ac arfordirol. Er hynny, bydd effaith strategaethau newid yn yr hinsawdd a strategaethau addasu'n cael eu teimlo ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

## 2.5 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

### 2.5.1 Effaith: gwella'r farchnad swyddi ar gyfer pobl ifanc

Mae pobl ifanc yn parhau i brofi anfantais yn y farchnad lafur:

- Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2013 yr amcangyfrifir bod 11.8% o bobl ifanc 16-18 oed 'heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant' (NEET), yr un peth a'r flwyddyn a ddaeth i ben 2012. [18] Yn yr un cyfnod, amcangyfrifwyd bod mwy nag un o bob pump (20.5%) o bobl ifanc 19-24 oed yn NEET.
- Yn yr un modd, nododd adroddiad a edrychodd ar effaith y dirwasgiad ar bobl ifanc NEET yn Iwerddon fod nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi codi o 11.8% yn 2006 i 24% yn 2011.[19] Nododd fod bechgyn a dynion ifanc yn fwy tebygol o fod yn NEET yn 2011. Mae'n debygol bod hyn oherwydd iddynt gael eu crynhoi yn y sector adeiladu yn ystod yr ymchwydd economaidd ac effeithiau'r dirywiad a'r dirwasgiad ar y farchnad eiddo.

**Mae teithio a thwristiaeth** yn sector cyflogaeth allweddol ac yn cefnogi 1 o bob 11 o swyddi'n fyd-eang. Mae'r diwydiant yn disgwyl twf sylweddol dros y deng mlynedd nesaf, gyda rhagamcaniad o 24 miliwn o swyddi uniongyrchol ychwanegol erbyn 2023. [20] Yn

18 Ystadegau Gwladol (2014) Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (Blwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2013), ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140430-young-people-not-education-employment-training-year-31-december-2013-cy.pdf
19 Kelly E. & McGuinness S. (2013) The Impact of the Recession on the Structure of NEET Youth in Ireland, ar gael yn: http://intereconomics.eu/archive/year/2013/4/865/
20 Cyngor Teithio a Thwristiaeth y Byd (2014) Gender equality and youth employment: Travel & Tourism as a key employer of
women and young people, ar gael yn:

2013, roedd twristiaeth yn cyfrif am 9.6% o'r holl swyddi yn y DU.[21] Rhagfynegodd astudiaeth gan Deloitte and Oxford Economics y byddai pob cynnydd o £54,000 mewn gwariant yn y sector yn y DU yn creu un swydd twristiaeth ychwanegol.[22]

Yn Iwerddon, mae'r sector yn cynrychioli ffynhonnell sylweddol o gyflogaeth a refeniw. Er enghraifft:

- Yn 2012, bu'r diwydiant twristiaeth yn gyfrifol am 3.8% o holl refeniw treth Iwerddon.
- Roedd  cyfanswm y gwariant ar dwristiaeth yn €5.4 biliwn yn 2012, yn cynrychioli 4.1% o'r GCG yn nhermau refeniw.
- Roedd cyfrif swyddogol y CSO o gyflogaeth uniongyrchol mewn "gweithgarethau llety a gwasanaethau bwyd" yn cyfrif am 6.7% o holl gyflogaeth Iwerddon yn 2012.[23]

Mae'r sector yn gyflogwr pwysig ar gyfer grwpiau poblogaeth sydd yn aml wedi'u tangynrychioli yn y farchnad lafur, gan gynnwys pobl ifanc. [24] Gall cydrannau anffurfiol y diwydiant twristiaeth ddarparu nifer mawr o swyddi hefyd i bobl sydd ag ychydig iawn o hyfforddiant ffurfiol neu ddim o gwbl, gan gynnig cyfleoedd i'r rhai sy'n wynebu anfantais o ran sgiliau. [25]

Mae **hunangyflogaeth** yn parhau i fod yn opsiwn dichonol ar gyfer llawer o bobl ac mae nifer y gweithwyr sy'n hunangyflogedig yn eu swydd bresennol wedi codi'n sylweddol ers dechrau'r dirwasgiad. Yng Nghymru mae nifer y bobl hunangyflogedig wedi codi 17,000 rhwng 2008 a 2013, tra bod nifer y cyflogeion wedi codi 8,000 yn unig[26]. Mae'r rhai sydd wedi dechrau mewn hunangyflogaeth ers y dirwasgiad wedi tueddu i fod yn hŷn a mwy cymwysedig na'r rhai a aeth yn hunangyflogedig cyn y dirwasgiad. Yn Iwerddon, rhwng diwedd 2010 a dechrau 2014 mae nifer y bobl hunangyflogedig heb unrhyw gyflogeion â

http://www.wttc.org/site_media/uploads/downloads/Gender_equality_and_youth_employment_FINAL.pdf

21 Deloitte ac Oxford Economics (2013) 'Tourism: jobs and growth, the economic contribution of the tourism economy in the UK', ar gael yn: http://www.visitbritain.org/Images/Final%20proof%2015%20Nov_tcm29-39296.pdf

22 Deloitte ac Oxford Economics (2013): 'Tourism: jobs and growth, the economic contribution of the tourism economy in the UK', ar gael yn: http://www.visitbritain.org/Images/Final%20proof%2015%20Nov_tcm29-39296.pdf

23 Ffeithiau Twristiaeth, Fáilte Ireland 2012

24 Cyngor Teithio a Thwristiaeth  y Byd (2014): 'Gender equality and youth employment: Travel & Tourism as a key employer of women and young people', ar gael yn: http://www.wttc.org/site_media/uploads/downloads/Gender_equality_and_youth_employment_FINAL.pdf

25 ILO (2013): 'Poverty reduction through tourism', ar gael yn: http://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/@ed_dialogue/@sector/documents/publication/wcms_159257.pdf

26 Resolution Foundation (2014): 'Just the job – or a working compromise? The changing nature of self-employment in the UK', ar gael yn: http://www.resolutionfoundation.org/media/media/downloads/Just_the_job_-_or_a_working_compromise_1.pdf

thâl wedi codi 25,000, tra bod y nifer o bobl hunangyflogedig gyda chyflogeion â thâl wedi gostwng 5,000 (yn seiliedig ar yr Arolwg Aelwydydd Cenedlaethol Chwarterol (QNHS)). [27]

Fodd bynnag mae nifer y bobl ifanc sy'n hunangyflogedig yn parhau'n gymharol isel, gan gyfrif am 5% yn unig o'r holl bobl ifanc sydd mewn cyflogaeth yn y DU ar hyn o bryd.[28] Mae adroddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth y Tywysog yn y DU wedi datgelu bod mwy na chwarter o bobl ifanc wedi honni eu bod yn meddwl 'yn gynyddol' am sefydlu busnes a nododd mwy nag un o bob pedwar o bobl ifanc y byddai'n well ganddynt geisio sefydlu eu busnes eu hunain na pharhau i chwilio am swyddi.[29] Yn ogystal â hyn, credodd 30 y cant o bobl ifanc hefyd y byddant yn hunangyflogedig yn y dyfodol, tra bod un o bob pedwar yn disgwyl bod yn feistr arnynt eu hunain o fewn y pum mlynedd nesaf.

Gall diffyg profiad busnes a sgiliau sy'n benodol i fusnes fod yn rhwystr allweddol ar gyfer pobl ifanc ac mae llawer yn nodi'r ffaith nad ydynt yn cael eu cymryd o ddifrif fel rhwystr allweddol i droi syniad busnes yn fodel busnes ymarferol. Mae diffyg adeilad yn her gyffredin arall i bobl ifanc sy'n gobeithio sicrhau cefnogaeth ar gyfer eu busnes. [30]

***Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol***

***Amcan Penodol 3***

Gweithgareddau:

- Datblygu twristiaeth forwrol ar draws ffiniau - gan gynnwys cefnogi twristiaeth fordaith, adfywio cymunedol trwy ddatblygu cynaliadwy a chreu swyddi'n seiliedig ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol - gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau gwledig, datblygu gweithgareddau entrepreneuraidd a chefnogi ehangu neu sefydlu busnesau.

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 3: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar yr amgylcheddau arfordirol a morol, oherwydd agosrwydd pob rhan o ardal y Rhaglen i'r arfordir. Er hynny, nid yw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd hyn a bydd gweithgareddau'n canolbwyntio hefyd ar dreftadaeth seiliedig ar y tir sy'n digwydd ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

27 Finfacts Iwerddon, Porth Busnes a Chyllid (2014) Irish Economy 2014, ar gael yn: http://www.finfacts.ie/irishfinancenews/article_1027720.shtml

28 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013): ‘Labour Force Survey 2012 ’

29 Ymddiriodolaeth y Tywysog ac RBS (2013): ‘The start-up generation – why the UK could be set for a youth business boom’

30 Gweler: http://www.businesslink.gov.uk

### 2.5.2 Effaith: gwella'r farchnad swyddi ar gyfer pobl hŷn

Mae astudiaethau diweddar wedi datgelu bod pobl oedran gwaith hŷn dros 50 oed yn teimlo bod y farchnad swyddi'n anhyblyg iawn. Ar ben hynny, gall gweithwyr â lefel isel o sgiliau gael eu gyrru tuag at ymddeoliad cynnar oherwydd salwch, tra bod gweithwyr â thâl uwch yn dewis ymddeol yn gynnar i ddilyn diddordebau eraill. Mae cyfrifoldebau gofalu, ymysg menywod yn bennaf, hefyd yn rheswm allweddol dros adael y farchnad swyddi'n wirfoddol, megis ymddeol yn gynnar. [31]

Mae'r dirwasgiad wedi arwain at bobl o bob oedran yn wynebu diweithdra a'r heriau sylweddol dilynol i ddychwelyd i'r gwaith. Ar gyfer llawer o weithwyr hŷn, yn enwedig y rhai sydd wedi bod mewn cyflogaeth ers 20-30 mlynedd, gall diweithdra fod yn sioc enfawr ac nid oes ganddynt y sgiliau i chwilio am gyflogaeth newydd yn yr hinsawdd bresennol. Unwaith eu bod allan o waith, mae'r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn llawer caletach i bobl dros 50 oed, yn enwedig dynion, ddod o hyd i swydd eto; a hiraf yw'r amser y maent yn aros allan  o waith, gwaethaf y daw'r cyfle y byddant yn gweithio eto. Ar gyfer llawer o bobl dros 50 oed bydd hyn yn arwain at ymddeoliad cynnar a pharhaol, gan leihau eu cyfle i gyfrannu at eu pensiwn a chan eu gwneud yn fwy tebygol o fod ar fudd-daliadau gwladol. [32]

Mae astudiaeth newydd gan Resolution Foundation wedi gweld bod nodweddion hunangyflogaeth yn llawer llai tebygol o  fod yn fenywod ac yn fwy tebygol o fod dros 50 oed. [33] Yng Nghymru mae nifer y bobl hunangyflogedig wedi codi 17,000 rhwng 2008 a 2013, tra bod nifer y cyflogeion wedi codi 8,000 yn unig. Mae'r rhai sydd wedi dechrau mewn hunangyflogaeth ers y dirwasgiad yn hŷn a mwy cymwysedig na'r rhai a aeth yn hunangyflogedig cyn y dirwasgiad.[34]

Mae hunangyflogaeth wedi cyfrif am 44% o'r holl dwf mewn cyflogaeth ers canol 2010, gydag ychydig dros un o bob saith o weithwyr yn hunangyflogedig erbyn hyn. [35] Er gwaethaf hynny, mae nifer y bobl sy'n dechrau eu busnesau eu hunain wedi gostwng.[36]

---

31 Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU (2011) 'Older People and Skills in a Changing Economy' Gweler: http://www.oph.fi/download/140969_equality-older-people.pdf

32 Age Concern, (2010), 'The impact of the recession on older workers'

33 Resolution Foundation (2014) Just the job – or a working compromise? The changing nature of self-employment in the UK, ar gael yn: http://www.resolutionfoundation.org/media/media/downloads/Just_the_job_-_or_a_working_compromise_1.pdf

34 Resolution Foundation (2014) Just the job – or a working compromise? The changing nature of self-employment in the UK, ar gael yn: http://www.resolutionfoundation.org/media/media/downloads/Just_the_job_-_or_a_working_compromise_1.pdf

35 TUC (2014) More than two in five new jobs created since mid-2010 have been self-employed, ar gael yn: http://www.tuc.org.uk/economic-issues/economic-analysis/labour-market/labour-market-and-economic-reports/more-two-five-new

36 TUC (2014) More than two in five new jobs created since mid-2010 have been self-employed, ar gael yn: http://www.tuc.org.uk/economic-issues/economic-analysis/labour-

Mae nifer y bobl hunangyflogedig sydd naill ai'n rhedeg busnes neu'n bartner neu gyfarwyddwr unigol mewn un wedi gostwng 52,000. [37] Gan hynny, gellid priodoli'r cynnydd mewn hunangyflogaeth i symudiad tuag at gyflogaeth ansicr yn hytrach na phobl yn sefydlu eu busnesau eu hunain.

***Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol***

***Amcan Penodol 3***

Gweithgareddau:

- Adfywio cymunedol trwy ddatblygu cynaliadwy a chreu swyddi'n seiliedig ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol - gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau gwledig, datblygu gweithgareddau entrepreneuraidd a chefnogi ehangu neu sefydlu busnesau.

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 3: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar yr amgylcheddau arfordirol a morol, oherwydd agosrwydd pob rhan o ardal y Rhaglen i'r arfordir. Er hynny, nid yw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd hyn a bydd gweithgareddau'n canolbwyntio hefyd ar dreftadaeth seiliedig ar y tir sy'n digwydd ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

## 2.6 Casgliadau

Mae nifer o'r ymyraethau a gynigir o fewn y Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru yn debygol o gyflwyno buddion penodol ar gyfer grwpiau oedran penodol, yn benodol pobl ifanc a phobl hŷn trwy'r cyfuniad o fesurau i ymdrin yn well ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, datblygu sylfaen wybodaeth o gwmpas addasu i newid yn yr hinsawdd, peilota mentrau i brofi cynnyrch a chreu swyddi seiliedig ar sector ehangach.

## 2.7 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan y grŵp hwn.

- Mae gan ymyraethau a dan Echel Blaenoriaeth 2 (amcan penodol 2) ac Echel Blaenoriaeth 3 (amcan penodol 3), y potensial i greu buddion ar gyfer pobl ifanc yn benodol. Mae'n bwysig bod y Rhaglen yn gweithio tuag at oresgyn y rhwystrau i

market/labour-market-and-economic-reports/more-two-five-new

37 TUC (2014) More than two in five new jobs created since mid-2010 have been self-employed, ar gael yn: http://www.tuc.org.uk/economic-issues/economic-analysis/labour-market/labour-market-and-economic-reports/more-two-five-new

gymryd rhan yn y farchnad lafur ar gyfer pobl ifanc  er mwyn sicrhau bod yr holl bobl ifanc mewn sefyllfa dda i elwa o'r ymyraethau hyn.

- Mae effeithiau cadarnhaol o ran cymryd rhan yn y sector ynni'n debygol o gael eu gwireddu dim ond os ymdrinnir â'r rhwystrau i bobl ifanc astudio pynciau STEM.
- Mae angen i fesurau effeithlonrwydd ynni ystyried yr heriau sy'n wynebu grwpiau cleientiaid agored i niwed yn llaw ac ymdrin ag ymddygiadau sy'n gwrthsefyll newid gyda chefnogaeth a chyngor lle bo'n briodol.
- Ble bynnag y bo'n bosib dylid achub ar gyfleoedd i ddysgu o wersi rhoi ar waith blaenorol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith ar draws ffiniau i fwyafu buddion.

# 3. Anableddau

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r diffiniad a ganlyn o anabledd wedi'i ddilysu gan CCHD y DU (ac yn flaenorol y Comisiwn Hawliau Anabledd).[38]

***"Anabledd yw colli neu gyfyngu ar y gallu i gymryd rhan mewn bywyd arferol y gymuned ar lefel gyfartal gydag eraill, oherwydd rhwystrau ffisegol, cymdeithasol ac agweddol, yn hytrach na dim ond o ganlyniad i nam yr unigolyn."***


Mae'r diffiniad yn cynnwys pobl sydd â namau symudedd, namau synhwyraidd, anableddau dysgu, anableddau lles meddyliol a chyflyrau difrifol sy'n peryglu bywyd gan gynnwys canser ac AIDS. Fodd bynnag, mae anabledd bellach yn cael ei ddeall yn gynyddol yn ôl y 'Model Cymdeithasol o Anabledd', gan gydnabod bod pobl yn anabl yn amlach o ganlyniad i ddylunio gwael, gwasanaethau anhygyrch ac agweddau pobl eraill na chan eu nam.

## 3.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

At ddibenion y dadansoddiad demograffig a gofodol, rydym wedi dadansoddi'r nifer o bobl sy'n byw gyda phroblemau iechyd hir dymor neu anabledd yng Nghymru a phobl yr adroddir bod ganddynt anabledd yn Iwerddon. Mae'r mapiau isod yn dangos y dwysedd poblogaeth a chyfran y grŵp hwn yn ardal y Rhaglen.


38 Gweler Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): Guidance on the new Equality Act'. Gweler: http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/

Ffigur 3.1: Ardal y Rhaglen: Dwysedd Pobl Anabl




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Ffigur 3.2: Ardal y Rhaglen: Cyfran y Bobl Anabl




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod dwysedd poblogaeth pobl gydag anableddau ar gyfer mwyafrif helaeth ardal y Rhaglen o dan 50 fesul cilometr sgwâr.
- Yng Nghymru, mae pocedi bach yn ardaloedd gogleddol a deheuol ardal y Rhaglen yn dangos dwysedd poblogaeth o dros 500 o bobl sydd ag anableddau.
- Mae'r dwysedd poblogaeth uchaf o bobl gydag anableddau wedi'i leoli yn rhan ogledd-ddwyreiniol ardal Iwerddon y Rhaglen, o gwmpas Dulyn, gyda llawer o ardaloedd sydd â mwy na 500 o bobl gydag anableddau fesul cilometr sgwâr.

Fodd bynnag, yn gyfraneddol mae poblogaeth y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl hir dymor yn amrywio ar draws ardal y Rhaglen:

- Yn ardal Cymru'r Rhaglen, deuir o hyd i'r cyfrannau uwch o bobl ag anableddau yn yr ardaloedd Deheuol ac ar arfordir Gorllewinol Cymru; megis Abertawe ac ardaloedd gwledig o gwmpas Abermaw, Dolgellau, Sir Benfro ac o gwmpas Bannau Brycheiniog. Mewn llawer o'r ardaloedd hyn, mae gan fwy na un o bob pump i un o bob pedwar o'r boblogaeth anabledd.
- Ar draws y mwyafrif o ardal Iwerddon y Rhaglen mae gan y mwyafrif o'r boblogaeth rhwng 10 a 15% o bobl sydd ag anabledd.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl anabl (wedi'i diffinio fel pobl sy'n adrodd bod ganddynt anabledd yng Nghyfrifiad 2011 Gweriniaeth Iwerddon a phobl yr adroddir bod ganddynt Salwch Hir Dymor sy'n Cyfyngu ar Fywyd yng Nghyfrifiad 2011 y DU) yn byw yn rhannau Iwerddon a Chymru ardal y Rhaglen, gan ganiatáu cymhariaeth rhyngddynt ac ardal y Rhaglen yn gyffredinol.

Tabl 3.1: Nifer a chyfran y bobl sydd ag anabledd neu salwch hir dymor sy'n cyfyngu ar fywyd (LTLI)

| | Pob preswylydd arferol | Anabl | Anabl % |
|---|---|---|---|
| Iwerddon | 2,891,008 | 372,215 | 13% |
| Cymru | 1,309,098 | 294,573 | 23% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 666,788 | 18% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r tabl yn dangos y canlynol:

- Mae nifer y bobl sydd â LTLI yn amrywio'n sylweddol rhwng yr ardaloedd targed yng Nghymru ac Iwerddon (294,184 yn Iwerddon ac 181,287 yng Nghymru), gan gynrychioli 13 a 23% o'u poblogaethau yn ôl eu trefn.
- Gan hynny, 18% yw cyfran gyfartalog y bobl sydd â LTLI yn ardal y Rhaglen yn gyffredinol.

### 3.2.1 Tueddiadau a adnabuwyd gan y dadansoddiad economaidd a chymdeithasol o ardal y Rhaglen

Mae cyfraddau hawlio budd-daliadau'n parhau'n uchel yng Nghymru oherwydd cyfran uwch o bobl sy'n hawlio budd-daliadau anabledd a salwch (9.2% o'r boblogaeth 16-64 oed yng Nghymru o'i gymharu â 6.5% ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Mae gan Gymru

ganran uwch o bobl sy'n hawlio budd-daliadau am gyfnod o bum mlynedd hefyd. Mae hyn yn cynrychioli 8.3% o'r boblogaeth 16-65 oed yng Nghymru o'i gymharu â 5.6% ym Mhrydain Fawr). Mae cyfraddau uchel o hawlwyr a hawliadau budd-daliadau hir dymor wedi bod yn broblem barhaus yng Nghymru.

Gostyngodd nifer yr hawlwyr sy'n ddynion 9.9% yn Iwerddon yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2014 o'i gymharu â gostyngiad o 4.2% yn nifer yr hawlwyr sy'n fenywod. [39] Ym mis Mai 2014, 183,370 oedd nifer yr hawlwyr hir dymor; gan gynrychioli 47.2% o'r holl hawlwyr budd-daliadau yn Iwerddon. [40] Mae Iwerddon wedi profi gostyngiad blynyddol o 4.5% yn nifer yr hawlwyr budd-daliadau.

## 3.3 Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur penodol ar gyfer pobl ag anableddau yn gysylltiedig â'r Flaenoriaeth 'Arloesedd'. Fel uchod, nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu na fydd pobl anabl yn elwa o fuddsoddi mewn gweithgareddau arloesedd, dim ond na fydd unrhyw effaith o'r fath yn anghymesur i'r rhai a brofir gan y cyhoedd yn gyffredinol.

## 3.4 Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr hinsawdd

### 3.4.1 Effaith: lleihau effaith negyddol newid yn yr hinsawdd ar bobl anabl

Mae newid yn yr hinsawdd yn tueddu i effeithio'n anghymesur ar grwpiau penodol. Mewn astudiaeth yn 2011 adnabuwyd bob pobl anabl gyda phroblemau symudedd sy'n byw mewn cymunedau ar yr arfordir yn arbennig o agored i niwed o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. [41] Gall pobl anabl fod mewn mwy o berygl yn ystod argyfyngau a achosir gan ddigwyddiadau megis stormydd a llifogydd. [42] Er enghraifft, mae'n bosib na fydd rhai pobl anabl: yn gallu gadael adeiladau'n gyflym mewn argyfwng neu gallai fod angen cymorth arnynt er mwyn gadael; yn ymwybodol o rybuddion am argyfyngau; yn gwybod sut i ymateb mewn argyfwng; ac mae'n bosib bod rhai'n dibynnu ar ofal y gallai colli cyflenwadau ynni neu fwyd darfu arno.

Mae astudiaethau pellach o 2012 wedi dangos y gallai pobl ifanc ei chael hi'n anos rheoleiddio tymheredd y corff hefyd. Pan gyfunir hyn ag anawsterau cyffredinol pobl

39 Cofrestr Fyw (2014) CSO Statistical release, 5 Mehefin 2014, 11am, ar gael yn: http://www.cso.ie/en/releasesandpublications/er/lr/liveregistermay2014/

40 Cofrestr Fyw (2014) CSO Statistical release, 5 Mehefin 2014, 11am, ar gael yn: http://www.cso.ie/en/releasesandpublications/er/lr/liveregistermay2014/

41 Zsamboky M. et al (2011): 'Impacts of climate change on disadvantaged UK coastal communities', ar gael yn: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/disadvantage-communities-climate-change-full.pdf

42 Bates et al. (2012): 'The impact of climate change upon health and health inequalities in the north west of England', ar gael yn: http://www.nwph.net/nwpho/Publications/Climate%20Change%20Interactive.pdf

anabl wrth gael mynediad i ofal iechyd o ganlyniad i broblemau symudedd ehangach, gallai eu hiechyd a lles fod mewn mwy o berygl na rhannau eraill o'r cyhoedd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. [43]

***Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr hinsawdd***

***Amcan Penodol 2***

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:
- Cyflwyno mesurau addasu, yn benodol ar gyfer cymunedau'r arfordir a'r amgylchedd morol.

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 2: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar ddatblygu a gweithredu datrysiadau addasu ar gyfer cymunedau ac amgylcheddau morol ac arfordirol. Er hynny, bydd effaith strategaethau newid yn yr hinsawdd a strategaethau addasu'n cael eu teimlo ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

## 3.5 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau diwylliannol a naturiol

### 3.5.1 Effaith: Cefnogaeth ar gyfer entrepreneuriaid anabl

Mae llawer o bobl yn tueddu i chwilio am ffurfiau ar gyflogaeth sy'n gweddu orau i'w cyflwr. Mae ymchwil a gyflawnwyd gan CCHD y DU yn 2010 yn dangos bod gweithwyr anabl yng Nghymru wedi'u crynhoi mewn ffurfiau ar gyflogaeth a allai weddu i'w hanabledd yn fwy hwylus, megis gwaith rhan-amser a hunangyflogaeth. Yn benodol, gwelwyd bod hunangyflogaeth yn ffynhonnell waith bwysig ar gyfer pobl ag anableddau sy'n cyfyngu ar waith. [44]

Er hynny, yn ei 'Ddatganiad Polisi Menter',[45] nododd Anabledd Cymru fod rhwystrau helaeth yn bodoli sy'n annog pobl ifanc yn weithredol rhag cymryd rhan mewn menter, gan gynnwys:
- Sut gallai'r ddelwedd boblogaeth o entrepreneur fel rhywun caffaelgar ac ymosodol elyniaethu pobl ag anableddau sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau menter;
- anweithgarwch economaidd pobl anabl;
- gwahaniaethu;

---

43 Bates et al. (2012): 'The impact of climate change upon health and health inequalities in the north west of England', ar gael yn: http://www.nwph.net/nwpho/Publications/Climate%20Change%20Interactive.pdf
44 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2010): 'Anatomi o Anghydraddoldeb Economaidd yng Nghymru'
45 Datganiad Polisi Anabledd Cymru: Menter. Ffynhonnell: http://www.disabilitywales.org/about/policy

- diffyg gwybodaeth hygyrch, cyfleusterau cyfathrebu, seilwaith ac addysg; a
- diffyg gwasanaethau cefnogi personol ac ariannol.

Nododd astudiaeth a gynhaliwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu, gan nodi bod pryder yn bodoli ynghylch gallu pobl ag anableddau i sefydlu busnes hyfyw. Mae'r astudiaeth yn nodi bod ymatebion fel "mae'n ddigon anodd iddynt ddod o hyd i waith: sut gallai fod yn bosib iddynt eu creu nhw?" yn dangos diffyg hyder yng ngalluoedd pobl ag anableddau, ac ar ben hynny'n adlewyrchu barn gyffredin am hunangyflogaeth fel rhywbeth sy'n gofyn am bwerau mwy na'r rhai y mae'r person cyfartalog yn meddu arnynt.' [46]

***Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau diwylliannol a naturiol***

***Amcan Penodol 3***

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cefnogi ehangu neu ddechrau busnesau yn y sectorau treftadaeth greadigol a diwylliannol.

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 3: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar yr amgylcheddau arfordirol a morol, oherwydd agosrwydd pob rhan o ardal y Rhaglen i'r arfordir. Er hynny, nid yw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd hyn a bydd gweithgareddau'n canolbwyntio hefyd ar dreftadaeth seiliedig ar y tir sy'n digwydd ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

## 3.6 Casgliadau

Mae potensial i'r Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru gyflwyno rhai buddion anghymesur i bobl anabl, yn enwedig o ran addasu i newid yn yr hinsawdd ac ar gyfer y bobl anabl hynny sy'n hunangyflogedig ar hyn o bryd neu'n ystyried cychwyn busnes. Mae llawer o'r effeithiau cadarnhaol posib yma'n dibynnu ar roi ar waith ac i ba raddau y gellir teilwra gweithgareddau i ymdrin â'r rhwystrau y gall pobl anabl eu hwynebu mewn menter a chyflogaeth. Ymchwilir ymhellach i hwn isod ac yng nghasgliadau ac argymhellion trosgynnol yr adroddiad.

## 3.7 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

---

46 Cooney, T (2008) '*Entrepreneurs with Disabilities: Profile of a Forgotten Minority'* Siwrnal Busnes Iwerddon Cyfrol 4, Rh 1, tud119-129

- Mae llawer o effeithiau cadarnhaol posib y Rhaglen Cydweithredu Cymru ac Iwerddon yn dibynnu ar roi ar waith ac i ba raddau y gellir teilwra gweithgareddau i ymdrin â'r rhwystrau y gall pobl anabl eu hwynebu wrth, er enghraifft, hygyrchu cefnogaeth ar gyfer menter a chyflogaeth. Dyma faes lle na ddiwallir anghenion y grŵp hwn bob tro a bydd angen i'r Rhaglen ofyn i grwpiau ddangos hygyrchedd eu hymyraethau i ystod o grwpiau cymdeithasol.

- Hefyd, bydd yn hanfodol sicrhau bod anghenion hygyrchedd yn cael eu hymwreiddio yng ngweithrediad y Blaenoriaethau pan fo'r anghenion hynny'n benodol i bobl ag anableddau gwahanol (yn benodol o gwmpas Blaenoriaeth 3 - Adnoddau Diwylliannol a Naturiol). Gan hynny, dylid rhoi ystyriaeth i ofynion hygyrchedd penodol pobl anabl ( a deddfwriaeth anabledd sydd bellach wedi'i chynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac ar draws y Deddfau Statws Cyfartal 2000-2008 yn Iwerddon) wrth gyflwyno'r holl fesurau yn y flaenoriaeth hon a'r holl flaenoriaethau eraill.

- I sicrhau mynediad cyfartal ar gyfer pobl anabl wrth hyrwyddo atyniadau twristiaeth penodol, gan gynnwys atyniadau arfordirol a diwylliannol a safleoedd treftadaeth forwrol, defnyddiwch arweiniad hygyrchedd arfer gorau pryd bynnag y bo'n bosib.

- Gellid rhoi ystyriaeth bellach i sut y gellid targedu mesurau'r Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru yn benodol i gefnogi a chydweddu ag ymyraethau ERDF ac ESF eraill mewn perthynas â chefnogi pobl anabl i ddod o hyd i gyflogaeth. Mae ymyraethau llwyddiannus blaenorol wedi canolbwyntio ar gyngor un i un, yn benodol ar gyfer pobl ag anabledd neu'r rhai sy'n gadael gofal.

# 4. Ailaseinio rhyw

## 4.1 Cyflwyniad

Mae diffiniadau lluosog o 'ail-aseinio rhyw'. At ddibenion cyfraith gydraddoldeb y DU, diffinnir ail-aseinio rhyw fel 'proses a gyflawnir o dan oruchwyliaeth feddygol at ddiben ail-aseinio rhyw rywun trwy newid nodweddion rhyw ffisiolegol neu nodweddion rhyw eraill, a chan gynnwys unrhyw ran o'r cyfryw broses'. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i unigolyn fod wedi cael unrhyw driniaeth neu lawdriniaeth benodol i gael eu hamddiffyn gan y gyfraith.[47]

## 4.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

Nid oes unrhyw ffigurau swyddogol neu gyfrifiad ar gyfer nifer y bobl rhyw amrywiadol yng Nghymru neu Iwerddon. Mae cyhoeddiad y Swyddfa Gartref 'Adroddiad y gweithgor rhyngadrannol ar bobl drawsryw'[48] yn seiliedig ar ymchwil gan yr Iseldiroedd a'r Alban, yn amcangyfrif bod rhwng 1,300 a 2,000 o bobl drawsryw gwryw i fenyw a rhwng 250 i 400 benyw i wryw yn y DU. Er hynny, mae Press for Change yn amcangyfrif mai tua 5,000 o bobl draws ôl-lawdriniaeth yw'r ffigur. .

Ar ben hynny mae ymchwil a gyflawnwyd yn 2008 gan y Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhyw (GIRES) yn hawlio bod 6.200 o bobl wedi trawsnewid i rôl ryw newydd trwy ymyrraeth feddygol a bod tua 2,335 o Dystysgrifau Cydnabod Rhyw llawn wedi'u cyhoeddi hyd at fis Chwefror 2009. Mae'r ffigurau'n fwy amrywiol wrth edrych ar y gymuned drawsryw ehangach yn y DU, lle mae amcangyfrifon yn amrywio rhwng 65,000 a 300,000. [49]

Mae hyd yn oed yn llai o ddata r gael ar gyfer Iwerddon, ac ar adeg ysgrifennu nid oedd unrhyw ystadegau pendant neu amcangyfrifon ar gael ar y nifer neu'r gyfran o'r boblogaeth sy'n adnabod eu hunain fel trawsryw.

## 4.3 Effeithiau a chyfleoedd ar draws Echelau Blaenoriaeth

Ni adnabuwyd unrhyw effeithiau anghymesur penodol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon o fewn Blaenoriaethau Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru 2014-2020.

Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu na fydd pobl drawsryw yn elwa o fuddsoddiad y Rhaglen Iwerddon Cymru, dim ond na fydd unrhyw effeithiau o'r fath yn anghymesur o'i gymharu â'r rhai a brofir gan rannu eraill o'r cyhoedd yn gyffredinol.

---

47 Ffynhonnell: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2012): 'Transgender: what the law says'. Gweler: http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/your-rights/transgender/transgender-what-the-law-says/

48 Y Swyddfa Gartref (2000): 'Report of the Interdepartmental Working Group on Transsexual People' nodir yn Swyddfa Ystadegau Gwladol (2009): 'Trans Data Position Paper'

49 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2009): 'Trans Data Position Paper'

## 4.4 Casgliadau

Mae'n ddigon posib y bydd pobl drawsryw yn elwa o'r ymyraethau arfaethedig, ond ni ddisgwylir y bydd y buddion hynny'n wahanol i'r rhai a brofir gan y boblogaeth yn gyffredinol. Gallai fod cyfleoedd i fwyafu effeithiau cadarnhaol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon; bydd hyn yn dibynnu ar weithrediad y Rhaglen.

Yn yr un modd, dylid nod bod y diffyg tystiolaeth ymchwil ar y nodwedd warchodedig hon a'r materion moesegol y gallai ymchwilwyr fod yn eu hwynebu wrth geisio'r dystiolaeth honno'n cyfyngu ar y dadansoddiad y gellir ei gyflwyno yn yr adroddiad AEC hwn. Er hynny, mae'n bwysig i brosiectau ymgysylltu â grwpiau a rhwydweithiau trawsryw i sicrhau cyflwyno'n effeithiol.

## 4.5 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Mae angen ystyried amharodrwydd pobl drawsryw i geisio cefnogaeth brif-ffrwd wrth ddadansoddi rhwystrau i wasanaethau cefnogi busnesau. Er mwyn teimlo bod pobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon yn teimlo y gallant hygyrchu'r gwasanaethau hyn, bydd angen i'r cyflwyniad gael ei roi ar waith yn briodol, ac o bosib gyda hyfforddiant fel y bo angen.

- Gall troseddau casineb gael effeithiau ffisegol a/neu seicolegol ar ddioddefwyr a'u teuluoedd hefyd, gan greu rhwystr i waith parhaus ar gyfer dioddefwyr. Er y gall effeithiau amrywio, mae nifer o effeithiau i'w gweld yn gyffredin, fel y mae adroddiad ar droseddau casineb gan y Swyddfa Gartref yn ei gydnabod. [50] Maen nhw'n cynnwys dicter ac ofn o ymosodiadau lluosog, iselder, gwaethygu cyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol cyfredol a baich ariannol cynyddol; yn enwedig o ganlyniad i incwm a gollir trwy amser i ffwrdd o'r gwaith. Yn aml bydd dioddefwyr yn cymryd camau eu hunain i ostwng y cyfle i ddioddef ymosodiad casineb arall - newid eu hymddangosiad, gostwng rhyngweithio ag eraill, newid eu llety neu hyd yn oed patrymau bob dydd gan gynnwys eu llwybr i'r gwaith neu ba mor aml y maent yn gadael eu cartrefi. Pan fydd rhywun trawsryw yn profi trosedd casineb ac aflonyddu - yn enwedig achosion o hyn yn y gweithle - gall hyn greu rhwystr i barhau â chyflogaeth.

- Hefyd, bydd yn bwysig sicrhau bod anghenion a safbwyntiau pobl drawsryw yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu amgylcheddau cymdeithasol gynhwysol, yn ogystal â sicrhau bod buddion cymdeithasol yn cael eu teimlo'n gyfartal ar draws pob grŵp mewn cymdeithas.

---

50 Y Swyddfa Gartref (2009) 'Troseddau Casineb - Y cynllun gweithredu trawslywodraethol'

# 5. Priodas a phartneriaeth sifil

## 5.1 Cyflwyniad

Mae priodas a phartneriaeth sifil wedi'u cynnwys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 dim ond ar sail gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'n rhaid trin pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil yn yr un modd â phobl nad ydynt ac, yn yr un modd, mae'n rhaid trin partneriaid sifil o'r un rhyw yn yr un modd â chyplau heterorywiol priod ar ystod eang o faterion cyfreithiol.

Yn Iwerddon, mae 'statws sifil' wedi'i ddiogelu yn yr un modd i raddau helaeth ac mae'r Deddfau Statws Cyfartal 2000-2008 yn gwahardd gwahaniaethu ar sail statws sifil (priodasol yn flaenorol) (P'un a ydych yn sengl, priod, wedi gwahanu, wedi ysgaru, gweddw neu mewn partneriaeth sifil). [51]

## 5.2 Demograffeg

mae'r tabl isod yn dangos statws priodasol pobl o fewn ardal y Rhaglen.

Tabl 5.1: Statws priodasol

| | Pob preswylydd arferol | Cyfanswm Sengl | Sengl % | Cyfanswm Priod | Priod % |
|---|---|---|---|---|---|
| Iwerddon | 2,891,008 | 1,2585,823 | 55% | 1,059,167 | 37% |
| Cymru | 1,309,098 | 348,854 | 27% | 509,914 | 39% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 1,934,677 | 46% | 1,569,081 | 37% |

| | Cyfanswm Wedi Gwahanu | Wedi Gwahanu % | Cyfanswm Wedi Ysgaru | Wedi Ysgaru % | Cyfanswm Gweddw | Gweddw % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Iwerddon | 74,668 | 3% | 56,493 | 2% | 114,937 | 4% |
| Cymru | 22,922 | 2% | 105,263 | 8% | 89,415 | 7% |
| Cyfanswm | 97,590 | 2% | 161,756 | 4% | 204,352 | 5% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r tabl yn awgrymu bod statws priodasol y boblogaeth ar draws dwy ardal y Rhaglen yn gyson yn fras (gyda 36% o boblogaeth Iwerddon a 39% o boblogaeth Cymru'n briod)

51 Gweler: http://www.equality.ie/Files/Guide-to-the-Equal-Status-Acts-2000-2008.pdf

gan olygu mai 37% o'r boblogaeth yw'r ffigur cyfartalog yn ardal y Rhaglen. Mae lefel y bobl sengl yn Iwerddon yn sylweddol uwch nag yn ardal Cymru'r Rhaglen (55% o'i gymharu â 27%) gan olygu mae 46% yw ffigur cyfartalog y bobl sengl yn ardal y Rhaglen.

Mae cyfran y rhai sydd wedi gwahanu yn debyg yn fras rhwng ardaloedd Cymru ac Iwerddon y Rhaglen (2% a 3% yn ôl eu trefn a 2% ar y cyfan).

Mae cyfran y boblogaeth sydd wedi ysgaru'n uwch yn ardal Cymru'r Rhaglen (8%) o'i gymharu ar ardal Iwerddon y Rhaglen (2%) gan wneud cyfartaledd o 4% ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

4% yw cyfran y bobl weddw yn ardal Iwerddon y Rhaglen, a 7% yn ardal Cymru'r Rhaglen, gan olygu mai 5% yw'r cyfanswm cyfartalog ar gyfer Ardal y Rhaglen.

## 5.3 Effeithiau a chyfleoedd ar draws Echelau Blaenoriaeth y Rhaglen Cydweithredu Cymru ac Iwerddon

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur penodol yn gysylltiedig â'r nodwedd warchodedig hon.

Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu na fydd pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil yn elwa o fuddsoddiad Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru, dim ond na fydd unrhyw effeithiau o'r fath yn anghymesur â'r rhai a brofir gan eraill.

## 5.4 Casgliadau

Ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau anghymesur ar y nodwedd warchodedig hon.

## 5.5 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Ar wahân i weithio i sicrhau nad yw'r holl bobl, heb ystyried eu statws priodasol a pha un a ydynt yn briod neu mewn partneriaeth sifil, yn profi gwahaniaethu anghyfreithlon fel rhan o roi'r Rhaglen Cydweithredu Iwerddon Cymru ar waith, nid oes unrhyw argymhellion penodol ar gyfer rhoi'r Echelau Blaenoriaeth ar waith mewn perthynas â'r grŵp hwn.

# 6. Beichiogrwydd a mamolaeth

## 6.1 Cyflwyniad

Mae'r CCHD yn diffinio beichiogrwydd fel 'y cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl baban' tra bod 'mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth, ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. . Yn y cyd-destun nad yw'n ymwneud â gwaith, ceir amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos yn dilyn rhoi genedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron'. [52]

## 6.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

Yn aml defnyddir nifer a chyfran y plant o dan un flwydd oed fel mesur procsi ar gyfer y nodwedd hon gan ei bod yn rhoi cipolwg ar nifer y menywod sydd wedi bod yn feichiog a gellir ystyried yn fras ei bod yn dod o dan y cyfnod a ystyrir fel mamolaeth.

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd enedigaeth fras ar gyfer ardaloedd y Rhaglen yng Nghymru ac Iwerddon.

Tabl 6.1: Plant o dan un flwydd oed

| | Pob preswylydd arferol | Plant o dan 1 oed | Plant o dan 1 oed % |
|---|---|---|---|
| Iwerddon | 2,891,008 | 46,244 | 2% |
| Cymru | 1,309,098 | 15,068 | 1% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 61,312 | 1% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r tabl hwn yn dangos er y ceir nifer uwch o blant dan un oed yn rhan Iweddon o’r astudiaeth nag yn y rhan Cymraeg (ychydig o dan 47,000 o gymharu ag ychydig dros 15,000), maen nhw'n debyg yn gymesur (2% ac 1%).

## 6.3 Effeithiau a chyfleoedd ar draws Echelau Blaenoriaeth y Rhaglen Iwerddon Cymru

Nid oes unrhyw effeithiau anghymesur wedi cael eu hadnabod ar gyfer y nodwedd warchodedig hon. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu na fydd pobl sy'n feichiog neu sydd â theuluoedd ifanc yn elwa o'r buddsoddiadau a'r gweithgareddau a roir ar waith trwy'r Rhaglen, dim ond na fydd unrhyw effeithiau o'r fath yn anghymesur i'r rhai a brofir gan eraill.

52 Gweler: http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/protected-characteristics-definitions/

## 6.4 Casgliadau

Gan hynny, oherwydd natur y Rhaglen - gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd sy'n annhebygol o ryngweithio'n echblyg gyda beichiogrwydd a mamolaeth - ni ddisgwylir y bydd unrhyw effeithiau anghymesur ar y nodwedd warchodedig hon.

## 6.5 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Ar wahân i weithio i sicrhau nad yw menywod sy'n feichiog neu yn y cyfnod mamolaeth a ddiogelir gan y gyfraith yn profi gwahaniaethu anghyfreithlon neu anfantais fel rhan o roi'r Rhaglen Iwerddon Cymru ar waith, nid oes unrhyw argymhellion penodol ar gyfer rhoi'r tair Blaenoriaeth ar waith mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.

# 7. Hil ac ethnigrwydd

## 7.1 Cyflwyniad


Mae 'Hil ac ethnigrwydd' yn cyfeirio at grŵp o bobl sydd wedi'i ddiffinio gan eu hil, lliw eu croen, eu cenedligrwydd, dinasyddiaeth neu darddiad ethnig neu genedlaethol.

Wrth ganolbwyntio ar effeithiau posib Rhaglenni ar bob hil ac ethnigrwydd, mae AEC yn tueddu i dynnu cymhariaeth rhwng pobl o darddiad gwyn Prydeinig (ac yn yr achos hwn Gwyn Prydeinig a Gwyn Gwyddelig) a phobl o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill (BAME). Tynnir y gymhariaeth hon oherwydd bod canlyniadau (gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth, sgiliau a chymwysterau, iechyd a chanlyniadau eraill) pobl o grwpiau BAME yn tueddu i fod yn wahanol i'w cymheiriaid Gwyn. Er gwaethaf gwahanu'r ddau grŵp hyn at ddibenion yr AEC hwn, mae'n werth nodi nad yw cymunedau BAME yn grŵp homogenaidd a phryd bynnag y bo'n bosib mae angen dadagregu data i sicrhau y ceir darlun cywir.

## 7.2 Proffil cymdeithasol a demograffig


Dylid nodi bod y boblogaeth BAME yn Iwerddon ac yng Nghymru'n gymharol fach. Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y bobl o gymunedau BAME yn ardal y Rhaglen.

Ffigur 7.1: Ardal y Rhaglen: Dwysedd BAME




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Ffigur 7.2: Ardal y Rhaglen: Cyfran BAME




Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r mapiau'n dangos:

- Bod dwysedd poblogaeth poblogaethau BAME ar gyfer mwyafrif helaeth ardal y Rhaglen o dan 50 fesul cilometr sgwâr.
- Mae'r ardaloedd sydd a'r dwysedd uchaf o boblogaeth BAME wedi eu lleoli yng ngogledd-ddwyrain ardal Iwerddon o'r Rhaglen, o gwmpas Dulyn, gyda nifer o ardaloedd lle mae mwy na 500 o bobl fesul cilometr sgwâr o gefndiroedd BAME.

Fodd bynnag, yn gyfraneddol mae poblogaeth y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl hir dymor yn amrywio ar draws ardal y Rhaglen:

- Yn ardal Cymru'r Rhaglen, ceir rhai pocedi (wedi eu gwasgaru ar draws ardal y Rhaglen) sydd â chyfran uwch o grwpiau BAME. Er, o amgylch ardal Dulyn yng ngogledd-ddwyrain ardal y Rhaglen mae dros un o bob pedwar o'r boblogaeth o gefndiroedd BAME.
- Ar draws ardal y Rhaglen, nid yw'r gyfran o bobl o gefndiroedd BAME yn dueddol o fod yn uwch na 10%.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y bobl o gefndiroedd BAME sy'n byw yn rhannau Iwerddon a Chymru ardal y Rhaglen, gan ganiatáu cymhariaeth rhyngddynt yn erbyn ardal y Rhaglen yn gyffredinol.

Tabl 7.1: Nifer a chyfran y bobl o grwpiau BAME

| | Pob preswylydd arferol | BAME | BAME % |
|---|---|---|---|
| Iwerddon | 2,891,008 | 475,190 | 17% |
| Cymru | 1,309,098 | 73,468 | 6% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 548,648 | 11% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad y DU 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r tabl yn dangos y canlynol:
- Mae canran llawer uwch o bobl o gymunedau BAME yn byw yn ardal Iwerddon y Rhaglen o'i gymharu ag ardal Cymru'r Rhaglen (17% o'i gymharu â 6%).
- Gan hynny, 11% yw poblogaeth gyffredinol y bobl o gefndiroedd BAME yn ardal y Rhaglen.

## 7.3 Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

### 7.3.1 Cyfle: Cyfalafu ar botensial heb ei wireddu mewn cymunedau BAME

Cydnabyddir yn gyffredinol y ceir gallu ymchwil ac arloesi sylweddol heb ei wireddu o fewn nifer o grwpiau cydraddoldeb (gan gynnwys pobl o gymunedau BAME yn benodol, ond gan gynnwys menywod, pobl ifanc a phobl anabl hefyd). Mae nifer o fuddion i unigolion, cymdeithas a'r economi a allai fod yn sylweddol os oes modd llwyddo i fanteisio ar yr adnoddau o fewn y meysydd hyn. Mae'r Sefydliad Cydweithredu a Datblygu Economaidd (OECD) wedi annog cymdeithas ers tro i fanteisio ar botensial cymunedau lleiafrifoedd ethnig a rhannau eraill o gymdeithas a danddefnyddir sydd heb ei wireddu i raddau helaeth. [53]

***Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd***

***Amcan Penodol 1***

Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar:
- Adeiladu gallu i wella perfformiad arloesedd, gan dargedu diffyg gallu MBaCh i arloesi'n benodol.

Gallai'r ymyrraeth hon gefnogi datblygu gallu o fewn grwpiau heb eu gwireddu, gan gynnwys pobl o gymunedau BAME a chan ddarparu cyfle i gynyddu gweithgarwch yn ardal y Rhaglen gan bobl sydd â'r nodwedd hon.

***Ardal yr Effaith:***
- Amcan Penodol 1: Mae'r Flaenoriaeth Buddsoddi hon yn cefnogi prosiectau ar draws

53 Gweler, er enghraifft: OECD (2012): 'Untapped skills: realising the potential of immigrant students' ac OECD (2010): 'Fulfilling promise'

ardal gyfan y Rhaglen, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer partneriaid o bob rhanbarth.

## 7.4 Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr hinsawdd

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur wedi'u hadnabod o ganlyniad i'r themâu arfaethedig neu eu hymyraethau cysylltiedig o fewn y Flaenoriaeth 'Newid yn yr Hinsawdd'. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu na fydd pobl o gefndiroedd yn elwa o fesurau o dan yr Echel Blaenoriaeth hon, dim ond bod y buddion hynny'n annhebygol o gael eu teimlo'n anghymesur o'i gymharu â rhannau eraill o'r boblogaeth.

## 7.5 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

### 7.5.1 Effaith: Cefnogi MBaCh sy'n eiddo i aelodau cymunedau BAME

Mae nifer o rwystrau sydd wedi'u cydnabod yn helaeth yn wynebu pobl o lawer o gymunedau BAME i gymryd rhan yn llawn mewn nifer o rannau o'r farchnad lafur. Fel y mae ymchwil gan Race for Opportunity[54] wedi'i ddangos, mae gweithwyr BAME yn parhau wedi'u tangynrychioli mewn swyddi rheoli ac ar lefel uwch. . Mae cyfarwyddwyr gwryw a benyw lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 5.7% yn unig o'r holl gyfarwyddwyr mewn cwmnïau FTSE 100[55] ac mae llai nag 1 o bob 15 o weithwyr BAME yn y DU yn dal swydd rheoli.[56]

Adroddodd ymchwil bellach ar Ganlyniadau Marchnad Iwerddon yn 2010 fod 'pobl Ddu Africanaidd, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig o'r UE ac unigolion Gwyn o'r DU a 12 Aelod-wladwriaeth newydd yr UE yn llai tebygol na dinasyddion Gwyn o Iwerddon i weithio mewn swyddi proffesiynol a rheoli'.[57]

Serch hynny, mae hunangyflogaeth yn parhau'n ffynhonnell gweithgarwch economaidd unigol, a chynhyrchedd economaidd cenedlaethol pwysig Yng Nghymru, er enghraifft, mae tuag 8 y cant o'r boblogaeth sy'n weithgar yn economaidd yn hunangyflogedig.

Fel y mae data o Gyfrifiad 2011 y DU yn ei ddangos, roedd gan nifer o grwpiau BAME gyfran uwch o unigolion hunangyflogedig na'r boblogaeth groenwyn (8 %). [58] Roedd hyn yn cynnwys Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig (10%) a'r cymunedau Indiaidd (10%), Pacistanaidd (15%), Bangladeshaidd (12%) a Tsieineaidd (12%).

54 Race for Opportunity (2011) 'Race to progress'

55 Sealy, R and Vinnicombe, S (2012) 'The Female FTSE Board Report, Milestone or Millstone 2012' Canolfan Ryngwladol Cranfield ar gyfer Arweinwyr Benywaidd

56 Busnes yn y Gymuned (2013) 'Race and gender: a business case for inclusion' http://www.bitc.org.uk/issues/workplace-and-employees/race-and-gender

57 Kingston, G, O'Connell P J and Kelly E (2010) 'Ethnicity and Nationality in the Irish Labour Market: Evidence from the Equality Module 2010'

58 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013): 'Cyfrifiad 2011'

O fewn pob cymuned ethnig gall oedran fod yn benderfynydd hunangyflogaeth hefyd. Yn y cymunedau Gwyn Prydeinig, Pacistanaidd, Bangladeshaidd a Tsieineaidd, er enghraifft, mae hyn yn cynnwys unigolion 25 oed ac yn hŷn (25-49 oed) a phobl oedran gwaith hŷn (50-64 oed). Ar draws pob grŵp oedran, mae unigolion o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn cynnwys cyfran uwch o unigolion hunangyflogedig na'r boblogaeth groenwyn yng Nghymru. Mae pobl oedran gwaith hŷn (50-64 oed) yn y gymuned Indiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig hefyd. Mewn cyferbyniad, mae ychydig neu ddim gwahaniaeth yn y gyfran o unigolion hunangyflogedig o'r Cymunedau Du Affricanaidd a De Caribïaidd a chyda'r eithriad o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig; mae cyfrannu tebyg o bobl ifanc hunangyflogedig.

Yn ei dro mae busnesau BAME yn aml yn dangos nodweddion gwahanol i'r rhai sy'n eiddo i'w cymheiriaid Gwyn. Er enghraifft, roedd busnesau BAME yn fwy tebygol o fod yn rhai newydd, fel y mae astudiaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig hunangyflogedig a gyflawnwyd gan Bartneriaeth Ddatblygu Cyfenter[59] wedi'i amlygu. Er enghraifft, datgelodd canfyddiadau fod 40 % o fusnesau BAME wedi masnachu am flwyddyn neu lai, o'i gymharu ag 21% o fusnesau nad ydynt yn BAME. Dangosodd hefyd fod perchnogion busnes o leiafrifoedd ethnig i'w gweld yn fwy ymwybodol na pherchnogion busnesau eraill o grantiau sydd ar gael, ond bod nifer sylweddol is wedi sicrhau grant o'i gymharu â'u cymheiriaid Gwyn Prydeinig.[60]

Amcangyfrifodd adroddiad diweddar gan BIS fod 62% o MBaCh y DU wedi'u harwain gan bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn cyfateb i tua 295,000 o MBaCh. Yn y DU amcangyfrif bod MBaCh a arweinir gan bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cyfrannu tua £30 biliwn i Werth Ychwanegol crynswth (GVA) neu tua 6% o gyfanswm GVA bras MBaCh y DU).[61]

Er hynny, nododd ymchwil arall gan BIS fod perchnogion busnes BAME yn ei chael hi'n anodd sicrhau cyllid busnes. Nododd adrodd gan BIS yn 2013 fod y gellir gweld effaith tarddiad ethnig y perchennog ar fenthyg i MBaCh, gyda chredyd yn fwy tebygol o gael ei wrthod i entrepreneuriaid du. Roedd y banciau newydd eu gwladoli yn 2008-9 (o ganlyniad i'r dirwasgiad a dymchweliad y sector bancio) yn fwy parod i ddarparu credyd i MBaCh na sefydliadau eraill. [62]

59 Partneriaeth Ddatblygu Cyfenter (2006): 'People from Minority Ethnic Groups in Business'. http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/Entres/cyfenter/?lang=en

60 Partneriaeth Ddatblygu Cyfenter (2006): 'People from Minority Ethnic Groups in Business'

61 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2013): Gweler: 'Small Business Survey 2012: Estimates for Businesses Led by Women and Ethnic Minorities and Social Enterprises in the UK'

62 Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (2013): 'Evaluating Changes in Bank Lending to UK SMEs Over 2001-12 – On-going Tight Credit?'. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/193945/bis-13-857-evaluating-changes-in-bank-lending-to-uk-smes-2001-12.pdf

Gall grwpiau BAME gael eu diystyru o safbwynt ymgysylltu economaidd a chefnogaeth fusnes effeithiol hefyd. [63] Mae ymchwil wedi dangos diffyg gwybodaeth a chyngor ar gael i grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru o ran cefnogaeth fusnes a chyfranogiad economaidd ehangach. [64] Yn benodol, mae diffyg cyngor ar gael ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig yng nghanolbarth a gogledd Cymru, a diffyg gwasanaethau cynghori ar gyfer gweithwyr mudol hefyd. [65] Fel y mae astudiaeth gan Gyngor Defnyddwyr Cymru wedi'i ddangos, mae gweithwyr mudol yn wynebu anawsterau penodol wrth hygyrchu ystod o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cefnogaeth economaidd a busnes. [66]

***Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol***

***Amcan Penodol 3***

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:
- Datblygu gweithgareddau entrepreneuraidd a chefnogi ehangu neu ddechrau busnesau yn y sectorau treftadaeth greadigol a diwylliannol.

Gallai'r cyfryw ymyraethau helpu cefnogi pobl o gymunedau BAME (ac yn benodol y rhai sydd am fynd yn hunangyflogedig yn dilyn colli swydd) i redeg eu busnesau eu hunain, os cânt ei sefydlu'n briodol i oresgyn rhai o'r rhwystrau traddodiadol y mae lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu.

***Ardal yr Effaith:***
- Amcan Penodol 3: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar yr amgylcheddau arfordirol a morol, oherwydd agosrwydd pob rhan o ardal y Rhaglen i'r arfordir. Er hynny, nid yw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd hyn a bydd gweithgareddau'n canolbwyntio hefyd ar dreftadaeth seiliedig ar y tir sy'n digwydd ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

## 7.6 Casgliadau

Mae gan Iwerddon a Chymru boblogaethau BAME bach iawn - bydd hyn yn cyfyngu'n sylfaenol ar effaith rifol unrhyw effeithiau ar y grŵp hwn. Mae rhai effeithiau cadarnhaol anghymesur posib ar gyfer cymunedau BAME penodol o ganlyniad i'r cynigion i gyfalafu ar arloesedd mewn grwpiau BAME a chefnogi ehangu a chychwyn MBaCh, fodd bynnag ychydig iawn o dystiolaeth sydd i awgrymu y bydd mesurau sy'n canolbwyntio ar newid

63 Partneriaeth Ddatblygu Cyfenter (2006): ‘People from Minority Ethnic Groups in Business’

64Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2009) ‘Cydraddoldeb yng Nghymru - Adolygiad Ymchwil'

65 Withers, L. and Sokiri-Munn, Y. (2005) Untangling the Web. Abertawe: MEWN Cymru. Ffynhonnell: http://www.mewncymru.org.uk/untangling%20the%20web.htm

66 Thomas, R. (2007) Migrant Workers and Access to Public Services. Caerdydd; Cyngor Defnyddwyr Cymru

yn yr hinsawdd yn creu buddion anghymesur ar gyfer aelodau grwpiau BAME. Fel gyda nodweddion gwarchodedig eraill, bydd amrediad llawn y buddion yn dibynnu ar sut mae mesurau'n cael eu rhoi ar waith.

## 7.7 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Dim ond poblogaeth BAME bach sydd gan Iwerddon a Chymru. Er hynny, ac fel yr hyn sy'n wir gyda nodweddion gwarchodedig eraill, mae'n rhaid rhoi’r Blaenoriaethau ar waith yn y Rhaglen Iwerddon Cymru ystyried yr heriau penodol sy'n wynebu cymunedau BAME yn ddigonol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid ystyried gwahaniaethau rhwng ac o fewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig i sicrhau bod buddion yn cael eu gwireddu. Gallai methu â gwneud hyn olygu bod canlyniadau'r Rhaglen yn atgyfnerthu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli ac yn cael effeithiau negyddol ar rai grwpiau BAME.

- Gallai mynediad i gynlluniau cyllid busnes wedi'u teilwra helpu cefnogi pobl o gefndiroedd BAME (ac yn benodol y rhai sydd am fynd yn hunangyflogedig yn dilyn colli swydd) i redeg eu busnesau eu hunain, os cânt ei sefydlu'n briodol i oresgyn rhai o'r rhwystrau traddodiadol (a nodwyd uchod) y mae lleiafrifoedd ethnig penodol yn eu hwynebu.

# 8. Crefydd neu gred

## 8.1 Cyflwyniad

O ran crefydd neu gred, gwneir cymhariaeth yn aml er mwyn adnabod y rhaid sy'n arddel 'ffydd leiafrifol', sydd yn y DU yn tueddu cynnwys Bwdhaeth, Hindŵaeth, Mwslemiaeth, Iddewiaeth a Sikhiaeth (yn ogystal â chredoau eraill megis Baha'i a grwpiau llai megis paganiaid). Gwneir y gymhariaeth hon oherwydd, yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae mwyafrif o'r boblogaeth yn tueddu i fynegi eu crefydd neu ffydd fel rhyw ffurf ar neu enwad o Gristnogaeth, fel diffyg crefydd neu ffydd (gan gynnwys anffyddwyr neu ddyngarwyr) neu ddymuniad i beidio ag ateb.

Yn Iwerddon, oherwydd cyfansoddiad Catholig y wlad yn bennaf, mae dilynwyr 'ffydd leiafrifol' yn tueddu i gynnwys pawb sy'n adnabod eu hunain fel rhywbeth ar wahân i Gatholig.

## 8.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r bobl o grefydd neu ffydd wahanol sy'n byw yn Iwerddon neu Gymru (nid yw data ar gael ar gyfer ardal y Rhaglen). Defnyddiwyd tablau gwahanol oherwydd proffiliau crefyddol gwahanol y ddwy wlad, ac oherwydd y data a gasglwyd wedyn ar y lefel ddaearyddol briodol. Gan hynny, nid yw cymariaethau llawn ac uniongyrchol yn bosib ac mae'r tablau isod yn darparu cipolwg yn unig.

Tabl 8.1: Crefydd, ffydd a chred yng Nghymru (nifer a % o'r boblogaeth)

| | Cristnogaeth | Bwdhaeth | Hindŵaeth | Iddewiaeth | Mwslemiaeth | Sikhiaeth | Crefydd arall | Dim crefydd | Heb nodi crefydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 58% | 0.3% | 0.3% | 0.1% | 1.5% | 0.1% | 0.4% | 32.1% | 7.6% |
| Nifer. | 1,763,299 | 9,117 | 10,434 | 2,064 | 45,950 | 2,962 | 12,705 | 982,997 | 233,928 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Tabl 8.2: Crefydd, ffydd a chred yn Iwerddon (nifer a % o'r boblogaeth)

| | Catholig | Eglwys Iwerddon | Moslemiaeth | Uniongred | Cristnogaeth Arall | Presbyteriaeth | Apostolaidd neu Bentecostaidd | Arall | Dim crefydd | Heb ei nodi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 84.2% | 2.8% | 1.1% | 1.0% | 0.9% | 0.5% | 0.3% | 1.8% | 5.9% | 1.6% |
| Nifer | 3,861,335 | 129,039 | 49,204 | 45,223 | 41,161 | 24,600 | 14,043 | 80,922 | 269,811 | 72,914 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r tablau'n dangos y canlynol:

- Mae Cymru'n parhau'n wlad Gristnogol yn bennaf (58%), gyda lleiafrif sylweddol (ychydig dros 32%) yn nodi nad oes ganddynt unrhyw grefydd.
- Mae crefyddau eraill wedi'u cynrychioli mewn niferoedd bach, gyda Mwslemiaid (1.5%) fel y ffydd leiafrifol fwyaf.
- Mae'r mwyafrif helaeth o boblogaeth Iwerddon yn Gatholig (gyda thros 84% o'r boblogaeth yn adnabod eu hunain fel Catholig). Yn Iwerddon mae bron 6% yn nodi nad oes ganddynt grefydd; cyfran lawer is nag yng Nghymru.
- Cynrychiolir pob ffydd arall (gan gynnwys enwadau Cristnogaeth eraill) mewn cyfrannau bach.

## 8.3 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

### 8.3.1 Cyfle: Gwella mynediad i gyllid busnes ar gyfer busnesau Mwslimaidd

Gyda mwy na 49,000 o Fwslemiaid yn byw yn Iwerddon a 45,000 pellach yn byw yng Nghymru, gallai mynediad i fancio Sharia fod yn hollbwysig ar gyfer y rhai sydd am gychwyn eu busnesau eu hunain. Mae cyfraith Sharia'n nodi na ellir gwneud elw o arian- felly ni chaniateir codi neu dderbyn llog. [67]

67 Banc Islamaidd Prydain (2012): 'Islamic Finance'

***Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol***

***Amcan Penodol 3***

Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth ar gyfer mentrau:
- Cefnogi ehangu neu ddechrau busnesau

Mae'r ymyrraeth hon yn darparu cyfle i greu buddion ac effeithiau cadarnhaol ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchodedig os yw rhoi'r Echel Blaenoriaeth yn cynnwys darparu ar gyfer mentrau sy'n sensitif i ffydd.

***Ardal yr Effaith:***
Bydd gweithgareddau i wella twf economaidd yn cael eu canolbwyntio ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

## 8.4 Effeithiau a chyfleoedd ar draws Echelau Blaenoriaeth eraill y Rhaglen Iwerddon Cymru

Nid oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur ar draws y tair Echel Blaenoriaeth wedi'u hadnabod ar gyfer y nodwedd warchodedig hon.

## 8.5 Casgliadau

Gan mwyaf, mae'r gweithgareddau ac ymyraethau o fewn y Blaenoriaethau hyn yn debygol o greu buddion ar gyfer pobl o ffydd wahanol, ond nid yw'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn fwy na'r rhai a brofir gan y boblogaeth yn gyffredinol.

Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod gwahaniaethau seiliedig ar ffydd a'r effaith y gall hyn ei chreu; Bydd methu ag ymdrin â'r rhwystrau grŵp-benodol hyn i gyflogaeth/busnes yn arwain at y risg y bydd heriau y mae eu gwreiddiau'n ddwfn ac eithrio economaidd cymharol yn parhau.

## 8.6 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Ar wahân i sicrhau bod gwahaniaethu ar sail cred grefyddol yn cael ei atal, argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan y grŵp hwn.

- O dan Echel Blaenoriaeth 3, bydd yn bwysig sicrhau y gall prosiectau sy'n derbyn cyllid ddarparu'r gwasanaethau ariannol priodol i'r holl ddarpar gwsmeriaid. Dylid rhoi peth ystyriaeth i'r ffordd orau o annog hyrwyddwyr i ymgysylltu â busnesau bach sy'n eiddo i Fwslemiaid i'w helpu i gael mynediad i gyllid a glynu wrth yr arferion bancio sy'n ofynnol o dan gyfraith Sharia.

- Mae arfer cyfredol yn y maes hwn yn cynnwys sefydlu Canolfan Bancio a Chyllid Mwslimaidd y DU (IFBC-UK) - un o'r sefydliadau cyntaf yn Ewrop i gynnig darpariaeth mewn addysg weithredol Cyllid Moslemaidd.[68] Mae Caerdydd yn gartref i ganolfan addysg Cyllid Moslemaidd, mewn menter ddiweddar ar y cyd rhwng Ysgol Fusnes Caerdydd, y Sefydliad Bancio a Chyllid Mwslemaidd ym Malaysia (IBFIM) a'r Ganolfan Bancio a Chyllid Moslemaidd (IBFC-UK). Mae'r Rhaglen Hyfforddiant Cyllid Moslemaidd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol yn anelu at gynorthwyo mudiadau ariannol sydd am gynnig cyrsiau Bancio Moslemaidd a chynnyrch bancio ac ariannol Moslemaidd. Argymhellir ffyrdd o weithio gyda'r Ganolfan a sefydliadau tebyg yn gryf.

68 Gweler: http://ibfc.eu/index.php?option=com_content&task=view&id=43&Itemid=50

# 9. Rhyw a rhywedd

## 9.1 Cyflwyniad

Diffinnir rhyw fel y gwahaniaeth biolegol rhwng dyn a menyw, a rhywedd fel rôl dynion a menywod a bennir gan gymdeithas, sydd yn aml yn cyd-fynd â normau cymdeithasol megis confensiynau gwisgo penodol a rolau teuluol sefydledig.

## 9.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y dynion a menywod sy'n byw yn Iwerddon a Chymru , ac ar draws ardal y Rhaglen yn gyffredinol, gan ganiatáu cymhariaeth rhyngddynt.

Tabl 9.1: Ardal y Rhaglen: Nifer a chyfran y dynion a menywod

| | Pob preswylydd arferol | Dynion | | Menywod | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % | Nifer | % |
| Iwerddon | 2,891,008 | 1,424,658 | 49% | 1,446,430 | 51% |
| Cymru | 1,309,098 | 643,755 | 49% | 665,343 | 51% |
| Cyfanswm | 4,200,186 | 2,068,413 | 49% | 2,131,773 | 51% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011

Mae'r tabl hwn yn dangos y canlynol:
- Mae'r un canran o fenywod yn byw yn ardaloedd Cymru ac Iwerddon y Rhaglen (51%), er gwaethaf gwerthoedd gwahanol iawn o ganlyniad i feintiau poblogaeth gwahanol (bron miliwn a hanner yn Iwerddon a llai na hanner miliwn yng Nghymru).

## 9.3 Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

### 9.3.1 Effaith: Hyrwyddo pynciau STEM ymysg menywod a merched

Fel y nodwyd uchod, nododd adroddiad diweddar gan y fenter gymdeithasol Women in Science and Engineering (WISE) y canlynol: 'er gwaetha'r dirywiad economaidd, mae 43% o gyflogwyr gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) y DU wedi adrodd am anhawster wrth recriwtio staff ac mae mwy na hanner (52%) yn disgwyl anawsterau parhaus o ran recriwtio dros y tair blynedd nesaf. [69]

Dengys yr adroddiad bod menywod yn cyfrif am 9% yn unig o gyflogeion STEM yn y DU ar hyn o bryd. Roedd y rhwystrau i gyfranogiad cynyddol menywod yn y sectorau hyn fel: cyngor ac arweiniad gyrfaol gwael; diffyg gwybodaeth am opsiynau gyrfa STEM; a diffyg modelau rôl benywaidd cadarnhaol.

69 CBI, (2011), 'Building for Growth- Business Priorities for Education and Skills'

Mae'r duedd hon wedi'i hailadrodd yn Iwerddon. Mae adroddiad gan Accenture yn 2014 yn nodi, 'yn Iwerddon mae tua 117,800 o bobl yn gweithio mewn swyddi sy'n defnyddio sgiliau STEM. Mae cyfran y menywod a gyflogir yn y cyfryw rolau'n llai na 25%. [70] Mae'r adroddiad yn nodi mai rhwystr allweddol yw'r ystrydebau negyddol bod pynciau STEM yn fwy addas ar gyfer bechgyn.

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod cyngor gyrfaol gwael a diffyg modelau rôl benywaidd yn rhwystrau i fenywod ifanc yn ymuno â phroffesiynau STEM.[71] Adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau arolwg y Geidiau 2011 - lle mae'r ddau reswm pennaf dros beidio â dilyn gyrfa gwyddoniaeth a pheirianneg yn cynnwys diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o opsiynau gyrfaol (43%) a diffyg modelau rôl benywaidd (43%).[72]

Mae tuag 20% o weithlu'r sector gwynt a morol yn fenywaidd[73]. Mae hyn yn is na chyfran y menywod mewn galwedigaethau technegol a phroffesiynol yn y DU yn fwy cyffredinol ac mae menywod yn tueddu i gael eu tangynrychioli mewn galwedigaethau rheoli a thechnegol a rhai eraill yn y diwydiant o'i gymharu ag economi'r DU yn gyffredinol. [74] Mae'r patrwm hwn yn debyg ar gyfer y sector pŵer yn gyffredinol.

***Echel Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd***

***Amcan Penodol 1***

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Gweithgareddau sy'n symbylu arloesedd ac yn gwella cadwynau cyflenwi arloesedd rhwng busnesau a chyda'r byd academaidd.

Mae gan y cyfryw ymyraethau'r cyfle i gael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad menywod yn y sector ymchwil ac arloesedd y maent wedi'u tangynrychioli ynddynt yn draddodiadol, gan gynnwys meysydd STEM.

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 1: Mae'r Flaenoriaeth Buddsoddi hon yn cefnogi prosiectau ar draws ardal gyfan y Rhaglen, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer partneriaid o bob rhanbarth.

70 Accenture (2014) 'Powering economic growth; Attracting more young women into science and technology.'

71 CBI, (2011): 'Building for Growth- Business Priorities for Education and Skills'

72 UKRC – WISE (2012): 'Engaging girls in science technology, engineering and maths: What works?'; Girl guiding UK (2011): 'Girls attitudes 2011'; Engineering UK (2011): 'An investigation in to why the UK has the lowest proportion of female engineers in the EU'

73 Renewable UK (2013) Working for a Green Britain & Northern Ireland, 2013-23

74 Renewable UK (2013) Working for a Green Britain & Northern Ireland, 2013-23

## 9.4 Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd

Nid oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur wedi'u hadnabod o ganlyniad i'r themâu arfaethedig neu eu hymyraethau cysylltiedig o fewn y Flaenoriaeth 'Newid yn yr Hinsawdd'. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu na fydd naill ai ddynion neu fenywod yn elwa o fesurau o dan yr Echel Blaenoriaeth hon, dim ond bod y buddion hynny'n annhebygol o gael eu teimlo'n anghymesur gan un rhyw na'r llall.

## 9.5 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

### 9.5.1 Effaith: Cefnogi menywod i ymwneud â busnes

Mae menywod wedi'u tangynrychioli ymysg perchnogion busnesau bach a'r hunangyflogedig. Mae ffigurau Ewrop gyfan yn dangos mai dim ond 6% o fenywod yn yr UE sy'n berchen ar fusnes ar hyn o bryd a bod 2.8% o fenywod Ewropeaidd yn bwriadu dechrau busnes. [75] Ac yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol, mae menywod yn llai tebygol na dynion o fod yn hunangyflogedig. Yn 2013, er enghraifft, roedd 13% o ddynion yng Nghymru 16 oed ac yn hŷn yn hunangyflogedig o'i gymharu â 5% o fenywod[76].

Mae'r un Undeb Ewropeaidd yn adrodd bod menywod wedi'u tangynrychioli'n ddifrifol ar fyrddau rheoli busnesau pennaf Iwerddon. Mae menywod Gwyddelig yn cyfrif am 8.7% o aelodau bwrdd y cwmnïau mwyaf a restrir yn gyhoeddus yn Iwerddon, yn sylweddol is na chyfartaledd yr UE o 15.8%. Ymhellach i hynny, yn ôl ystadegau'r Comisiwn Ewropeaidd, nid oes unrhyw gadeiryddion bwrdd neu Brif Weithredwyr benywaidd mewn unrhyw un o'r cwmnïau pennaf a restrir yn gyhoeddus yn y mynegai ISEQ20. Yn olaf, mae menywod Gwyddelig yn cyfrif am 6.5% o gyfarwyddwyr gweithredol yng nghwmnïau pennaf Iwerddon a 10.3% o gyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r ddau ffigur islaw'r cyfartaleddau UE o 10.2% a 16.8% yn ôl eu trefn. [77]

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cefnogi gan nifer o brosiectau ymchwil diweddar, gan gynnwys 'Equality Issues in Wales: A Research Review' (a gyflawnwyd ar gyfer CCHD yn 2009), a 'The Global Entrepreneurship Monitor', sy'n nodi bod ychydig o dan draean o'r holl entrepreneuriaid yn eu camau cynnar yng Nghymru'n fenywod.[78]

Ymhellach i hynny mae gan Weriniaeth Iwerddon nifer cymharol isel o fenywod yn ymwneud â gweithgareddau entrepreneuraidd. Yn wir, yn ôl adroddiad gan Enterprise Europe, menywod yw'r grŵp mwyaf a dangynrychiolir o safbwynt menter yn Iwerddon:

---

75 Golygfa o Senedd Ewrop, (2012): 'SME week: Women entrepreneurs with a migrant background' Gweler: http://lidiageringer.wordpress.com/2012/10/17/sme-week-women-entrepreneurs-with-a-migrant-background/

76 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013): 'Arolwg Poblogaeth Blynyddol'

77 Y Comisiwn Ewropeaidd 'The EU and Irish Women' wedi'i hygyrchu ar-lein http://ec.europa.eu/ireland/ireland_in_the_eu/impact_of_eu_on_irish_women/index_en.htm

78 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2009): 'Equality in Wales – a Research Review'

dim ond 15-19% o entrepreneuriaid sefydledig yn Iwerddon sy'n fenywod. Yn wir, dim ond 5.2% o fenywod yn Iwerddon sy'n entrepreneuriaid sefydledig o'i gymharu ag 11.8% o ddynion. Mewn geiriau eraill, mae dynion 2.3 gwaith yn fwy tebygol o fod yn berchnogion sefydledig busnesau na menywod. [79]

Mewn arolwg o fenywod hunangyflogedig yng Nghymru yn 2013, nododd Chwarae Teg fod mynediad i gyngor, cefnogaeth a chyllid yn parhau'n rhwystrau allweddol i fenywod ddechrau busnesau newydd yng Nghymru. Nid oedd bron hanner y menywod a holwyd wedi hygyrchu cyngor neu hyfforddiant ar yr amser mynd yn hunangyflogedig a dim ond cyfran fach iawn (14%) oedd wedi derbyn cefnogaeth gan fanc neu gymdeithas adeiladu , gyda dau draean (75%) yn ariannu eu busnes newydd eu hunain gan ddefnyddio eu cynilion eu hunain.

Mae'r papur CCHD ‘Cydraddoldeb yng Nghymru’[80] yn adnabod rhwystrau tebyg sy'n wynebu menywod yn yr amgylchedd busnes, ac yn amlygu eu tangynrychiolaeth yn y sector hunangyflogedig. Mae'r rhwystrau'n cynnwys problemau sicrhau cyllid, megis methu â chael eu hystyried o ddifrif gan fancwyr (sy'n wrywaidd yn bennaf); hunanhyder isel; diffyg gwybodaeth; ac eithrio o rwydweithiau busnes. [81] Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u cefnogi gan Adroddiad Enterprise Europe ac Entrepreneuriaeth gan fenywod yn Iwerddon, sy'n adrodd am faterion tebyg ar gyfer menywod mewn busnes.

Gan mai dyna'r achos, mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu bod nifer mwy o fenywod eisiau ymwneud â hunangyflogaeth. Er enghraifft yn ôl astudiaeth ddiweddar gan Resolution Foundation, er bod mwy o ddynion na menywod yn hunangyflogedig, mae'r rhai sy'n ymwneud â hunangyflogaeth ar hyn o bryd yn fwy tebygol o fod yn fenywaidd. [82]

***Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol***

***Amcanion Penodol 3***

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Datblygu gweithgareddau entrepreneuraidd a chefnogi ehangu neu ddechrau busnesau yn yr ardaloedd hyn

Mae gan ymyraethau o'r fath y potensial i gefnogi menywod sydd am sefydlu a rhedeg eu

79 Rhwydwaith Menter Ewrop (2010): ‘Female Entrepreneurship in Ireland’
80 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2009) ‘Cydraddoldeb yng Nghymru - Adolygiad Ymchwil'
81 Gweler: http://www.imagininggrowth.com/en/index.php?option=com_content&view=article&catid=34%3Aarticoli&id=47%3Athe-project&Itemid=82
82 Resolution Foundation (2014): ‘Just the job – or a working compromise? The changing nature of self-employment in the UK’, ar gael yn: http://www.resolutionfoundation.org/media/media/downloads/Just_the_job_-_or_a_working_compromise_1.pdf

busnesau eu hunain.

***Ardal yr Effaith:***

- Amcan Penodol 3: oherwydd y ffin forwrol rhwng Iwerddon a Chymru, bydd ffocws ar yr amgylcheddau arfordirol a morol, oherwydd agosrwydd pob rhan o ardal y Rhaglen i'r arfordir. Er hynny, nid yw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol wedi'i chyfyngu i'r ardaloedd hyn a bydd gweithgareddau'n canolbwyntio hefyd ar dreftadaeth seiliedig ar y tir sy'n digwydd ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

## 9.6 Casgliadau

Fel gyda'r nodweddion gwarchodedig eraill, mae gan y Rhaglen Iwerddon Cymru y potensial i wireddu effeithiau cadarnhaol ar gyfer menywod a merched trwy ymdrin â rhai rhwystrau traddodiadol i fenter a chyflogaeth, megis mynediad cyfyngedig i gyflogaeth. Er hynny, unwaith eto bydd rhoi'r Rhaglen ar waith yn hollbwysig o ran sicrhau bod y cyfleoedd i wella cydraddoldeb rhyw mewn perchnogaeth ar fusnesau bach yn cael eu mwyafu.

## 9.7 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan y grŵp hwn.

- Bydd yn bwysig i annog cyfranogiad menywod mewn gweithgareddau ymchwil a datblygu i sicrhau cydbwysedd rhyw a bod yr holl adnoddau cymdeithasol sydd ar gael yn cael eu defnyddio.

- Bydd yn bwysig i sicrhau nad yw unrhyw waith ar draws sectorau a chyda sectorau lluosog, sy'n dod  HEU a sefydliadau ymchwil ynghyd, yn eithrio menywod a'i fod yn annog eu cyfranogiad yn weithredol.

- ystyried y nifer bach o fenywod sy'n ymwneud â phynciau STEM ac arloesedd ac ymchwil yn fwy helaeth, bydd yn bwysig i'r holl feysydd y mae'r flaenoriaeth arloesedd yn eu cwmpasu ystyried sut i sicrhau mynediad ar gyfer menywod a grwpiau cydraddoldeb eraill. Mae gan y cyfryw ymyraethau'r cyfle i gael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad menywod yn y sector ymchwil ac arloesedd y maent wedi'u tangynrychioli ynddynt yn draddodiadol, gan gynnwys meysydd STEM

- Mae cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau yn ardal y Rhaglen a hyrwyddo pynciau STEM ymysg menywod a merched.

Gellir dod o hyd i arfer da mewn ymyraethau blaenorol yn 'Gweithgor Cydbwysedd Rhyw' y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd (ERC); strwythur parhaol o dan Gyngor Gwyddonol yr ERC. Fe'i crëwyd yn 2008 i fonitro cydraddoldeb rhyw ar draws y broses ERC gyfan ac mae'n anelu at gyflawni, yn y tymor byr, cydbwysedd rhyw ymysg adolygwyr cymheiriaid yr ERC a chyrdd gwneud penderfyniadau perthnasol eraill, gydag isafswm cyfranogiad o 40% o'r rhyw a dangynrychiolir.

# 10. Tueddfryd rhywiol

## 10.1 Cyflwyniad

Mae tueddfryd rhywiol yn nodi p'un a yw atyniad rhywiol rhywun ar gyfer eu rhyw eu hunain, y rhyw gyferbyniol neu'r ddau ryw.

Ychwanegwyd tueddfryd rhywiol i'r rhestr o nodweddion gwarchodedig yn y DU o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn gyffredinol, mae ystyriaeth o'r nodwedd hon yn canolbwyntio ar lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol, y cyfeirir atynt yn aml fel y gymuned LHD. Yn aml ehangir yr acronym i LHDT i ymgorffori'r boblogaeth drawsryw, er bod deddfwriaeth gydraddoldeb gyfredol yn eu hystyried nhw ar wahân.

Yn Iwerddon mae 'tueddfryd rhywiol' wedi'i gynnwys o dan y seiliau y mae'n anghyfreithlon i wahaniaethu arnynt o dan y Deddfau Statws Cyfartal 2000-2008.

## 10.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

Nid oes unrhyw ffigurau cynhwysfawr swyddogol neu o'r cyfrifiad ar gyfer y nifer o bobl LHD yng Nghymru neu Iwerddon ac mae arolygon gwahanol wedi cynhyrchu canlyniadau gwahanol.

Er hynny, mae peth gwybodaeth ar gael ar gyfer pob rhanbarth. Er enghraifft, mae'r elusen LHD Stonewall yn amcangyfrif bod pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol yn cyfrif am tua 6% o boblogaeth y DU. [83] Tra bod yr Arolwg Aelwydydd Integredig yn darparu amcangyfrifon o tua 340,000 o ymatebwyr unigol, bod:

- 1.5% o oedolion yn y DU wedi hunanadnabod fel Hoyw, Lesbiaidd neu Ddeurywiol.
- Hunanadnabu 2.6% o oedolion fel LHD, o'i gymharu â dim ond 0.4% o oedolion 65 oed a hŷn.

Ymhellach i hynny awgrymodd arolwg aelwydydd integredig ONS ar gyfer mis Mawrth 2012 mai dim ond 1.4% o'r boblogaeth a wnaeth adnabod eu hunain fel LHD yng Nghymru yn 2011-12. Fodd bynnag, dim ond 94.8% a wnaeth adnabod eu hunain fel heterorywiol, gan nodi bod llawer nad ydynt yn adnabod eu hunain fel heterorywiol wedi dangos peidio â datgelu eu rhywioldeb neu nad oeddent yn uniaethu â'r opsiynau a roddwyd.

Yn Iwerddon, mae hyn yn oed yn llai o ddata ar gael ac ni ellid dod o hyd i ffigur diweddar neu ddibynadwy ar y boblogaeth LHD yn y wlad.

83 Stonewall Cymru (2012): 'Pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol (LHD) mewn Chwaraeon: Deall Cyfranogiad Chwaraeon LHD yng Nghymru' Gweler: http://www.ons.gov.uk/ons/rel/integrated-household-survey/integrated-household-survey/january-to-december-2012/index.html http://www.stonewallcymru.org.uk/documents/lgb_people_in_sport.pdf

## 10.3 Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

### 10.3.1 Cyfle: Cefnogaeth ar gyfer busnesau LHD

Nodir gwahaniaethu ac erlyniaeth yn aml fel rhwystr i gyfranogiad economaidd ehangach pobl LHD. Nododd adroddiad gan y Gyngres Undebau Llafur (TUC) yn 2007[84] fod traean o'r holl weithwyr LHD yng Nghymru wedi adrodd am aflonyddu yn y gwaith oherwydd eu tueddfryd rhywiol. Ymhellach i hynny, mae peth tystiolaeth o bellach i ffwrdd a gyhoeddwyd gan Stonewall sy'n awgrymu bod dynion hoyw a lesbiaid yn disgwyl gwahaniaethu yn eu herbyn nhw yn y ddarpariaeth o wasanaethau ariannol ac mae amharodrwydd a phryder yn eu plith wrth ymgeisio am forgais neu yswiriant i ddatgelu eu tueddfryd rhywiol. Mae Stonewall yn dod i ben trwy nodi bod pobl hoyw yn fwy tebygol o geisio gwasanaethau ariannol gan ddarparwyr gwasanaeth hoyw hyd yn oed os yw hyn yn ddrutach. [85]

Hefyd, awgrymodd ymchwil gan Asiantaeth Ddatblygu Llundain y gall hygyrchu cyfalaf dechrau busnes gan fanciau fod yn anodd ar gyfer y gymuned LHD, yn yr un modd ag yn achos cymunedau BAME sydd wedi wynebu gwahaniaethu gan y sector ariannol ac felly sy'n gorfod dibynnu ar ffynonellau cyllid anffurfiol. [86]

Er mwyn i ymyraethau ar draws y flaenoriaeth hon gyflwyno buddion anghymesur i entrepreneuriaid LHD bydd angen strategaeth i ganolbwyntio ar rai o'r heriau uchod. Fel arall, yn seiliedig ar ddogfennaeth gyfredol y Rhaglen, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon.

***Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol***

***Amcan Penodol 3***

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:
- Datblygu gweithgareddau entrepreneuraidd a chefnogi ehangu neu ddechrau busnesau yn y sectorau treftadaeth greadigol a diwylliannol.

Gallai'r cyfryw ymyraethau helpu cefnogi pobl o gymunedau LHD i redeg eu busnesau eu hunain, os rhoddwyd strategaeth briodol ar waith i ymdrin â'r heriau a adnabuwyd.

***Ardal yr Effaith:***
- Bydd gweithgareddau o dan yr Amcan Penodol hwn yn cael eu canolbwyntio ar draws ardal gyfan y Rhaglen.

84 Hunt, C., Davidson, M., Fielden, S. a Hoel, H. ar ran y Comisiwn Cyfle Cyfartal (2007): 'Sexual harassment in the workplace: a literature review. EOC Working Paper Series no. 59'

85 Stonewall, (2007): 'A guide to your options if you have been discriminated against under the Equality Act (Sexual Orientation) Regulations 2007'

86 Gavrielides, 2007: 6

## 10.4 Effeithiau ar draws Echelau Blaenoriaeth eraill y Rhaglen Iwerddon Cymru

O fewn themâu eraill y Rhaglen Cymru ac Iwerddon, ni adnabuwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol anghymesur eraill.

## 10.5 Casgliadau

Yn gyffredinol, mae effaith y Rhaglen Iwerddon Cymru ar bobl gyda'r nodwedd warchodedig hon yn annhebygol o fod yn anghymesur o wahanol i'r effaith ar y boblogaeth yn gyffredinol.

## 10.6 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan y grŵp hwn:

- Dylai'r holl ymyraethau o dan y Rhaglen Cymru ac Iwerddon gael eu dylunio i fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl o gymunedau LHD, efallai nad ydynt yn teimlo bod cefnogaeth brif-ffrwd yn diwallu eu hanghenion. Bydd yn rhaid i ymyraethau a anelir at helpu entrepreneuriaid fod yn sensitif i anghenion a phryderon perchnogion busnes LHD.

- Gallai fod angen ymgysylltu a deialog ychwanegol er mwyn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu deall yn iawn. Gellir datblygu hyn wrth i gynllun y Rhaglen gael ei gwblhau.

- Yn benodol, bydd yn bwysig deall manylder y rhwystrau sy'n wynebu perchnogion busnesau LHD er mwyn ffocysu cefnogaeth ble y mae ei hangen a mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu a chanfyddiadau ohono ble bynnag y maent yn codi.

# 11. Iaith: Siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg

## 11.1 Cyflwyniad

Mae'r Gymraeg wedi cael ei phennu'n rhan annatod o dreftadaeth y Cymry ac mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y dylid ei gwarchod. Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Sefydlodd cyhoeddiad Mesur y Gymraeg yn 2011 swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, [87] y mae ei swydd yw hyrwyddo cydraddoldeb Cymraeg a Saesneg wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. . Gan hynny bydd symud ymrwymiad i ddwyieithrwydd ymlaen yn mynnu bod y cyfryw safonau'n cael eu dilyn. [88]

Yn yr un modd mae'r Wyddeleg yn derbyn cydnabyddiaeth lawn o fewn Cyfansoddiad Iwerddon fel iaith genedlaethol a swyddogol gyntaf Gweriniaeth Iwerddon. Yn ffurfiol, mae Saesneg yn bodoli ochr yn ochr â hi fel ail iaith swyddogol, ond fe'i defnyddir yn hytrach na'r Wyddeleg yn y mwyafrif o sefyllfaoedd swyddogol a ffurfiol. Polisi bras Llywodraeth Iwerddon mewn perthynas â'r iaith yw cynyddu defnydd a gwybodaeth o'r Wyddeleg fel iaith gymunedol. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn canolbwyntio'n bennaf ar bolisi iaith Wyddeleg yn y Gaeltacht (rhanbarthau sy'n siarad Gwyddeleg), yn enwedig gan i ymchwil ddangos bod yr iaith o dan fygythiad yn yr ardaloedd hyn.

## 11.2 Proffil cymdeithasol a demograffig

### 11.2.1 Y Gymraeg


Nododd Cyfrifiad 2011 fod mwy na hanner miliwn o bobl yn honni y gallant siarad Cymraeg; mae hyn yn cynrychioli bron un o bob pump o boblogaeth Cymru. [89] Mae'r mapiau isod yn dangos dwysedd a chyfran y siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru.

87Gellir dod o hyd i fanylion pellach Comisiynydd y Gymraeg yma: http://www.comisiynyddygymraeg.org/english/Pages/Home.aspx

88 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010): 'Mesur Arfaethedig y Gymraeg 2010 : Memorandwm Esboniadol'. Gweler: http://www.assemblywales.org/ms-ld7944-em-e.pdf


89 Llywodraeth Cymru, (2012); 'Cyfrifiad 2011: Canlyniadau Cyntaf ar y Gymraeg'

Ffigur 11.1: Dwysedd siaradwyr Cymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Ffigur 11.2: Cyfran y siaradwyr Cymraeg




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Mae'r mapiau'n dangos y canlynol:

- Mae dwysedd poblogaeth y siaradwyr Cymraeg yn isel yn gyffredinol, gan adlewyrchu dwyseddau poblogaeth sy'n isel yn gyffredinol ar draws y wlad. Mae llai na 100 o bobl sy'n siarad Cymraeg fesul cilometr sgwâr ar draws y rhan fwyaf o Gymru.
- Mae’r poblogaethau mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd trefol y de a’r gogledd – gyda dwysedd uwch yn y gogledd nag ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill.
- Yn benodol, mae yna ddwyseddau poblogaeth wedi eu gwasgaru ar draws gogledd Cymru - ym Mangor, Wrecsam, Bethesda a Chaergybi, ac yn y de – yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Llanelli.
- Ceir hefyd bocedi o ddwyseddau poblogaeth uchel (o siaradwyr Cymraeg) o fewn ardal y Rhaglen. Mae’r rhain yn dueoddol o fod wedi eu lleoli yn y cadarnleoedd Cymreig traddodiadol.

Mae'r cyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yng ngogledd a gorllewin y wlad - mewn llawer o'r ardal hon mae mwy na chwarter o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Yn draddodiadol mae gan yr ardaloedd hyn gyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg ac maent yn wledig eu natur yn bennaf.

### 11.2.2 Yr Wyddeleg

Profodd yr Wyddeleg ddirywiad hanesyddol hyd at ddiwedd yr ugeinfed ganrif ond mae wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd ohoni dros yr ugain mlynedd diwethaf. Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o siaradwyr Gwyddeleg (dros dair blwydd oed)) yn rhan Iwerddon ardal y Rhaglen, o'i gymharu ag Iwerddon gyfan.

Tabl 11.1:Siaradwyr Gwyddeleg yn Ardal y Rhaglen (Iwerddon yn unig)

| | Cyfanswm | Siaradwyr Gwyddeleg | | Heb Siarad Gwyddeleg | | heb ei Ddatgan | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Carlow | 51,991 | 19,972 | 38% | 30,877 | 59% | 1,142 | 2% |
| Dinas Dulyn | 508,177 | 162,879 | 32% | 326,811 | 64% | 18,487 | 4% |
| De Dulyn | 250,997 | 89,850 | 36% | 155,644 | 62% | 5,503 | 2% |
| Fingal | 257,491 | 96,537 | 37% | 155,263 | 60% | 5,691 | 2% |
| Dún Laoghaire-Rathdown | 198,168 | 83,000 | 42% | 111,783 | 56% | 3,385 | 2% |
| Kildare | 198,860 | 83,526 | 42% | 112,261 | 56% | 3,073 | 2% |
| Kilkenny | 90,805 | 38,619 | 43% | 50,694 | 56% | 1,492 | 2% |
| Meath | 173,544 | 68,259 | 39% | 102,334 | 59% | 2,951 | 2% |
| Wicklow | 129,643 | 48,502 | 37% | 79,141 | 61% | 2,000 | 2% |
| Dinas Cork | 115,425 | 46,566 | 40% | 65,774 | 57% | 3,085 | 3% |
| Cork | 379,061 | 177,536 | 47% | 195,232 | 52% | 6,293 | 2% |
| Gogledd Tipperary | 67,075 | 31,598 | 47% | 34,406 | 51% | 1,071 | 2% |
| De Tipperary | 84,444 | 35,740 | 42% | 47,337 | 56% | 1,367 | 2% |
| Dinas Waterford | 44,651 | 16,847 | 38% | 26,776 | 60% | 1,028 | 2% |
| Waterford | 63,878 | 29,899 | 47% | 33,134 | 52% | 845 | 1% |
| | | | | | | | |
| **Ardal y Rhaglen** | 3,571,747 | 1,428,398 | 40% | 2,067,948 | 58% | 75,401 | 2% |
| **Iwerddon** | 4,370,631 | 1,774,437 | 41% | 2,507,312 | 57% | 88,882 | 2% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011; Swyddfa Ystadegau Canolog, Iwerddon

Mae'r tabl yn dangos cyfran is o siaradwyr Gwyddeleg yn Ardal y Rhaglen o'i gymharu â gweddill Iwerddon. Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad daearyddol y siaradwyr Gwyddeleg, sy'n gweld mwyafrif yn byw yng Ngorllewin y wlad (ac felly y tu allan i ardal y Rhaglen). Serch hynny, mae rhwng un o bob tri ac un o bob dau yn siroedd ardal y Rhaglen yn adnabod eu hunain fel siaradwyr Gwyddeleg ac mae yna ddwy ardal Gaeltacht yn ardal y Rhaglen:

- An Rinn yn Sir Waterford
- Rath Cairn yn Sir Meath

Lleolir ardaloedd Gaeltacht eraill yn berthnasol i ardal y Rhaglen yn Siroedd Cork a Kerry.[90]

Yn ogystal â hynny, mae nifer y bobl sy'n siarad Gwyddeleg *yn rheolaidd* (gan gynnwys y rhai sy'n siarad Gwyddeleg bob dydd o fewn y system addysg, o fewn a'r tu allan i'r system addysg a'r tu allan i'r system addysg yn unig, yn ogystal â'r rhai sy'n ei defnyddio bob wythnos y tu allan i'r system addysg (fel y cofnodwyd yn y Cyfrifiad), wedi'u manylu yn y tabl isod. Eto, mae gan ran Iwerddon ardal y Rhaglen gyfran ychydig yn is o siaradwyr Gwyddeleg na'r wlad yn gyffredinol.

Tabl 11.2:Siaradwyr Gwyddeleg yn Ardal y Rhaglen (Iwerddon yn unig)

| | Bob Dydd (%) | | Bob Wythnos (%) | | Siaradwyr Rheolaidd | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | O fewn addysg | O fewn a'r tu allan i addysg | Y tu allan i addysg | Y tu allan i addysg | Cyfanswm | % |
| Carlow | 12% | 1% | 1% | 2% | 7,961 | 15% |
| Dinas Dulyn | 8% | 1% | 1% | 2% | 56,415 | 11% |
| De Dulyn | 12% | 1% | 1% | 2% | 38,345 | 15% |
| Fingal | 12% | 1% | 1% | 2% | 40,245 | 16% |
| Dún Laoghaire-Rathdown | 10% | 1% | 1% | 3% | 29,302 | 15% |
| Kildare | 13% | 1% | 1% | 2% | 35,040 | 18% |
| Kilkenny | 13% | 1% | 1% | 2% | 15,495 | 17% |
| Meath | 13% | 1% | 1% | 2% | 30,070 | 17% |
| Wicklow | 12% | 1% | 1% | 2% | 20,503 | 16% |
| Dinas Cork | 9% | 1% | 1% | 3% | 15,380 | 13% |
| Cork | 14% | 1% | 1% | 3% | 70,388 | 19% |
| Tipperary North | 14% | 1% | 1% | 3% | 12,212 | 18% |
| Tipperary South | 13% | 1% | 1% | 2% | 13,736 | 16% |
| Dinas Waterford | 11% | 1% | 1% | 2% | 6,218 | 14% |
| Waterford | 14% | 1% | 1% | 3% | 12,440 | 19% |
| | | | | | | |
| **Ardal y Rhaglen** | 12% | 1% | 1% | 2% | 562,773 | 16% |

90 Gweler: http://www.udaras.ie/en/an-ghaeilge-an-ghaeltacht/an-ghaeltacht

Ffynhonnell: Cyfrifiad Gweriniaeth Iwerddon 2011; Swyddfa Ystadegau Canolog, Iwerddon

## 11.3 Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

### 11.3.1 Effaith: Cefnogi siaradwyr Cymraeg trwy weithgareddau datblygu economaidd

Mae gwaith blaenorol a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru'n awgrymu bod yr holl agweddau ar ddatblygu economaidd yn cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar y Gymraeg. Fodd bynnag, gall cynllunio a gweithredu ar ddatblygiad yr iaith ar yr un pryd â datblygu economaidd gyflwyno buddion economaidd sylweddol. [91]

Cyflwynodd y Grŵp Tasg a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd, a sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2012 adroddiad ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd i'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth[92]. Mae'r adroddiad hwn wedi gwneud nifer o argymhellion ar sut gall y Gymraeg a dwyieithrwydd gefnogi twf mewn busnes a datblygu economaidd a sut y gall datblygu economaidd gefnogi defnydd cynyddol o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu strategaeth i helpu annog a chefnogi defnydd o'r Gymraeg fel arf marchnata ac i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd mewn busnes.
- Dylai fod mwy o adnoddau ar gyfer hyrwyddo arloesedd, entrepreneuriaeth a gyrfaoedd posib mewn busnes ar gyfer myfyrwyr a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.
- Dylid annog ffurfio clystyrau a rhwydweithiau o fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Dylid defnyddio'r strategaeth i ffurfio sail ar gyfer ymyraethau'r Rhaglen Iwerddon Cymru ac i gyfeirio eu dyluniad er mwyn iddynt ysgogi economi Cymru yn ogystal â chefnogi siaradwyr Cymraeg.

**Blaenoriaethau 1 a 3 yn benodol,** ond mae'r effaith hon yn bresennol ar draws y Rhaglen Weithredol.

Mae'r Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020 yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ymchwilio a hyrwyddo ymyraethau sy’n creu cyswllt rhwng y Gymraeg a hyfywedd economi Cymru.

Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- Defnyddio cryfderau sydd eisoes yn bodoli mewn treftadaeth greadigol a diwylliannol i gyflwyno buddion mewn perthynas â thwf economaidd, gan gynnwys cefnogi ehangu neu gychwyn busnesau newydd yn yr ardaloedd hyn.
- Datblygu bothau neu glystyrau ar gyfer busnesau a sectorau arloesol.

91Datblygu Economaidd a'r Gymraeg. Rhaglen Weithredu. Llywodraeth Cynulliad Cymru [Dim dyddiad].

92 Grŵp Tasg a Gorffen i'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (2014) Adroddiad ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd, gweler: http://wales.gov.uk/docs/det/publications/140130wleden.pdf

Ardal yr effaith:

- Mae'r effaith hon yn debygol o fod yn berthnasol i Gymru'n unig.

## 11.4 Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd

Ni adnabuwyd unrhyw effaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg neu Wyddeleg o ganlyniad i'r Echel Blaenoriaeth hon.

## 11.5 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

### 11.5.1 Cyfle: Diogelu'r Gymraeg trwy gadwraeth, datblygu ac adfywio cymunedol

Nododd adolygiad o rôl y system tai mewn rhannau gwledig o Gymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru bod y raddfa fewnfudo (yn enwedig yn ystod y 1980au a 1990au) o Loegr wedi arwain at bryderon am ddiwylliant a'r Gymraeg. [93]

Mae'r Rhaglen Iwerddon Cymru yn cynnwys nifer o fesurau sy'n canolbwyntio ar adfywio cymunedol trwy ddatblygu cynaliadwy a chreu swyddi'n seiliedig ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol - gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau gwledig. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a datblygu mentrau treftadaeth ddiwylliannol. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at fuddion *anuniongyrchol* ar gyfer y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu a/neu ddefnyddio'r iaith mewn lleoliadau anffurfiol y tu allan i'r dosbarth. Cydnabyddir hyn fel blaenoriaeth allweddol o fewn Iaith Fyw:

> ‘Mae angen i ni felly ddarparu cyfleoedd cymdeithasol amrywiol iawn i’r grŵp hwn ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r ysgol, er mwyn datblygu cyswllt rhwng nid yn unig yr iaith ac addysg, ond hefyd rhwng yr iaith a gweithgarwch hamdden a diwylliannol ac, yn anad dim, â phleser a difyrrwch. Dylai creu rhagor o gyfleoedd o’r fath olygu bod yr unigolyn yn gwneud mwy o ddefnydd o’r iaith, a dylai ennyn brwdfrydedd ac agwedd bositif tuag at yr iaith'. [94]

**Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol**

**Amcan Penodol 3**

Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- Adfywio cymunedol trwy ddatblygu cynaliadwy a chreu swyddi'n seiliedig ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol.
- Cynnwys cymunedau yng nghadwraeth eu treftadaeth naturiol a diwylliannol.

93 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2009): ‘Equality Issues in Wales: A Research Review ‘, t.178.

94 Llywodraeth Cymru (2011): ‘Iaith fyw: Iaith Byw. Strategaeth y Gymraeg 2012-17’, t.29

- Defnyddio cryfderau traddodiadol a diwylliannol i wella ardal a'i gwneud yn lle mwy dymunol i fyw, adleoli iddo, gweithio ac ymweld ag ef.

Ardal yr effaith

- Am ei bod yn canolbwyntio ar gyfrwng y Gymraeg, mae'r effaith hon yn debygol o gael ei theimlo yn rhan Cymru o ardal y Rhaglen yn unig.

### 11.5.2 Cyfle: Cefnogi siaradwyr Gwyddeleg trwy weithgareddau datblygu economaidd yn seiliedig ar dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol

Mae cyswllt hanesyddol rhwng Cymru ac Iwerddon oherwydd mudo ar draws Môr Iwerddon. Maen nhw'n ffurfio rhan o ddiwylliant Celtaidd a rennir, sy'n cynnwys y defnydd o ieithoedd Celtaidd. Mae Atlas Unesco o Ieithoedd y Byd mewn Perygl wedi dosbarthu'r Wyddeleg fel 'mewn perygl pendant'. [95] Dyma'r iaith lenyddol hynaf a siaredir yn Ewrop a phrif iaith gymunedol ac aelwyd 3% o boblogaeth y wlad. [96] Gan fod yr Wyddeleg yn unigryw i Iwerddon, mae'n holl bwysig ar gyfer hunaniaeth pobl Iwerddon a Threftadaeth y Byd. Gall y Rhaglen helpu cefnogi cadwraeth yr ased diwylliannol hwn, trwy ymgysylltu â chymunedau yng nghadwraeth eu treftadaeth naturiol a diwylliannol.

Echel Blaenoriaeth 3: **Adnoddau Diwylliannol a Naturiol** Amcan Penodol 3

Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- Datblygu gweithgareddau entrepreneuraidd, MBaCh a microfentrau sy'n weithredol yn y sectorau treftadaeth naturiol a threftadaeth ddiwylliannol.
- Defnyddio cryfderau cyfredol o ran treftadaeth greadigol a diwylliannol i gyflwyno buddion ar ffurf twf economaidd.
- Hyrwyddo a datblygu mentrau treftadaeth ddiwylliannol gyda phwyslais ar gefnogi datblygiad economaidd.

Ardal yr effaith

- Gan ei fod yn canolbwyntio ar y cyfrwng Gwyddeleg, mae'r cyfle hwn yn debygol o gael ei wireddu yn rhan Iwerddon o ardal y Rhaglen yn unig.

95 Moseley C. (gol.). 2010. Atlas Ieithoedd y Byd Mewn Perygl, 3ydd argraffiad. Paris, Cyhoeddi UNESCO. Fersiwn ar-lein: http://www.unesco.org/culture/en/endangeredlanguages/atlas

96 Llywodraeth Iwerddon (2010) Strategaeth 20 mlynedd yr Wyddeleg 2010-2030, ar gael yn: http://www.ahg.gov.ie/en/20-YearStrategyfortheIrishLanguage2010-2030/Publications/20-Year%20Strategy%20-%20English%20version.pdf

## 11.6 Casgliadau

Mae peth potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol ar draws y Rhaglen Iwerddon Cymru ar Siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o dystiolaeth i awgrymu effeithiau anghymesur uniongyrchol ar y grŵp hwn.

Nid oes unrhyw fesurau ***penodol*** o fewn y Rhaglen Iwerddon Cymru sy'n anelu'n weithredol at dargedu siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg, ac felly mae'n bosib na fydd y potensial am fwyafu effeithiau cadarnhaol ar gyfer y cymunedau ieithyddol hyn yn cael ei wireddu.

## 11.7 Argymhellion ar gyfer rhoi ar waith

Argymhellir y mesurau a ganlyn i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol y Blaenoriaethau'n cael eu gwireddu gan Siaradwyr Cymraeg a Gwyddeleg:

- Dylai'r Rhaglen ymchwilio i sut gall ymyraethau gael eu teilwra i nodwedd ac amgylchiadau penodol siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a siaradwyr Gwyddeleg yn Iwerddon. Dylai hon fod yn flaenoriaeth allweddol o ran canolbwyntio adnoddau'r Rhaglen Iwerddon Cymru (mewn ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol) i gynorthwyo gyda mesurau sy'n anelu at gefnogi'r twf parhaus mewn Gwyddeleg a gwrthdroi'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig a amlygwyd gan ddata Cyfrifiad 2011.

- Yng Nghymru, darparu gwasanaethau yn Gymraeg, neu ddarparu dewis i ryngweithio â mudiadau cyflwyno yn Gymraeg fydd y dull allweddol o Flaenoriaethau o fewn y Rhaglen Iwerddon Cymru gefnogi'r rhai sydd am gynnal busnes yn y Gymraeg. Mae gan y Themâu o adeiladu gallu i wella perfformiad arloesedd ar gyfer MBaCh ac adfywio cymunedol yn benodol y cwmpas i roi cefnogaeth bellach i'r rhai sydd am gynnal busnes yn Gymraeg. Er hynny, bydd yr effaith gyffredinol wedi'i phennu'n bennaf gan y ffordd y mae pob Blaenoriaeth yn cael ei rhoi ar waith.

- Yn Iwerddon, dylid darparu cefnogaeth ar gyfer siaradwyr Gwyddeleg, o fewn a'r tu hwnt i'r rhanbarthau Gaeltacht (gan gynnwys Ring), trwy hyrwyddo'r iaith yn gadarnhaol a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd cyhoeddus.

- Dylid cymryd camau rhagweithiol i adnabod ac adeiladu ar arfer da o dan y Rhaglen Iwerddon Cymru 2007-2013 mewn perthynas ag ymyraethau sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r cyfleoedd a'r cydberthnasoedd sy'n bodoli rhwng datblygu economaidd a'r ieithoedd Cymraeg a Gwyddeleg. Yng Nghymru hefyd, dylai cyfeirio at yr argymhellion a wneir gan grŵp tasg a gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd, a rhoi'r rhain ar waith pan fo'n berthnasol.

- Bydd yn bwysig sicrhau bod y gallu i gynnig cefnogaeth yn ddwyieithog, yn benodol yng Nghymru lle mae hyn yn ofyniad deddfwriaethol, yn cael ei ddarparu yn yr ardaloedd lle mae'n debygol y bydd ei angen fwyaf.

- Bydd angen datblygu'r holl brosiectau a gwybodaeth am brosiectau pan fo'n briodol i sicrhau bod y buddion yn agored i siaradwyr Saesneg, Cymraeg a Gwyddeleg fel ei gilydd.

# 12. Chasgliadau ac Argymhellion

## 12.1 Trosolwg

Mae'r bennod derfynol hon yn dod â chanfyddiadau'r ymchwil a gyflawnwyd fel rhan o'r AEC hwn ynghyd. Mae'n darparu:

- **crynodeb** o'r effeithiau fesul nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys y Gymraeg a'r Wyddeleg) a fesul Echelau Blaenoriaeth;
- set o **gasgliadau** ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig mewn perthynas â'r Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020 yn gyffredinol; a
- chyfres o **argymhellion** a ddylunnir i gefnogi datblygiad a gweithrediad pellach y Rhaglen a sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei mwyafu.

## 12.2 Crynodeb o effeithiau

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o effeithiau ar bobl gyda phob un o'r nodweddion gwarchodedig yr ymdrinnir â nhw gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal ag ar Echelau Blaenoriaeth y Rhaglen Iwerddon Cymru arfaethedig - ei nod yw crynhoi ble bydd effeithiau'n cael eu teimlo a chan bwy.

Mae'r tabl isod yn crynhoi effeithiau a chyfleoedd pob Echel Blaenoriaeth ar bob nodwedd warchodedig  a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn. Mae'r effeithiau wedi'u lliwio mewn coch a'r cyfleoedd mewn gwyrdd.

Tabl 12.1: Effeithiau'r Rhaglen Iwerddon Cymru fesul Nodwedd Warchodedig ac Echel Blaenoriaeth

| Nodwedd Warchodedig | Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd | Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd | Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol |
|---|---|---|---|
| Oedran | | Effaith: lleihau effaith newid yn yr hinsawdd ar bobl hŷn | Effaith: gwella cyfleoedd marchnad lafur ar gyfer pobl iau |
| | | Effaith: lleihau effaith newid yn yr hinsawdd ar blant | Effaith: gwella cyfleoedd marchnad lafur ar gyfer pobl hŷn |
| | | Cyfle: Cefnogi cyflogaeth yn y sector ynni ar gyfer pobl ifanc | |
| Anableddau | | Effaith: lleihau effaith newid yn yr hinsawdd ar bobl anabl | Effaith: Cefnogaeth ar gyfer entrepreneuriaid anabl |
| Ailaseinio rhyw | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | | | |
| Hil ac ethnigrwydd | Cyfle: Cyfalafu ar botensial heb ei wireddu mewn cymunedau BAME | | Effaith: Cefnogi MBaCh sy'n eiddo i aelodau cymunedau BAME |
| Crefydd a chred | | | Effaith: Cefnogi MBaCh sy'n eiddo i bobl o rhai cymunedau crefyddol lleiafrifol |
| Rhyw | Effaith: Hyrwyddo pynciau STEM ymysg menywod a merched | | Effaith: Cefnogi menywod i ymwneud â busnes |
| Tueddfryd rhywiol | | | Cyfle: Cefnogaeth ar gyfer busnesau LHD |
| Yr Wyddeleg a'r Gymraeg | Effaith: Cefnogi siaradwyr Cymraeg trwy weithgareddau datblygu | | Cyfle: Cefnogi siaradwyr Gwyddeleg trwy ddatblygu economaidd a gweithgareddau diwylliannol |

| Nodwedd Warchodedig | Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd | Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd | Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol |
|---|---|---|---|
| | economaidd | | |
| | | | Cyfle: Diogelu'r Gymraeg trwy gadwraeth, datblygu ac adfywio cymunedol |

### 12.2.1 Effeithiau fesul nodwedd warchodedig

Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, o ganlyniad i'r Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020. . Anelir y Rhaglen at wella cystadleurwydd economaidd (maes lle mae llawer o grwpiau cydraddoldeb yn profi anhawster) trwy wella arloesedd, mesurau mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a mwyafu buddion adnoddau diwylliannol a naturiol. Gan hynny, er nad yw'n wir o bell ffordd y bydd pob mesur arfaethedig o fewn Echelau Blaenoriaeth ac Amcanion Penodol y Rhaglen yn cael effeithiau cydraddoldeb ***cadarnhaol***; mae'r effeithiau'n debygol o fod yn fuddiol yn gyffredinol.

Mae'r AEC wedi adnabod y bydd rhai nodweddion gwarchodedig yn arbennig o debygol o fod yn fuddiolwyr y Rhaglen. O fewn y Rhaglen, mae peth cyfle i gefnogaeth fenter gael ei defnyddio i wella nifer y menywod, pobl anabl a rhai pobl BAME a LHD sy'n rhedeg MBaCh.

Er hynny, heb ffocws priodol a thargedu adnoddau at grwpiau penodol (megis pobl anabl, pobl o grwpiau BAME, grwpiau crefyddol, pobl LHD a phobl drawsryw) mae yr un mor debygol y bydd nifer o gyfleoedd wedi'u colli o gwmpas cydraddoldeb. Mae hyn yn wir yn benodol ar gyfer y nodweddion hynny pan geir ychydig iawn o dystiolaeth i gyfeirio gweithgareddau a ariennir gan y Rhaglen Iwerddon Cymru, megis ail-aseinio rhyw a thueddfryd rhywiol. Mae'r sefyllfa'n debyg i'r Rhaglenni Cronfa Strwythurol eraill ac wedi'i thrafod yn yr argymhellion isod.

### 12.2.2 Effeithiau fesul Echel Blaenoriaeth

Amlinellir effeithiau allweddol y Rhaglen Iwerddon Cymru isod:

#### 12.2.2.1 Echel Blaenoriaeth 1: Arloesedd

Mae'r effeithiau o dan Echel Blaenoriaeth 1 yn gyfyngedig. Mae prif effaith yr Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar y cyfle y mae'n ei ddarparu ar gyfer effeithiau cadarnhaol eraill o ganlyniad i fwyafu'r defnydd o adnoddau nas defnyddiwyd yn flaenorol o fewn cymuned neu grwpiau penodol (megis grwpiau menywod neu BAME) a allai brofi rhwystrau i ymwneud â gweithgaredd o'r math hwn.

#### 12.2.2.2 Echel Blaenoriaeth 2: Newid yn yr Hinsawdd

Echel Blaenoriaeth 2: Mae Newid yn yr Hinsawdd yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol hir dymor ar iechyd a lles y grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan newid yn yr hinsawdd a'r digwyddiadau tywydd sy'n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys eithafion gwres ac oerfel cynyddol, newidiadau mewn ansawdd aer a pherygl llifogydd ac ymchwydd y llanw. Yn uniongyrchol ar ben hynny, mae gan ehangu twf yn y sector hwn yn creu'r cyfle i godi nifer y swyddi sydd ar gael yng Nghymru ac Iwerddon, a allai helpu i leddfu materion megis diweithdra ymysg pobl ifanc.

#### 12.2.2.3 Echel Blaenoriaeth 3: Adnoddau Diwylliannol a Naturiol

Mae Echel Blaenoriaeth 3 yn cynnwys mesurau a alli gefnogi cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer ystod o grwpiau, trwy ehangu hygyrchedd marchnadoedd llafur penodol ar gyfer pobl hŷn a phobl iau, yn ogystal â chefnogi menter ar gyfer ystod o grwpiau. Mae llawer o bobl â nodweddion gwarchodedig yn wynebu rhwystrau i gychwyn busnes, ehangu busnes neu ymwneud â gweithgareddau menter eraill. Gan hynny mae gan y Flaenoriaeth y cyfle i gael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth o grwpiau gan gynnwys menywod, pobl o gymunedau BAME a phobl LHD.

## 12.3 Casgliadau

Mae'r casgliadau a amlinellir isod yn ystyried agweddau penodol ar y Rhaglen Iwerddon Cymru gan gynnwys: cyfrannu at nodau strategol; integreiddio ystyriaethau cydraddoldeb a phwysigrwydd rhoi ar waith.

### 12.3.1 Asesiad cyffredinol o effaith

Mae'r Rhaglen Weithredol yn amlinellu cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil ac arloesedd, addasu i newid yn yr hinsawdd a buddsoddi mewn adnoddau cymdeithasol ac economaidd. Casgliad y tîm AEC yw y bydd y Rhaglen Iwerddon Cymru ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn arwain at effeithiau sy'n gadarnhaol yn gyffredinol ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd rhai o'r effeithiau hyn yn berthnasol i'r holl bobl gymwys yn ardaloedd y Rhaglen (gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig), a bydd eraill yn cael effaith anghymesur ar grwpiau gwarchodedig penodol.

Yn ogystal â hyn mae gan nifer o feysydd gweithgarwch o fewn y Rhaglen ffocws cymdeithasol echblyg. Er enghraifft:

- Mae gan MoW 3 Echel Blaenoriaeth 1 y teitl 'cyflwyno buddion i gymdeithas trwy arloesedd' ac yn cynnwys mesurai megis 'dylunio a dangos nwyddau ar gyfer poblogaethau sydd wedi'u heithrio neu mewn perygl o gael eu heithrio'. Mae hyn yn debygol o greu buddion anghymesur ar gyfer y mwyafrif o nodweddion gwarchodedig, y mae llawer ohonynt yn wynebu rhyw risg o eithrio.
- Mae gan MoW Echel Blaenoriaeth2 y teitl 'datblygu datrysiadau y gellir eu haddasu a'u rhoi ar waith' ac yn cynnwys mesurau i ddatblygu galluoedd i adnabod risgiau newid yn yr hinsawdd, effeithiau ar ddatblygu economaidd a chynhwysiad cymdeithasol - dau faes lle mae pobl sydd ag ystod o nodweddion gwarchodedig yn profi anfantais.
- Mae MoW 7 Echel Blaenoriaeth3 yn canolbwyntio ar 'adfywio cymunedol trwy ddatblygu cynaliadwy  a chreu swyddi' i gefnogi datblygiad economaidd lleol. Eto, mae ystod o grwpiau sy'n profi anfantais ac eithrio yn yr ardaloedd hyn yn debygol o elwa o fentrau a dargedir yn briodol yn y maes hwn.

Ochr yn ochr â hyn, yn ein barn ni mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anghymesur ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

Er hynny, rydym hefyd o'r farn nad yw buddion y Rhaglen i rai grwpiau penodol bob amser yn amlwg. Yn benodol, ni fydd rhai effeithiau posib yn cael eu teimlo oni bai bod

mesurau'n cael eu cymryd fel rhan o roi'r Rhaglen a'r prosiect ar waith i sicrhau ffocws priodol a hygyrchedd digonol.

### 12.3.2 Cyfraniad at bolisi a nodau strategol

Mae gan y Rhaglen Iwerddon Cymru y gallu i gyfrannu at gyflawni uchelgeisiau Ewropeaidd, y DU a Chymru, ac Iwerddon mewn perthynas â chydraddoldeb - gan gynnwys nodau bras DCSC y DU i fynd i'r afael gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal ac (i raddau llai) meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau cymdeithasol a demograffig.

Mae nifer o fesurau sy'n canolbwyntio ar gefnogi busnes a'r sector o fewn y Rhaglen a all gael effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ar y farchnad lafur a chymryd rhan mewn menter ar gyfer grwpiau penodol. Yn ogystal â hyn, mae gan fesurau addasu i newid yn yr hinsawdd o fewn Echel Blaenoriaeth 2 y potensial i gael effeithiau llai uniongyrchol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Os cânt eu rhoi ar waith yn briodol fe *allent* ymdrin ag ystod o faterion iechyd sy'n wynebu'r grwpiau hyn ac felly arwain at effeithiau cadarnhaol hir dymor. Wrth gael eu cyfuno, gallai'r effeithiau helpu i ymdrin ag anghydraddoldebau wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, a chefnogi pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan yn economaidd.

Trwy wneud hyn mae gan y Rhaglen y potensial hefyd i gyfrannu at gyflawni cyrchnodau Ewrop 2020 trwy gefnogi'r ymgyrch Ewropeaidd yn erbyn tlodi, sydd wedi'i dylunio i sicrhau cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol, gwarantu parch tuag at hawliau sylfaenol pobl sy'n profi tlodi ac eithrio cymdeithasol, a'u galluogi i fyw mewn urddas a chymryd rhan yn weithredol mewn cymdeithas. Gall cyflawni hyn trwy gefnogi pedwar o'r Amcanion Thematig a bennwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol dros y cyfnod 2014 - 2020, sef:

- cryfhau ymchwil, datblygiadau technegol ac arloesedd
- (3) gwella cystadleurwydd mentrau bach a chanolig
- (4) cefnogi'r symudiad tuag at economi carbon isel ym mhob sector
- (9) hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a mynd i'r afael â thlodi[97]

### 12.3.3 Integreiddio'r Themâu Llorweddol

Un dull allweddol o gyflwyno cydraddoldeb trwy'r Rhaglenni 2014-2020 yw trwy'r Themâu Llorweddol (neu Drawsbynciol). Mae'r Themâu'n fandadol ac wedi'u penni gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Ar adeg ysgrifennu nid yw'r Themâu Llorweddol wedi cael eu hintegreiddio i ddogfen y Rhaglen Iwerddon Cymru eto. Gan hynny, dylid nodi yr erys cyfle sylweddol pellach i'w hintegreiddio'n llawnach i hanfodion yr Echelau blaenoriaeth. Felly, gallai effeithiau pellach o ganlyniad i'r Rhaglen fod yn bosib ymhellach i'r dyfodol.

97 Gweler: http://www.estlat.eu/2014/thematic-objectives/

### 12.3.4 Trefniadau rhoi ar waith

Mae'r tîm AEC o'r farn bod gan y Rhaglen y potensial i wireddu buddion ar gyfer rhai grwpiau cydraddoldeb. Fodd bynnag, yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r effeithiau cadarnhaol hefyd yn dibynnu i raddau helaeth ar y ffordd y maent yn cael eu cyflwyno.

Yn y gorffennol mae WEFO wedi cydnabod mai yn y cam rhoi ar waith yr oedd cyflwyno ar ddyheadau cydraddoldeb ar eu gwannaf. Gan hynny bydd rhoi ar waith yn un o'r meysydd pwysicaf i'w hystyried o ran cydraddoldeb.

Adlewyrchir hyn yn y penodau unigol, y mae eu casgliadau'n annog ystyriaeth ofalus o ofynion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol wrth gyflwyno'r camau gweithredu o dan bob Echel Blaenoriaeth. Mae angen tynnu sylw hefyd at feysydd lle mae nodweddion gwarchodedig yn gorgyffwrdd (er enghraifft pobl LHD hŷn, pobl ifanc anabl, neu fenywod BAME), a allai arwain at rwystrau lluosog i ymgysylltu economaidd, a chyda'r Rhaglen Iwerddon Cymru ei hun.

## 12.4 Argymhellion

Ar sail canfyddiadau’r AEC a'r dadansoddiad a gyflawnwyd wrth roi'r adroddiad hwn at ei gilydd, rydym yn cynnig yr argymhellion a ganlyn ar gyfer gweithrediad pellach y Rhaglen Iwerddon Cymru ar gyfer y cyfnod rhaglenni 2014-2020.

1. **Cydnabod yr angen am amrediad o ymagweddau ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig wrth ddatblygu'r Rhaglenni ymhellach.**

   Mae ystod o heriau gwahanol sy'n wynebu'r grwpiau cymdeithasol gwahanol yr ymdrinnir â nhw gan yr AEC hwn. Pan fo'n bosib, felly, dylai fod modd teilwra ymyraethau i'r nodweddion gwarchodedig penodol a'r amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd penodol dan sylw.

   Bydd llawer o'r ymyraethau arfaethedig o fewn y Rhaglenni'n cyflwyno effeithiau cadarnhaol anghymesur ar gyfer grwpiau cydraddoldeb dim ond os bydd mesurau wedi'u teilwra i weddu i anghenion nodweddion gwarchodedig gwahanol. Er enghraifft, bydd teilwra mynediad i wasanaethau cefnogi menter i ddiwallu anghenion amrywiol pobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau BAME a phobl anabl yn rhan annatod o sicrhau y bydd, er enghraifft, Echel Blaenoriaeth 3 wedi'i hategu gan amrywiaeth. Bydd methu ag ymdrin â'r rhwystrau grŵp-benodol hyn yn arwain at risg y bydd heriau y mae eu gwreiddiau'n ddwfn ac eithrio economaidd cymharol yn parhau.

   Hefyd, dylid ystyried yr achosion hynny pan fydd nodweddion gwarchodedig yn gorgyffwrdd, a dylid cydnabod y gallai fod angen ystod o ymagweddau er mwyn ymateb i anghenion amrywiol sydd yn aml yn lluosog.

2. **Datblygu a chynnal strategaeth monitro a gwerthuso gadarn gydag amcanion cydraddoldeb penodol a dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd yn eu herbyn.**

Er mwyn sicrhau bod anghenion amrywiol pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried, argymhellir gweithdrefn monitro a gwerthuso'n gryf a ddylai gynnwys canllawiau a dangosyddion perfformiad clir a dynnir o ddatblygu model rhesymeg a fframwaith gwerthuso yn y lle cyntaf.

Yn gyntaf bydd yn hanfodol i'r awdurdod rheoli bennu set glir o amcanion ochr yn ochr â set o ganllawiau ar gyfer cyflawniad sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rhoi'r Rhaglenni ar waith, yn ogystal â'r prosiectau a ariennir. Mae'n bosib y bydd WEFO eisiau gofyn am dystiolaeth ar ran y cyrff rhoi ar waith (gan gynnwys noddwyr prosiect a mudiadau cyflwyno) sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r heriau ychwanegol y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu wrth sicrhau cyflogaeth neu hygyrchu dysgu, ynghyd â chynllun i ddangos sut maent yn bwriadu gweithio i oresgyn y rhwystrau hynny o fewn y prosiect.

fel awdurdod rheoli'r Rhaglen bydd angen i WEFO roi ystyriaeth bellach hefyd i bennu set glir o ddangosyddion ar gyfer mesur cyflwyno yn erbyn yr amcanion hynny o fewn ymyraethau penodol. Byddai mynnu bod prosiectau'n diffinio set glir o'u hamcanion eu hunain o ran cyflwyno i grwpiau cydraddoldeb, a chynigion ar gyfer eu mesur, yn darparu dull o gynnal atebolrwydd noddwyr, datblygwyr a mudiadau cyflwyno, a chysylltu strategaeth â chyflwyno'n agosach ar lefel y Rhaglen. Bydd strategaeth monitro a gwerthuso cadarn a ategir gan ddata cydraddoldeb wedi'i ddadagregu'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd prosiectau'n anelu at nodau cydraddoldeb yn weithredol.

### 3. Mwyafu hygyrchedd y Rhaglen trwy strategaeth gyfathrebu wedi'i thargedu a'i theilwra.

Dylid ystyried ystod o gamau gweithredu a dylent ganolbwyntio ar ddatblygu strategaeth gyfathrebu sy'n ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb.

**Fformat gwybodaeth:** Mae angen i wybodaeth am y Rhaglenni fod ar gael mewn ieithoedd a fformatau gwahanol i sicrhau hygyrchedd ar gyfer, er enghraifft:

- rhai pobl anabl, er enghraifft, fel Braille neu drwy Iaith Arwyddion Prydeinig, neu fel Easy Read, er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch, yn enwedig ar gyfer pobl sydd â lefelau llythrennedd amrywiol; a
- rhai aelodau o grwpiau BAME nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf

Mae cyhoeddi (neu barodrwydd i ddarparu fel y bo angen) deunyddiau mewn ieithoedd perthnasol yn dangos parodrwydd i gefnogi pobl yn yr iaith o'u dewis. Mae angen i wefannau, deunyddiau printiedig, lleoliadau cyfarfodydd, a phwyntiau allweddol eraill fod yn hygyrch i ystod o grwpiau. Mae angen prawfddarllen y cyfryw wybodaeth o safbwynt diwylliant i sicrhau bod yr wybodaeth yn berthnasol i bobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol.

Ar ben hynny dylid darparu'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen mewn Cymraeg Clir a 'Plain English' [98] i fwyafu hygyrchedd.

**Lledaenu gwybodaeth:** Yn ail bydd yn hanfodol ystyried sut mae grwpiau gwahanol yn hygyrchu gwybodaeth (a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud hyn). Gall cyrraedd pobl hŷn, pobl anabl, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig a hefyd y boblogaeth LHD a thrawsryw fod yn fwy heriol a bydd angen datblygu mecanweithiau i sicrhau yr ymgysylltir â'r grwpiau hyn.

Argymhellir defnyddio ystod o gyfryngau i gyflawni hyn a thra bod y rhyngrwyd yn offeryn gwerthfawr, mae'n bosib nad yw ar gael i bob grŵp, neu'r dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu. Gall defnyddio cyfryngau cymdeithasol gael mwy o effaith ymysg pobl ifanc, tra gall y wasg arbenigol gyrraedd grwpiau eraill (er eraill mae gan y Wasg Binc gynulleidfa LHD a thrawsryw benodol). Dylid ymgynghori â mudiadau cynrychiadol i adnabod y dull lledaenu mwyaf priodol.

4. **Ymgysylltu'n weithredol â mudiadau cydraddoldeb a grwpiau sy'n cynrychioli'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.**

Yn ogystal â gweithio gyda mudiadau cynrychiadol, trydydd sector a chydraddoldeb fel rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach, mae angen ymgysylltu ymhellach ar gynnwys Rhaglenni a chyflwyno prosiectau wrth i'r Rhaglenni gael eu cwblhau a'u lansio.

Gallai fod angen gwneud gwaith pellach i sicrhau yr ymgysylltir ag aelodau grwpiau cydraddoldeb a'r rhai sy'n cynrychioli eu buddiannau (megis fforymau cymunedol, mudiadau crefyddol, elusennau a grwpiau cefnogi) ynghylch cynnwys ac amcanion y Rhaglen.

5. **Defnyddio rhwydweithiau ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli i gefnogi cyflwyno cyfle cyfartal.**

Hefyd, gallai prosesau cyflwyno rhaglenni ddefnyddio ystod o rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli ac argymhellir defnyddio'r holl adnoddau cyfredol a rhwydweithiau cydraddoldeb awdurdodau lleol i gefnogi cyflwyno Rhaglenni.

Yn ogystal â hyn, gellid defnyddio rhwydweithiau ac adnoddau'r trydydd sector i alluogi noddwyr prosiectau i gefnogi mynediad cyfartal ar gyfer pobl sydd â'r holl nodweddion gwarchodedig.

6. **Ehangu darpariaeth hyfforddiant cydraddoldeb i ymdrin â noddwyr prosiectau a mudiadau cyflwyno.**

98 Gweler, er enghraifft: http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6522

Mae'r potensial am fethiannau cydraddoldeb o ganlyniad i wybodaeth neu brofiad annigonol yn risg hefyd. Bydd angen i ddarparwyr prosiectau gael eu cyfarpar gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflwyno Rhaglenni cynhwysol ac ymdrin ag unrhyw faterion cydraddoldeb mewn ffordd sensitif i fwyafu'r buddion ar gyfer cyfranogwyr Argymhellir, felly, bod WEFO yn darparu set o sesiynau hyfforddiant cydraddoldeb ar draws y Rhaglen i leiafu'r rhwystrau i fynediad ar gyfer buddiolwyr. Gallai hyfforddiant gwmpasu ystod o faterion o ddylunio cyfathrebiadau ac ymchwil i fuddiolwyr i ymdrin â gwahaniaethu a throseddau casineb

7. **Annog cyrff cyflwyno, noddwyr prosiect a mudiadau eraill sy'n rhyngwynebu i ddatblygu eu cymhwysedd cydraddoldeb eu hunain.**

   Mae lle i WEFO a Llywodraeth Iwerddon ymgysylltu'n gadarnhaol â'r mudiadau a fydd yn cyfrannu at gyflwyno'r Rhaglen i'w hannog i ddatblygu eu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain. Mae'n bosib y bydd WEFO (fel yr awdurdod rheoli) eisiau ystyried datblygu polisi cyflenwyr sy'n cynnwys gofynion penodol mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Dylai Ymgynghorwyr Cydraddoldeb o fewn WEFO barhau i atgyfnerthu 'diwylliant o ddadansoddi cydraddoldeb', lle mae cyflawni asesiad o weithgareddau i ymchwilio i'r effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig wedi'i normaleiddio'n llwyr ac yn rhan o brosesau adolygu a gwerthuso prosiectau.

## 12.5 Crynodeb

Mae gan Lywodraeth Cymru brofiad cryf o ymgorffori cydraddoldeb yn ei Rhaglenni Ewropeaidd. Mae hyn eisoes wedi'i gydnabod gan y Comisiwn Ewropeaidd. O hyn ymlaen mae'n rhaid i ffocws y Rhaglen Iwerddon Cymru fod ar sicrhau bod y prosiectau a gyflwynir yn anelu at ei huchelgeisiau ar gyfer cau'r bwlch rhwng grwpiau cydraddoldeb gwahanol. Os gellir cyflawni hynny mae gan y Rhaglen Iwerddon Cymru ar gyfer 2014-2020 y gallu i gyflwyno'r twf cynaliadwy ac arloesol a'r rheolaeth dros newid yn yr hinsawdd a mwyafu adnoddau i greu buddion ar gyfer pawb yn ardal y Rhaglen.

# Atodiadau

Appendix A. ____________________________________________ Cyd-destun Polisi

# Appendix A. Cyd-destun Polisi

## A.1. Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun polisi cydraddoldeb - ar lefelau gweinyddol Ewropeaidd, DU a/neu Brydain a Chymru - ar gyfer Rhaglenni'r Gronfa Strwythurol 2014-20 a'r Rhaglen ERDF yn benodol. Mae'n rhoi manylion y dogfennau polisi a strategaeth, a'r cyrchnodau ac amcanion a bennir gan yr awdurdodau gwahanol mewn perthynas â chydraddoldeb. Mae'n rhaid i gyflwyniad y cyrchnodau hyn gael ei gefnogi fel rhan o roi'r Rhaglen ERDF ar waith yn Nwyrain Cymru ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Cydraddoldeb, yn Ewrop, y DU[99] ac yng Nghymru mae wedi profi trawsnewidiad o faes polisi datblygol a ddiffiniwyd yn wael yn y 1970au a'r 1980au i'w rôl gyfredol fel agwedd allweddol ar y broses o lunio polisi. . Mae'r pwyslais cynyddol ar gyfle cyfartal fel maes gwaith strategol wedi cael ei adlewyrchu mewn Rhaglenni ariannu Ewropeaidd, nid fel blaenoriaeth unigol, ond fel blaenoriaeth drawsbynciol neu lorweddol, egwyddor sylfaenol y dylid ei hymgorffori'n gynhwysfawr mewn polisïau, rhaglenni a chyflwyno prosiectau.

## A.2. Polisi Ewropeaidd

Mae polisïau Ewropeaidd ar faterion economaidd a chymdeithasol yn canolbwyntio ar strategaeth Ewrop 2020 a'i dogfennau cysylltiedig amrywiol, y rhoddir eu manylion isod. O ran cydraddoldeb, mae polisi'r UE yn canolbwyntio ar gyfarwyddebau gwrth-wahaniaethu Cyfraith Llafur yr UE. Mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r broses gydymffurfio gyfreithiol mewn perthynas â chyflogaeth ac maent wedi'u hamlinellu isod hefyd.

### A.2.1. Ewrop 2020

Ewrop 2020 yw strategaeth twf yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y ddegawd hon. Mae'n seiliedig ar gyflwyno twf sy'n:

- graff, trwy fuddsoddiadau mwy effeithiol mewn addysg, ymchwil ac arloesedd;
- cynaliadwy, gan symud tuag at economi carbon isel; ac yn
- gynhwysol, gyda phwyslais cryf ar greu swyddi a lleihau tlodi.

---

99 Trwy gydol yr adroddiad hwn mae'r termau Deyrnas Unedig (DU), a Phrydain Fawr, neu Brydain (PF) yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r gweithgareddau polisi, strategaeth ac ymyrraeth sy'n cael eu cyflawni ar lefel y wladwriaeth genedlaethol. Er iddo gael ei symleiddio'n sylweddol mewn llawer o ffyrdd, mae polisi cydraddoldeb yn y DU yn parhau'n gymhleth oherwydd y broses ddatganoli barhaus sy'n digwydd yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er mai ffocws yr adroddiad AEC hwn yw polisi ac arfer cydraddoldeb yng Nghymru, mae polisïau cenedlaethol wedi'u deddfu sy'n cwmpasu amrediad o lefelau gan gynnwys 'Cymru a Lloegr', Prydain Fawr (gan gynnwys Cymru, Lloegr a'r Alban) a'r DU (gan gynnwys Gogledd Iwerddon). Yn aml defnyddir y termau mewn ffordd gyfnewidiol a datblygwyd yr adroddiad hwn i osgoi unrhyw amwysedd pryd bynnag y bo'n bosib.

Mae cynhwysedd yn un o hanfodion allweddol cydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â thaclo heriau strwythurol, ac mae cyrff cyhoeddus gan gynnwys Llywodraethau Cymru a'r DU yn ogystal ag awdurdodau lleol amrywiol yn cyfeirio atyn nhw'n gydgyfnewidiol.

O fewn Ewrop 2020, mae gan 'twf cynhwysol' nifer o dargedau, a'r nod cyffredinol yw codi'r gyfradd gyflogaeth Ewropeaidd, gyda ffocws penodol ar gynyddu nifer y swyddi ar gyfer menywod, pobl ifanc a gweithwyr hŷn. Mae ei nodau craidd yn cynnwys helpu pobl o bob oedran gyda mynediad i sgiliau a hyfforddiant, moderneiddio marchnadoedd llafur a systemau lles a sicrhau bod buddion twf yn cyrraedd pob rhan o'r UE. Erbyn 2020, y nod yw i 75% o bobl 20-64 oed fod yn gyflogedig, gyda'r gyfradd tynnu allan o'r ysgol i lawr i lai na10%, o leiaf 40% o bobl 30-34 oed yn cwblhau addysg trydedd lefel) lefel uwch neu radd) ac i o leiaf 20 miliwn yn llai o bobl fod mewn risg o, neu mewn tlodi ac eithrio cymdeithasol - cyflyrau sy'n gysylltiedig yn agos ag anghydraddoldeb.

Mae dwy fenter allweddol yr UE sy'n gysylltiedig â'r targedau hyn.

- Mae'r cyntaf yn agenda ar gyfer sgiliau a swyddi newydd, er mwyn i unigolion gaffael sgiliau newydd ac addasu i'r farchnad lafur newidiol a moderneiddio marchnadoedd llafur i godi lefelau cyflogaeth, lleihau diweithdra, codi cynhyrchedd llafur a sicrhau cynaladwyedd modelau cymdeithasol Ewrop.
- Mae'r ail fenter yn llwyfan Ewropeaidd yn erbyn tlodi, gan sicrhau cydlyniant economaidd, cymdeithasol a thiriogaethol, gwarantu parch tuag at hawliau sylfaenol pobl sy'n profi tlodi ac eithrio cymdeithasol, a'u galluogi nhw i fyw mewn urddas a chymryd rhan weithredol mewn cymdeithas a symbylu cefnogaeth i helpu pobl integreiddio i'r cymunedau lle maent yn byw, derbyn hyfforddiant a chymorth i ddod o hyd i swydd a chael mynediad i fudd-daliadau cymdeithasol.

Mae cynigion y Rhaglen ERDF Cymru ar gyfer Ewrop 2020 yn blaenoriaethu cyflogaeth a sgiliau ar gyfer yr holl ddinasyddion, gyda ffocws cryf a phenodol ar bobl ifanc (yn bennaf 0-3 oed a 16-24 oed).

### A.2.2. Menter Cyfleoedd Ieuenctid

Mae'r Fenter Cyfleoedd Ieuenctid, a redir gan y Comisiwn Ewropeaidd, yn anelu at helpu pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (y cyfeirir atynt fel NEET yn y DU), trwy ddarparu modd iddynt gaffael sgiliau a phrofiad pwysig. Gellir ennill y rhain trwy ddychwelyd i'r ysgol, dechrau hyfforddiant neu ennill profiad gwaith neu wirfoddoli.[100]

Mae'r fenter yn anelu at hyrwyddo cyflogaeth ieuenctid trwy:

- ddefnydd cynyddol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop;
- rhoi ymagweddau arloesol ar waith; ;
- ei gwneud hi'n haws i bobl ifanc ddod o hyd i swyddi mewn un o wledydd eraill yr UE;

100 Arsyllfa Cysylltiadau Diwydiannol Ewropeaidd Ar-lein (2012): ‘Commission Launches Youth Opportunities Initiative'. Gweler: http://www.eurofound.europa.eu/eiro/2012/01/articles/eu1201011i.htm

- partneriaethau cryfach rhwng awdurdodau gwleidyddol, undebau busnes a llafur ar lefelau UE, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; ac
- arweiniad a chymorth polisi gan y Comisiwn Ewropeaidd.

### A.2.3. Strategaeth Anabledd Ewropeaidd 2010-2020

Mabwysiadwyd y Strategaeth Anabledd Ewropeaidd 2010-2020 ym mis Tachwedd 2010. Mae'r strategaeth yn datgan bod gan bobl ag anableddau'r hawl i gymryd rhan yn llawn ac yn gyfartal mewn cymdeithas a'r economi ac yn cydnabod bod gwrthod cyfle cyfartal yn gyfystyr â thorri hawliau dynol. Ac eto mae'n cydnabod bod pobl ag anableddau'n gyffredinol yn dlotach na dinasyddion eraill yr UE, mae gan lai ohonyn nhw swyddi, mae eu cyfleoedd i fwynhau nwyddau a gwasanaethau megis addysg, gofal iechyd, cludiant, tai a thechnoleg yn fwy cyfyngedig. Mae gwahaniaethu parhaus yn ogystal â rhwystrau ffisegol ac agweddol yn effeithio ar un o bob chwech o ddinasyddion yr UE, neu tuag 80 miliwn o bobl.[101]

Gan hynny, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi adnabod wyth maes allweddol ar gyfer gweithredu:

- **Hygyrchedd** i sicrhau mynediad i nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, a dyfeisiau cynorthwyol ar gyfer pobl sydd ag anableddau.
- **Cymryd rhan** i alluogi pobl anabl i fwynhau holl fuddion dinasyddiaeth o'r UE, dileu rhwystrau gweinyddol ac agweddol i gymryd rhan yn llawn ac yn gyfartal a darparu gwasanaethau cymunedol o safon, gan gynnwys mynediad i gymorth personol.
- **Cydraddoldeb** er mwyn gwaredu gwahaniaethu ar sail anabledd ar draws yr UE.
- **Cyflogaeth** i alluogi llawer mwy o bobl ag anableddau i ennill eu bywoliaeth ar y farchnad lafur agored.
- **Addysg a hyfforddiant** i gynyddu nifer y bobl ag anableddau ac anableddau difrifol mewn addysg a hyfforddiant gan hyrwyddo addysg gynhwysol a dysgu gydol oes ar gyfer disgyblion a myfyrwyr ag anableddau.
- **Amddiffyniad cymdeithasol** i hyrwyddo amodau byw priodol ar gyfer pobl ag anableddau.
- **Iechyd** i feithrin mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd a chyfleusterau cysylltiedig ar gyfer pobl ag anableddau.
- **Gweithredu allanol** i hyrwyddo hawliau pobl ag anableddau o fewn gweithredu allanol yr UE, gan gynnwys ehangu'r UE, Rhaglenni cymdogaeth a datblygu.

### A.2.4. Strategaeth ar gyfer Cydraddoldeb rhwng Menywod a Dynion 2010-2015

Ar 21 Medi 2010 cyhoeddodd yr UE ei strategaeth rhywedd pum mlynedd newydd. Mae hyn yn amlinellu pum blaenoriaeth allweddol ym maes cydraddoldeb rhyw ar gyfer y pum mlynedd nesaf:

- annibyniaeth economaidd gyfartal - cymodi rhwng gwaith a bywyd teuluol;

---

101 Undeb Ewropeaidd (2012): Breaking down barriers for disabled people - 15/11/2010', See: http://ec.europa.eu/news/justice/101115_en.htm

- tâl cyfartal;
- cydraddoldeb mewn gwneud penderfyniadau;
- dod â thrais seiliedig ar rywedd i ben; a
- chydraddoldeb rhyw mewn polisi tramor.

### A.2.5. Cyfraith Llafur yr UE

Mae gan yr UE gorff sefydledig o gyfraith llafur sy'n cynnwys cyfres o gyfarwyddebau a anelir at hyrwyddo triniaeth gyfartal a dileu gwahaniaethu.

#### A.2.5.1. Cyfarwyddeb Cydraddoldeb Rhyw (Cyfarwyddeb 2000/43/EC)

Cyfarwyddeb yr UE 2000/43/EC yw prif gyfarwyddeb yr UE yn ymdrin â thriniaeth gyfartal ymhlith pobl, beth bynnag yw eu hil. Mae'n gwahardd yr holl wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn seiliedig ar hil neu darddiad ethnig, yn ogystal ag aflonyddu ac unrhyw ymddygiad gwahaniaethu gan un person yn erbyn y llall.

Mae'r Gyfarwyddeb yn berthnasol i bob person ac i bob sector o weithgarwch, mewn perthynas â:

- mynediad i gyflogaeth a gweithgareddau di-dâl, yn benodol yn ystod recriwtio;
- amodau gweithio, gan gynnwys dyrchafiadau hierarchaidd, tâl a diswyddo;
- mynediad i hyfforddiant galwedigaethol;
- cyfranogiad mewn mudiadau gweithwyr neu gyflogwyr, ac mewn unrhyw fudiad proffesiynol;
- mynediad i amddiffyniad cymdeithasol a gofal iechyd;
- addysg; a
- manteision cymdeithasol, mynediad i nwyddau a gwasanaethau, yn enwedig tai.

Dylid nodi nad yw'r gyfarwyddeb yn gwrthod gweithredu cadarnhaol megis mesurau cenedlaethol a anelir at atal neu wneud iawn am anfanteision sy'n gysylltiedig â hil neu darddiad ethnig. [102]

#### A.2.5.2. Cyfarwyddeb Triniaeth Gyfartal (2006/54/EC)

Cyfarwyddeb yr UE 2006/54/EC yw'r brif gyfarwyddeb ar gydraddoldeb rhyw fel rhan o gyfraith gyflogaeth yr UE. Diben y gyfarwyddeb hon yw sicrhau rhoi egwyddor cyfle cyfartal  a thriniaeth gyfartal dynion a menywod ar waith mewn materion cyflogaeth a galwedigaeth. Mae darpariaethau penodol y gyfarwyddeb yn gwahardd yn echblyg unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw mewn perthynas â thâl, triniaeth mewn cynlluniau nawdd cymdeithasol galwedigaethol a mynediad i gyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol a dyrchafiad ac amodau gwaith. [103]

---

102 Undeb Ewropeaidd (2000): 'Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/43/EC'. Gweler: http://europa.eu/legislation_summaries/justice_freedom_security/combating_discrimination/l33114_en.htm

103 Undeb Ewropeaidd (2006): 'Cyfarwyddeb y Cyngor 2006/54/EC'. Gweler: http://eur-

### A.2.5.3. Cyfarwyddeb Fframwaith Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfarwyddeb 2000/78/EC)

Cyfarwyddeb 2000/78/EC yw prif Gyfarwyddeb yr UE a anelir at fynd i'r afael â gwahaniaethu ar seiliau heblaw hil a rhyw (yr ymdrinnir â hwy yng Nghyfarwyddebau 2000/43/EC a 2006/54/EC yn ôl eu trefn). Mae'n ymdrin â chydraddoldeb triniaeth a gwahaniaethu ar sail anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred ac oedran yn y gweithle. [104]

## A.2.6. Fframwaith Strategol Cyffredin

Mae'r Fframwaith Strategol Cyffredin (FfSC) drafft yn pennu fframwaith ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, Gwledig a Physgodfeydd a gaiff eu cyflwyno gan aelod-wladwriaethau a rhanbarthau. Mae'r FfSC yn adnabod cysylltiadau a meysydd â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn seiliedig ar y strategaeth Ewrop 2020. Mae'n gosod allan un ar ddeg o 'Amcanion Thematig': Bydd angen i'r holl weithgareddau ar draws pob Rhaglen yn y cyfnod rhaglenni 2014-2020 ymwneud ag o leiaf un o'r amcanion hyn. Hefyd, mae'n gosod allan dwy Egwyddor Lorweddol a fydd yn berthnasol i'r holl gronfeydd, y mae'r CCT o fewn y Rhaglen 2014-2020 yng Nghymru'n deillio ohonynt.

Mae gan y cyntaf o'r Egwyddorion Llorweddol hyn y teitl 'Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac ymatal rhag gwahaniaethu' ac mae'n nodi:

> ‘y dylai Rhaglenni ERDF, ESF a'r Gronfa Gydlyniant bennu'n echblyg cyfraniad disgwyliedig y Cronfeydd hyn at gydraddoldeb rhyw trwy ddisgrifio amcanion ac offerynnau'n fanwl. Dylid cynnwys dadansoddiad rhywedd yn y dadansoddiad o amcanion yr ymyrraeth.' [105]

Ac ymhellach i hynny:

> ‘Dylai Aelod Wladwriaethau gymryd camau priodol i atal unrhyw wahaniaethu sy'n seiliedig ar ryw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gred, anableddau, oedran neu dueddfryd rhywiol yn ogystal â sicrhau hygyrchedd wrth i Raglenni a gweithrediadau a gydariannir gan y Cronfeydd FfSC gael eu paratoi a'u rhoi ar waith.’[106]

---

lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:204:0023:0036:en:PDF

104 Undeb Ewropeaidd (2000): ‘Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/78/EC’. Gweler: http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=CELEX:32000L0078:en:HTML

105 Comisiwn Ewropeaidd (2012): ‘Elfennau ar gyfer Fframwaith Strategol Cyffredin 2012-2020’, t.10. Gweler: http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/working/strategic_framework/csf_part1_en.pdf

106 Comisiwn Ewropeaidd (2012): ‘Elfennau ar gyfer Fframwaith Strategol Cyffredin 2012-2020’, t.10. Gweler: http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/working/strategic_framework/csf_part1_en.pdf

Yn olaf, mae hefyd yn pwysleisio cyfranogiad cyrff cydraddoldeb statudol ac anstatudol, gan nodi:

> ‘Yr argymhellir cyfranogiad cyrff cydraddoldeb neu fudiadau eraill sy'n weithgar wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu'n gryf er mwyn darparu'r arbenigedd angenrheidiol wrth baratoi, monitro a gwerthuso'r Cronfeydd.’[107]

Mae'r FfSC yn pennu'r cyd-destun ehangach ar gyfer y Rhaglen ERDF, ac felly mae'n rhaid i'w amcanion gael eu hadlewyrchu yn nyluniad y Rhaglen, ac yn benodol o fewn y Thema Drawsbynciol ar gydraddoldeb.

## A.3. A.1. Polisi'r Deyrnas Unedig / Prydain Fawr

Mae ymchwilio i effeithiau polisïau, Rhaglenni a phrosiectau ar grwpiau cymdeithasol gwahanol yn gyfrifoldeb statudol ym Mhrydain yn deillio o Ddeddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol 2000 a Deddf (Diwygio) Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Gosododd y rhain rwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus i asesu ac ymgynghori ar effaith debygol cynigion ar gydraddoldeb hiliol ac anabledd yn ôl eu trefn. Yn bodoli ochr yn ochr â nhw am flynyddoedd maeth oedd corff mawr o ddeddfwriaeth a ddyluniwyd i sicrhau cydraddoldeb amrywiaeth o grwpiau cymdeithasol - o fenywod trwy Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, i gred grefyddol, tueddfryd rhywiol ac oedran trwy Reoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth 2003 a 2006.

Aeth symleiddio'r swmp hwn o bolisi, rheoleiddio ac arweiniad yn flaenoriaeth i'r llywodraeth yng nghanol y 2000au. Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2006 lawer o'r cyd-destun strategol cyfredol ar gyfer cyflawni Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a darparodd ar gyfer corff strategol sengl - y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) i gynnal trosolwg o gydraddoldeb ym Mhrydain. Ond cymerwyd y cam pwysicaf wrth i Ddeddf Cydraddoldeb newydd gael ei chyflwyno yn 2010.

### A.3.1. A.1.1. Deddf Cydraddoldeb 2010

Gyda chyflwyniad Deddf Cydraddoldeb 2010 disodlwyd y cymysgedd hwn o offerynnau deddfwriaethol gan un darn o ddeddfwriaeth yn cwmpasu ystod eang o nodweddion gwahanol. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2010 a daeth y rhan fwyaf o'i hofferynnau cyfreithiol i rym ym mis Hydref 2010. Rhesymolodd a symleiddiodd y Ddeddf y gyfraith i'w gwneud hi'n haws i'w deall a'i defnyddio, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb parhaus. [108]

107 Comisiwn Ewropeaidd (2012): ‘Elfennau ar gyfer Fframwaith Strategol Cyffredin 2012-2020’, t.11. Gweler: http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/working/strategic_framework/csf_part1_en.pdf

108 Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (2010): ‘Equality Act 2010’

Codeiddiodd y Ddeddf yr angen asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau a datblygiad ar rannau gwahanol o gymdeithas mewn ffordd systematig. Mae'n rhaid cymhwyso'r broses, a all ymgorffori AEC er nad yw hyn yn orfodol, i'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn:

- **Oedran** (a all gynnwys plant dan 16 oed, pobl ifanc 16-24 oed, a phobl hŷn 65 oed ac yn hŷn);
- **Anabledd** (a all gynnwys pobl â namau synhwyraidd, namau symudedd, anableddau dysgu ac anableddau lles meddyliol);
- **Ailaseinio rhyw** (gan gynnwys pobl sydd ar unrhyw gam o therapi ail-aseinio rhyw);
- **Beichiogrwydd a mamolaeth** (gan gynnwys menywod beichiog a mamau sy'n bwydo o'r fron);
- **Hil ac ethnigrwydd** (a all gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw croen neu genedligrwydd);
- **Crefydd neu gred** (a all gynnwys pob grŵp ffydd neu gred grefyddol, gan gynnwys diffyg cred);
- **Rhyw** (gan gynnwys dynion a menywod);
- **Tueddfryd rhywiol** (gan gynnwys pobl heterorywiol, lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol); a
- **Priodas a phartneriaeth sifil** (gyda ffocws ar wahaniaethu'n unig ar sail p'un a yw rhywun yn briod ai beidio mewn partneriaeth sifil - nid yw pobl sengl yn dod o dan y nodwedd hon).

Yr amcan o asesu effeithiau ar gydraddoldeb yw adnabod cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb yn fwy effeithiol neu i raddau helaethach, yn ogystal ag adnabod effeithiau negyddol, y mae angen eu dileu neu eu lliniaru er mwyn atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon neu effeithiau negyddol anghymesur.

### A.3.2. A.1.2. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Roedd un elfen allweddol o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymwneud ag ailstrwythuro'r dyletswyddau a osodir ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â chydraddoldeb. Ym mis Ebrill 2011 daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus newydd (DCSC) i rym fel rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb, gan ddisodli'r dyletswyddau cyfredol mewn perthynas â hil, anabledd a rhyw.

Yn adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r DCSC yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried pob unigolyn wrth gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd, wrth gyflwyno gwasanaethau ac mewn perthynas â'u cyflogeion eu hunain. Mae'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen am gael gwared ar wahaniaethu, datblygu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl wahanol wrth iddynt gyflawni eu gweithgareddau.

Bwriedir i'r Ddyletswydd gefnogi gwneud penderfyniadau da - mae'n annog cyrff cyhoeddus i ddeall sut y bydd pobl wahanol yn cael eu heffeithio, fel bod eu polisïau a gwasanaethau'n briodol ac yn hygyrch i bawb ac yn diwallu anghenion pobl wahanol. Trwy ddeall effeithiau eu gweithgareddau ar bobl wahanol, a sut y gall gwasanaethau cyhoeddus cynhwysol gefnogi ac agor i fyny cyfleoedd pobl, gall cyrff cyhoeddus fod yn

fwy effeithlon ac yn effeithiol. Gan hynny mae'r DCSC yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflwyno amcanion cyffredinol y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r DCSC yn ffurfio 'dyletswydd gyffredinol' sydd yn ei thro wedi'i hategu gan nifer o 'ddyletswyddau penodol'.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn mynnu bod adrannau llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus (a'r rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno swyddogaethau cyhoeddus) yn rhoi ystyriaeth briodol i'r tri amcan a ganlyn:

- cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
- datblygu cyfle cyfartal ymysg grwpiau gwahanol; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau gwahanol.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol wedi'i hategu gan gyfred o ddyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn ofynion cyfreithiol i helpu'r cyrff cyhoeddus hynny i ddeall eu cyfrifoldebau. Mae'r dyletswyddau penodol yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn:

- cyhoeddi amcanion cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd, gyda'r cyntaf i'w gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2012 fan hwyraf; a
- chyhoeddi gwybodaeth i ddangos eu cydymffurfiad â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb, yn flynyddol o leiaf, ac erbyn mis Ionawr 2011 yn y lle cyntaf.

  Mae'r ddyletswydd hefyd yn pwysleisio y dylai cyrff cyhoeddus ystyried cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau eraill ar gyfer pobl anabl. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn mynnu bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys sicrhau y darperir gwybodaeth mewn fformat hygyrch. [109]

### A.3.2.1. Effaith y ddyletswydd gyffredinol yng Nghymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr mae'r ddyletswydd gyffredinol yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yn y polisïau a'r gwasanaethau a gynigir gan awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn cwmpasu'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus, ac yn berthnasol i fudiadau sector preifat a thrydydd sector sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus ar ran y cyhoedd yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'n pennu y dylent isafu'r anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, cymryd camau i ddiwallu anghenion gwahanol bobl o grwpiau gwarchodedig ac annog cyfranogiad y grwpiau hyn lle mae cyfranogiad yn anghymesur o isel.

O ran rhoi ar waith, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) wedi cyhoeddi 'canllaw hanfodol'[110] i gynorthwyo unrhyw awdurdod cyhoeddus sy'n dod o dan

---

109 Mae'r Swyddfa Materion Anabledd yn darparu gwybodaeth am sut i wneud gwybodaeth yn hygyrch i bobl anabl. Gweler: www.odi.gov.uk/formats

110 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): 'Y canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus'. Gweler:

y ddyletswydd gyffredinol. Mae'r canllaw yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdodau hyn warantu bod:

- yr holl staff ac arweinwyr yn ymwybodol o ofynion y ddyletswydd;
- y ddyletswydd yn dod i'r amlwg ar adeg penderfyniad am bolisi penodol neu cyn hynny;
- y ddyletswydd ei hun yn rhan annatod o'r broses gwneud penderfyniadau;
- yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chaffael er mwyn i benderfyniad gwybodus gael ei wneud;
- y ddyletswydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd; a
- bod hyd yn oed y rhai sy'n gweithredu swyddogaethau cyhoeddus ar ran corff cyhoeddus yn cyflawni'r ddyletswydd.

Trwy'r ddyletswydd gyffredinol mae'r DCSC yn ymgorffori'r holl ofynion ar lefel yr Aelod Wladwriaeth mewn perthynas â chydraddoldeb ac mae'n rhaid i'r holl Raglenni UE a gyflwynir gan gyrff cyhoeddus ddangos cydymffurfiad â hi. Mae AEC yn un ffordd o gyflawni hyn.

### A.3.2.2. Effaith y dyletswyddau penodol yng Nghymru

Mae'r dyletswyddau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y DCSC yn amrywio gan ddibynnu ar natur y corff cyhoeddus, y swyddogaethau y maent yn eu perfformio a pha un a ydynt yn un o weinyddiaethau datganoledig y DU ai beidio.

Gan hynny mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phennu dyletswyddau penodol er mwyn eu helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Yng Nghymru mae'r dyletswyddau penodol yn amlinellu'r camau y mae'n ofynnol i gyrff sy'n perfformio swyddogaethau cyhoeddus eu dilyn er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i'r ddyletswydd gyffredinol a bodloni gofynion cydraddoldeb statudol;

- Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddi, adolygu a chynnal amcanion cydraddoldeb ac amlinellu'r camau o sut i gwrdd â nhw, gan dargedu pob nodwedd warchodedig.
- Mae'n rhaid llunio, adolygu a chynnal Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, sy'n amlinellu sut mae awdurdodau cyhoeddus yn bwriadu cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- mae'n rhaid i gynrychiolwyr un neu fwy o'r grwpiau gwarchodedig sydd â diddordeb mewn sut mae awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau gael eu cynnwys mewn gweithgareddau mewn perthynas â chyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Mae'n rhaid asesu effaith polisïau ar y gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol ynghyd ag adolygiadau o hynny, a chyhoeddi adroddiadau o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fo'n briodol.
- Mae'n rhaid i gyrff yng Nghymru sicrhau bod gwybodaeth gydraddoldeb berthnasol a gedwir neu sy'n ofynnol yn cael ei hadnabod, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw wahaniaethau mewn tâl rhwng cyflogeion sydd â nodwedd warchodedig a'r rhai nad oed ganddynt un.

---

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/PSED/essential_guide_update.pdf

- Bob blwyddyn mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus (a mudiadau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus) yng Nghymru cywain a chyhoeddi nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn fesul nodweddion gwarchodedig, nifer y dynion a menywod a gwybodaeth am eu swyddi, gradd, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith.
- Dylid hyrwyddo gwybodaeth am y dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg cyflogeion trwy hyfforddiant.
- Dylid cyhoeddi'r holl wybodaeth mewn perthynas â chydraddoldeb fel yr amlinellwyd uchod, a'i hadolygu a'i diwygio'n achlysurol, gan amlinellu camau parhaus a gymerir i ymdrin â heriau cydraddoldeb. Mae angen monitro effeithiolrwydd y mesurau a roddwyd ar waith.
- Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gymryd pob  cam rhesymol i sicrhau bod yr holl ddogfennau a/neu wybodaeth yn cael eu cyhoeddi mewn fformat sy'n hygyrch i bobl o bob grŵp gwarchodedig.

### A.3.3. Arweiniad a chefnogaeth

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) wedi rhyddhau nifer o gyhoeddiadau yn darparu canllawiau anstatudol ar sut i ddilyn y dyletswyddau penodol yng Nghymru. [111] Yn ogystal â hyn mae Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth (SCLl - rhan o'r Swyddfa Gartref) hefyd wedi rhyddhau 'Canllaw cyflym ar gyfer mudiadau sector cyhoeddus'[112] sydd eto yn torri i lawr goblygiadau Deddf Cydraddoldeb 2010 i'w gwneud hi'n haws i awdurdodau gydymffurfio â'u dyletswyddau.

Yn benodol, mae'r 'Canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus: Trosolwg ar gyfer awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru' yn amlygu sut mae'n rhaid i gorff cyhoeddus yng Nghymru asesu effaith debygol unrhyw bolisïau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig a gallu'r corff i gydymffurfio â'r DCSC.

## A.4. Polisi Cydraddoldeb Cymru

Mae Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i hethol gan bobl Cymru, yn gyfrifol am gyflawni deddfau mewn ystod eang o feysydd polisi gan gynnwys addysg, iaith, iechyd, diwylliant a gwasanaethau cyhoeddus. O ganlyniad i hyn, mae Cymru'n cadw agenda gydraddoldeb unigryw, sy'n seiliedig ar y gred sylfaenol na ddylid gwrthod cyfleoedd i unrhyw un oherwydd eu hil, ethnigrwydd, anabledd, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, crefydd neu gred, ac y dylai egwyddorion hawliau dynol bod yn sylfaen i bopeth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Disgrifir dogfennau cydraddoldeb allweddol Llywodraeth Cymru isod.

---

111 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011): ‘Arweiniad y Ddeddf Cydraddoldeb newydd’. Gweler: http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/new-equality-act-guidance/

112 Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth (Hydref 2011): ‘Deddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswyddau Penodol i Gefnogi'r Ddyletswydd Gydraddoldeb - Beth mae angen i mi ei Wybod?' Gweler: http://www.pfc.org.uk/pdf/specific-duties%20Nov%202011%20(2).pdf

### A.4.1. Cynllun Cydraddoldeb ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012-2016

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i gefnogi grwpiau cydraddoldeb gwahanol ers datganoli yng Nghymru ym 1999. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amcanion Strategol 2012-2016 yn amlinellu nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod hwn gan ddefnyddio ystod o ddeddfwriaeth a mentrau gwahanol. Mae'r Cynllun yn gweddu i nifer o bolisïau allweddol eraill, gan gynnwys y Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru a'r Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cynhwysiad Ffoaduriaid. Mae'r Cynllun yn rhoi manylion y camau gweithredu, amserlenni a chyrff sy'n gyhoeddus am bob un o wyth Amcan Cydraddoldeb penodol. Sef:

1. Cryfhau gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth i helpu pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i ddeall ac ymarfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.
2. Gweithio gyda phartneriaid i adnabod ac ymdrin ag achosion gwahaniaethau tâl a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd a chyflogaeth.
3. Lleihau nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
4. Lleihau achosion o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais seiliedig ar anrhydedd, troseddau casineb, bwlio a cham-drin pobl hŷn.
5. Taclo rhwystrau a chefnogi pobl anabl er mwyn iddynt fyw'n annibynnol a chael dewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd.
6. Gosod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd cyflwyno mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn benodol iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn iddynt fod yn ymatebol i anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. .
7. Gwella cynhwysiad a chyfranogiad grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn penodiadau cyhoeddus.
8. Creu gweithle mwy cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer staff sydd â nodweddion gwarchodedig trwy ymgysylltu â chyflogwyr yn well a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu sy'n hygyrch i'r holl staff..

### A.4.2. Gwneud Polisïau Cynhwysol

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd poblogaeth amrywiol ac integredig ac yn annog swyddogion i weithredu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Chyfamodau'r Cenhedloedd Unedig a'r Confensiynau Hawliau Dynol, gan gyfarch gwerthoedd urddas, cydraddoldeb, tegwch a pharch.

Gwneud Polisïau Cynhwysol (a elwir yn IPM) yw ymagwedd a ffafrir Llywodraeth Cymru at asesu effaith ei weithgareddau adrannau gwahanol o gymdeithas; Fe'i defnyddir i sicrhau bod yr holl bolisïau, strategaethau, cynlluniau gweithredu ac arferion yn cyfrannu'n weithredol at amgylchedd sy'n rhydd rhag gwahaniaethu. Defnyddir y broses IPM ar gyfer y mwyafrif o newidiadau mewn polisïau neu arfer allweddol a'r swyddogion ym mhob adran sy'n gyfrifol am ymgymryd ag IPM.

Mae'r arweiniad IPM wedi'i ddylunio i helpu swyddogion i:

- Asesu polisïau cyfredol a newydd i sicrhau eu bod yn:
  - Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon.
  - Datblygu cyfle cyfartal ar gyfer pawb.

- Hyrwyddo cysylltiadau da.[113]
- Sicrhau bod polisïau'n ymdrin ag anghydraddoldeb a brofir gan grwpiau gwahanol mewn perthynas ag anabledd, hil, rhyw ac ailaseinio rhyw, crefydd a chref neu ddiffyg cred a thueddfryd rhywiol.
- Ystyried polisïau ac arferion a gweithredu yn erbyn yr egwyddorion hawliau dynol; tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas.
- Creu cysylltiadau cryf â'r broses o lunio polisi.
- Ymgorffori mecanwaith adborth clir a fydd yn sicrhau bod IPM yn cael ei weld fel proses fyw a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflwyno polisïau ac arferion gwell. Nid ymarfer 'ticio blychau' neu wiriad munud olaf mohono. Dylai cynlluniau ar gyfer polisïau ac arferion gynnwys amser i wneud newidiadau a adnabyddir gan IPM.[114]

### A.4.3. Adfywio Economaidd: Cyfeiriad Newydd

Ryddhaodd Llywodraeth Cymru 'Adfywio Economaidd: Cyfeiriad Newydd' ym mis Gorffennaf 2010. Gan gydnabod effaith y dirwasgiad ar economi Cymru, mae'r adroddiad yn amlygu nifer o heriau economaidd (cymysgedd sgiliau andwyol, diffyg clymdref fawr, a chyfran gymharol uchel o bobl o oedran ymddeol) y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth er mwyn hyrwyddo twf economaidd.

Amlinellir nifer o flaenoriaethau allweddol yn yr adroddiad ac mae gan lawer ohonynt oblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â chydraddoldeb. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys:

- buddsoddi mewn seilwaith ansawdd uchel a chynaliadwy, gan gynnwys darparu band eang ym mhob cwr o Gymru. Mae'r gagendor digidol yn parhau'n realiti mewn llawer o rannau o Gymru gan gyfyngu ar fynediad i wasanaethau a chyfleoedd llawer o grwpiau gan gynnwys pobl hŷn a phobl ifanc.
- Gwneud Cymru'n lle mwy dymunol i wneud busnes, gan o bosib dileu rhwystrau i fathau gwahanol o bobl fusnes - er enghraifft, menywod, pobl hŷn, pobl ifanc, a phobl o ffydd, ethnigrwydd a thueddfryd rhywiol gwahanol.
- Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau, cefnogi pobl ifanc i lwyddo a pharatoi ar gyfer y byd gwaith, gan gynyddu ymdrechion i helpu'r rhai sy'n ddatgysylltiedig a lleihau anweithgarwch economaidd a diweithdra.

### A.4.4. Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru'n gwarchod, gorfodi ac yn monitro cydraddoldeb ar draws y naw nodwedd warchodedig.

113Yma mae IPM yn cyfateb yn uniongyrchol i gynnwys y DCSC

114 Llywodraeth Cymru (2010): 'Gweithio dros Gydraddoldeb yng Nghymru: Gwneud Polisïau Cynhwysol Ail Argraffiad yr Arweiniad', t.3. Gweler; http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/equality/100607ipmrev2cy.pdf

#### A.4.4.1. Cynllun Strategol 2012-2015

Lluniwyd Cynllun Strategol 2012-15 CCHD i hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y Deyrnas Unedig, a'i seiliau yw'r gwerthoedd o barch a thegwch. Mae'r Cynllun Strategol yn seiliedig ar dair blaenoriaeth strategol:

- Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar yr economi. Mewn economi sy'n dod allan o ddirwasgiad mae'r CCHD wedi amlinellu tri nod allweddol:
  - Mynd i'r afael ag achosion strwythurol y bwlch mewn tâl a sicrhau, fel isafswm, nad yw hyn yn llithro'n ôl.
  - Asesu effaith yr economi newidiol ar grwpiau gwahanol a sicrhau bod bylchau cyflogaeth yn ehangu.
  - Sicrhau bod llywodraethau'n gwneud penderfyniadau teg trwy gydol oes y caledi.
- Mae'r ail flaenoriaeth strategol yn seiliedig ar wasanaethau cyhoeddus. Yma mae'r blaenoriaethau'n cynnwys: hyrwyddo mynediad teg i wasanaethau cyhoeddus; sicrhau bod y dyletswyddau penodol yn cyflwyno canlyniadau gwell yng Nghymru; annog, monitro ac adrodd am gydymffurfiad Prydain i Senedd y DU a'r Cenhedloedd Unedig; ac adeiladu gallu'r sector gwirfoddol i wella perfformiad cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws eu holl swyddogaethau.
- Mae'r flaenoriaeth strategol olaf yn seiliedig ar iechyd a lles pobl. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys hyrwyddo urddas a pharch, a gwarchod diogelwch pobl, gan leihau bwlio mewn ysgolion a gweithleoedd, lleihau achosion o droseddau casineb a hyrwyddo materion hawliau dynol mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol a mewnfudo.

## A.5. Cyd-destun strategol ar gyfer y Gymraeg

Yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, cafwyd cyfres o fentrau a strategaethau a ddylunnir i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylcheddau proffesiynol ac mewn bywyd o ddydd i ddydd. Ers creu Comisiwn y Gymraeg yn 2011, mae'r ffocws wedi bod ar drin y Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg a rhoi cyfle i bobl fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny.

### A.5.1. Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) yn ddeddf sy'n cydnabod y Gymraeg fel iaith sy'n gyfartal i'r Saesneg yng Nghymru mewn perthynas â'r sector cyhoeddus. Mae'n rhoi hawl i bobl yng Nghymru siarad Cymraeg mewn trafodion llys ac yn mynnu bod pob mudiad sector cyhoeddus yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ymhellach i hynny, creodd y ddeddf Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sydd bellach wedi'i ddisodli gan Gomisiynydd y Gymraeg. [115] Mae Comisiynydd y Gymraeg yn anelu at sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na Saesneg yng Nghymru ac y dylai fod modd i bobl sy'n siarad Cymraeg fedru "byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny". [116]

115 Comisiynydd y Gymraeg, (2013): 'Deddf yr Iaith Gymraeg 1993'
116 Comisiynydd y Gymraeg, (2013): 'Nodau Comisiynydd y Gymraeg'

### A.5.2. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a rôl Comisiynydd y Gymraeg

Cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) ym mis Mawrth 2010 gan y Gweinidog dros Dreftadaeth. Cyflwynodd y Mesur Gomisiwn y Gymraeg, wedi'i arwain gan y Comisiynydd, i ddisodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a oedd wedi bodoli ers cyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg ym 1993.

Nod y Comisiynydd, fel y disgrifir yn y Mesur, yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a Saesneg. Ers 2011, Meri Huws yw Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol, sy'n anelu at hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Blaenoriaethau strategol y Comisiynydd ar gyfer 2012-2013 yw:
- Cydymffurfio a gorfodi;
- Rhoi'r Mesur a Deddf yr Iaith Gymraeg ar waith; ;
- Gwrando ac ymateb i farn a phryderon unrhyw berson;
- Craffu polisi ar gyfer ystyriaethau iaith Gymraeg;
- Cychwyn ymchwiliadau (o dan y Mesur); a
- Hwyluso seilwaith cefnogol ar gyfer y Gymraeg.

Mae gan y Comisiynydd yr awdurdod i fynnu bod mudiadau'n cydymffurfio â gofynion iaith perthnasol a gall osod tâl cosb sifil os na fodlonir gofynion.[117]

Mae Mesur y Gymraeg hefyd yn darparu ar gyfer datblygu 'safonau' sy'n cwmpasu integreiddio'r Gymraeg wrth ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd gan ystod o fudiadau a fydd, dros amser, yn disodli cynlluniau Iaith Gymraeg. Hefyd, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ymdrin â chwynion gan siaradwyr Cymraeg sy'n credu yr ymyrrwyd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.

Yn olaf, mae'r Mesur yn anelu at foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol o ran y defnydd o'r Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y dyletswyddau a osodir ar fudiadau ar ffurf safonau'n arwain at hawliau i ddinasyddion dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg. [118]

### A.5.3. Strategaeth y Gymraeg 2012-2017

Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae wedi'i pharatoi yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gweledigaeth y Llywodraeth yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. I gyflawni hynny, mae'r strategaeth yn anelu at weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith.

---

117 Comisiynydd y Gymraeg, (2012): ‘Rôl y Comisiynydd’ http://www.comisiynyddygymraeg.org/English/Commissioner/MeriHuws/commissionersrole/Pages/commissionersrole.aspx

118 Llywodraeth Cymru (2011): ‘Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011’ http://wales.gov.uk/legislation/programme/previouslegislation/assemblymeasures/welshlanguagemeasure/?lang=cy

Dyma strategaeth pum mlynedd, o 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2017, sy'n disodli'r Cynllun Gweithredu Iaith Pawb a gyhoeddwyd yn 2003. [119]

### A.5.4. Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2016

Dyma gynllun diwygiedig sy'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n rhoi arwydd clir i siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl.

Mae'r cynllun yn disgrifio sut y bydd Llywodraeth Cymru a'r gweision sifil a ddaw oddi tani'n:

- cyflwyno gwasanaethau Cymraeg a/neu ddwyieithog i'r cyhoedd;
- ac yn adlewyrchu ystyriaethau Cymraeg mewn meysydd polisi. [120]

### A.5.5. Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Mae'r Strategaeth hon yn pennu cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn pennu cyfeiriad ar gyfer gwneud gwelliannau i ddysgu ac addysgu'r Gymraeg fel iaith gan gynnwys, yn benodol, Cymraeg ail iaith.

Yn 2007 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'greu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o'r feithrinfa trwodd i addysg bellach ac uwch, wedi'i chefnogi gan Raglen Rhoi ar Waith'. Lansiwyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010 mewn ymateb i'r ymrwymiad hwn. [121]

## A.6. Polisïau Cydraddoldeb yng Ngweriniaeth Iwerddon

Mae polisïau cydraddoldeb yn Iwerddon wedi'u harwain gan Adran Cyfiawnder a Chydraddoldeb y Llywodraeth. Cenhadaeth yr adran yw cynnal a gwella diogelwch cymunedol a hyrwyddo cymdeithas fwy teg yn Iwerddon. Rhoddir manylion y ddeddfwriaeth berthnasol a chyrff cyhoeddus eraill sy'n llunio'r cyfarwyddebau cydraddoldeb yn yr adran hon.

### A.6.1. Mesur Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb Iwerddon 2014

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder, Cydraddoldeb ac Amddiffyn, Alan Shatter TD, fesur i gyfuno'r Awdurdod Cydraddoldeb a'r Comisiwn

119 Llywodraeth Cymru (2012): 'Iaith fyw iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-2017' http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf
120 Llywodraeth Cymru (2011): 'Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2016' http://wales.gov.uk/docs/drah/policy/20110331wlscym.pdf
121 Llywodraeth Cymru (2010): 'Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf

Hawliau Dynol.[122] Bydd pwerau cynyddol a mandad ehangach y Comisiwn newydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ei allu i ymdrin â gwahaniaethu a gwarchod triniaeth gyfartal ar bob sail, ac i warchod Hawliau Dynol yn Iwerddon.

Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno dyletswydd gadarnhaol newydd sy'n gosod rhwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus i roi sylw, wrth berfformio eu swyddogaethau, i'r angen am ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle a thriniaeth gyfartal. Bydd y Comisiwn newydd yn cael ei rymuso'n echblyg i gefnogi cyrff cyhoeddus ymhellach i fodloni eu rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd gadarnhaol hon, megis cynghori ar ddatblygiad mesurau perfformiad, safonau gweithredu a strategaethau ataliol gan gyrff cyhoeddus. Mae'r pŵer newydd hwn yn adlewyrchu ymrwymiad yn Rhaglen Ailsefydlu Cenedlaethol 2011 i 2016 y Llywodraeth.

Bydd gan y Comisiwn bŵer ymchwiliad cyhoeddus mewn sefyllfaoedd lle mae tystiolaeth o weithredu'n ddifrifol groes i hawliau dynol neu rwymedigaethau triniaeth gyfartal neu fethiant systematig i gydymffurfio â rhwymedigaethau hawliau dynol neu driniaeth gyfartal pan fo'r mater o bryder difrifol i'r cyhoedd.

Dewiswyd 14 darpar aelod o'r Comisiwn newydd ym mis Ebrill 2013 mewn proses sy'n annibynnol i'r Llywodraeth ac fe'u penodwyd yn y lle cyntaf i'r Awdurdod Cydraddoldeb a'r Comisiwn Hawliau Dynol ar sail dros dro er mwyn i'r ddau fudiad ddechrau gweithredu fel un corff cydlynol.

#### A.6.1.1. Cynlluniau Strategol

Mae Rhwymedigaeth ar y Comisiwn cyfunedig i baratoi a chyhoeddi cynllun strategol ar gyfer y cyfnod tair blynedd ddilynol mor gynnar ag sy'n ymarferol yn dilyn ei sefydlu.[123] Nid yw'r cynllun strategol wedi'i gyhoeddi eto.

### A.6.2. Comisiwn Hawliau Dynol Iwerddon (IHRC)

Comisiwn Hawliau Dynol Iwerddon (IHRC) yw Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol Iwerddon (NHRI), a sefydlwyd fel corff gwladol annibynnol gan Lywodraeth Iwerddon o dan Ddeddfau'r Comisiwn Hawliau Dynol 2000 a 2001 a chan weithredu yn unol ag egwyddorion Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae gan yr IHRC gylch gwaith statudol i ymdrechu i sicrhau bod hawliau dynol holl bobl y Wladwriaeth yn cael eu gwireddu a'u diogelu'n llawn yng nghyfraith ac arfer y Wladwriaeth. Un o swyddogaethau'r IHRC yw archwilio cynigion deddfwriaethol ac adrodd ei farn ar oblygiadau'r cyfryw gynigion ar gyfer hawliau dynol, gan roi ystyriaeth i'r Cyfansoddiad a chyfamodau hawliau dynol rhyngwladol y mae Iwerddon yn barti iddynt. Mae gan yr IHRC fandad i wneud argymhellion i'r Llywodraeth fel y gwêl yn briodol mewn perthynas â'r mesurau y mae'r

122 Datganiad i'r Wasg: Shatter yn cyhoeddi Mesur Hawliau Dynol a Chydraddoldeb Iwerddon 2014

123 Yr Adran Cyfiawnder a Chydraddoldeb (2012): ‘Heads of Irish Human Rights and Equality Commission Bill 2012’

IHRC yn ystyried y dylid eu rhoi ar waith i gryfhau, diogelu a hyrwyddo hawliau dynol yn y Wladwriaeth.

#### A.6.2.1. Cynllun Strategol IHRC

Yn 2012 cyhoeddodd yr IHRC Ddatganiad Strategol.[124] Cyn cyfuniad yr IHRC a'r Awdurdod Cydraddoldeb a ddiweddarodd eu hail Gynllun Strategol 2007-2011 gan fanylu swyddogaethau'r Comisiwn, a nodau strategol, wedi'u cefnogi gan gyfres o amcanion a dangosyddion perfformiad perthnasol ar gyfer gwerthuso llwyddiant.

Yn absenoldeb cynllun strategol y Comisiwn ar y cyd, y ddogfen hon yw'r datganiad diweddaraf o ffocws ar gydraddoldeb gan yr IHRC. Datganodd y ddogfen hon y byddai IHRC yn parhau i ymdrin â'r blaenoriaethau strategol a adnabuwyd yn ei Gynllun Strategol 2007-2011 Promoting and Protecting Human Rights in Ireland, sef:

- Hyrwyddo diwylliant ac ethos o barch tuag at hawliau dynol mewn cymdeithas yn Iwerddon;
- Hyrwyddo egwyddor ganolog hawliau dynol wrth lunio a gweinyddu'r gyfraith, polisi cyhoeddus a chyfiawnder;
- Gweithio ar y cyd gyda Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon i hyrwyddo hawliau dynol ar Ynys Iwerddon;
- Hyrwyddo cymdeithas sy'n gwerthfawrogi cynwysoldeb ac amrywiaeth trwy barch at hawliau dynol;
- Asesu a rhagweld heriau i hawliau dynol sy'n dod i'r amlwg;
- Cryfhau gallu sefydliadol yr IHRC i gyflawni ei fandad.

Cytunodd yr IHRC i gyflawni mesurau ychwanegol ar gyfer 2012:

- Parhau i gyflawni gwaith hawliau dynol strategol fel y a ddisgrifiwyd yn ei Gynllun Busnes;
- Cyflawni gwaith sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldebau hawliau dynol y rhai nad ydynt yn rhan o'r Wladwriaeth a chyfrifoldebau hawliau dynol parhaus y Wladwriaeth pan fo swyddogaethau'r Wladwriaeth yn cael eu preifateiddio;
- Parhau i ymdrin â gwahaniaethu yn erbyn grwpiau agored i niwed ac o dan anfantais;
- Parhau i hyrwyddo ei fentrau addysg a hyfforddiant hawliau dynol;
- Monitro sut mae'r Wladwriaeth yn rhoi ei rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol ar waith gan gynnwys mesurau cytunedig o dan ei Hadolygiad Cyfnodol Cyffredinol gan y CU.

### A.6.3. Yr Awdurdod Cydraddoldeb

Mae'r Awdurdod Cydraddoldeb yn gorff annibynnol y wladwriaeth a sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb Cyflogaeth 1998. Fe'i sefydlwyd ar 18 Hydref 1999. Mae'r Awdurdod Cydraddoldeb yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ar y ddeddfwriaeth gydraddoldeb. Yn ôl ei ddisgresiwn, gall darparu cymorth cyfreithiol i bobl sydd eisiau dwyn honiadau o wahaniaethu anghyfreithlon.

124 Comisiwn Hawliau Dynol Iwerddon (2012): ‘Strategic Statement 2012’

Disodlodd yr Awdurdod Cydraddoldeb yr Asiantaeth Cydraddoldeb Cyflogaeth, ac mae ganddo rôl a swyddogaethau wedi'u hehangu'n sylweddol. Mae Deddf Cydraddoldeb Cyflogaeth 1998 a Deddf Statws Cyfartal 2000 yn gwahardd gwahaniaethu mewn cyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol, hysbysebu, cytundebau ar y cyd a darparu nwyddau a gwasanaethau a chyfleoedd eraill y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt yn gyffredinol ar naw sail unigryw.

Sef:
- rhyw;
- statws sifil;
- statws teuluol;
- oedran;
- anableddau;
- hil;
- tueddfryd rhywiol;
- cred grefyddol; ac
- aelodaeth o Gymuned y Teithwyr.

Disgrifir gwahaniaethu yn y Ddeddf fel trin rhywun mewn ffordd lai ffafriol ng y mae rhywun arall yn cael ei drin neu a fyddai'n cael ei drin ar sail unrhyw un o'r uchod.

#### A.6.3.1. Y Deddfau Statws Cyfartal 2000-2008

Mae'r Ddeddf wedi'i diwygio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2004, Deddf Anableddau 2005 a Deddf Cyfraith Sifil (Darpariaethau Amrywiol) 2008. Fe'u hadnabyddir ar y cyd fel y Deddfau Statws Cyfartal 2000-2008. [125]

Mae'r Deddfau Statws Cyfartal yn anelu at
- hyrwyddo cydraddoldeb;
- gwahardd mathau penodol o wahaniaethu (gyda rhai eithriadau) ar draws y naw sail a ddiogelir gan yr Awdurdod Cydraddoldeb;
- gwahardd gwahaniaethu ac aflonyddu rhywiol;
- gwahardd erledigaeth;
- mynnu llety rhesymol ar gyfer pobl ag anableddau; a
- chaniatáu ystod eang o fesurau gweithredu eang.

Mae'r Deddfau'n berthnasol i'r rhai sy'n:
- prynu ac yn gwerthu amrywiaeth eang o nwyddau;
- defnyddio neu ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau;
- dod o hyd i neu gynnig llety; a
- mynychu, neu reoli, sefydliadau addysg.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gweithredu fel set o reolau i gyrff y sector cyhoeddus a phreifat ac aelodau'r cyhoedd (wedi'u rhestru uchod) eu cynnal mewn perthynas ag

---

125 Llywodraeth Iwerddon (2010): 'Guide to the Equal Status Acts 2000–2008'

ymddygiad mewn Nwyddau a Gwasanaethau, Llety, Sefydliadau Addysg a Chlybiau Gwahaniaethu.

## A.7. Cyd-destun strategol ar gyfer yr Wyddeleg

### A.7.1. Strategaeth 20 Mlynedd ar gyfer yr Wyddeleg 2010-2030

Polisi Llywodraeth Iwerddon mewn perthynas â'r Wyddeleg yw cynyddu defnydd a gwybodaeth o'r Wyddeleg fel iaith gymunedol. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn anelu at roi sylw agos i bolisïau iaith Wyddeleg yn y Gaeltacht (rhanbarthau sy'n siarad Gwyddeleg), yn enwedig gan i ymchwil ddangos bod yr iaith o dan fygythiad yn yr ardaloedd hyn. Cydnabyddir Ring fel Gaeltacht ac mae'n rhan o Ardal y Rhaglen.

Mae'r Llywodraeth wedi penni dau amcan uchelgeisiol mewn perthynas â'r Wyddeleg i'w cyflawni mewn 20 mlynedd. Sef:
- cynyddu nifer y bobl sydd â gwybodaeth o'r Wyddeleg o'r 1.66 miliwn gyfredol i 2 filiwn; a
- chynyddu'r nifer sy'n siarad Gwyddeleg bob dydd o'r lefel gyfredol o tua 83,000 i 250,000.

I gyflawni'r amcanion hyn, mae'r strategaeth wedi pennu nifer o amcanion:
- cynyddu'r nifer sy'n siarad Gwyddeleg bob dydd y tu allan i'r system addysg o 83,000 i 250,000.
- cynnydd o 25% yn y nifer sy'n siarad Gwyddeleg bob dydd yn y Gaeltacht; a
- chynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Wladwriaeth trwy'r Wyddeleg ac a all hygyrchu teledu, radio a chyfryngau printiedig trwy gyfrwng yr iaith.

Gallai'r Rhaglen Iwerddon Cymru helpu cefnogi'r amcanion hyn a nodau hir dymor y Llywodraeth trwy gefnogi siaradwyr Gwyddeleg wrth sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r ymyraethau â Blaenoriaeth.

### A.7.2. Adran y Celfyddydau, Treftadaeth a'r Gaeltacht[126]

Prif amcan Adran y Celfyddydau, Treftadaeth a'r Gaeltacht mewn perthynas â'r Gaeltacht yw cefnogi gweithrediad y strategaeth 20 mlynedd ac felly o fewn y cyd-destun hwn, hyrwyddo'r Wyddeleg fel prif iaith y Gaeltacht. Mae'r adran yn cefnogi hyn trwy Gynlluniau Cefnogi'r Wyddeleg ac yn ariannu mudiadau a mentrau Gwyddeleg amrywiol.

Gallai'r Rhaglen helpu cefnogi'r cynlluniau a redir gan yr adran a gallai elwa o arweiniad a chyfeiriad wrth hyrwyddo'r Wyddeleg trwy gamau gweithredu'r blaenoriaethau.

126 Adran y Celfyddydau, Treftadaeth a'r Gaeltacht. Gweler: http://www.ahg.gov.ie/en/AnGhaeltacht/

### A.7.3. Cynllun Ailsefydlu Cenedlaethol Iwerddon 2011-2014[127]

Mae angen i'r Adran Cymunedau, Cydraddoldeb a Materion Gaeltacht gyfrannu arbedion o €35 miliwn erbyn 2014. Yn 2011 roed y cwtogiadau arfaethedig yn cynnwys gostyngiad mewn ariannu ar gyfer Datblygu Gaeltacht a'r Ynysoedd, gan ostwng yn benodol cyllid ar gyfer cynlluniau/gwasanaethau Gaeltacht (€1.4m), a gostyngiadau yn hyrwyddo a chynnal yr Wyddeleg gydag arbedion ar draws rhaglenni cefnogi'r Wyddeleg (€0.6m). Er mwyn helpu lliniaru effaith y gostyngiadau hyn ar unigolion a chymunedau Gwyddeleg eu hiaith, gall y Rhaglen hon helpu cefnogi gweithgareddau Gwyddeleg.

127 Llywodraeth Iwerddon (2010): 'The National Recovery Plan', ar gael yn: http://www.budget.gov.ie/The%20National%20Recovery%20Plan%202011-2014.pdf